



Adroddiad blynnyddol a datganiadau ariannol 2022/23

Banc Datblygu Cymru



Swyddogion a chyngorwyr proffesiynol

Cyfarwyddwyr

Gareth Bullock OBE Cadeirydd

Giles Thorley Prif Weithredwr

Huw Morgan Uwch Gyfarwyddwr

Annibynnol Anweithredol

ymddiswyddodd 17 Tachwedd 2022

Roger Jeynes Cyfarwyddwr Anweithredol
Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol penodwyd
18 Tachwedd 2022

Iraj Amiri Cyfarwyddwr Anweithredol

Carol Bell Cyfarwyddwr Anweithredol

Rhys Jones Cyfarwyddwr Anweithredol

Kate Methuen-Ley Cyfarwyddwr
Anweithredol

Robert Lamb Cyfarwyddwr Anweithredol

Iestyn Evans Cyfarwyddwr Anweithredol

Dianne Walker Cyfarwyddwr
Anweithredol

David Staziker Prif Swyddog Ariannol

Judi Oates Ysgrifennydd y Cwmni
Ymddiswyddodd 1 Rhagfyr 2022

Elizabeth Hitchings Ysgrifennydd y Cwmni
Penodwyd 1 Rhagfyr 2022

Swyddfa gofrestredig

Uned J, Pentref Busnes lâl,

Ellice Way,

Wrecsam

LL13 7YL

Bancwyr

Banc Barclays Ccc,

Blwch Post 69,

Heol y Frenhines,

Caerdydd

Archwiliwyr

Mazars LLP,

Archwilydd Statudol

30 Old Bailey,

Llundain

EC4M 7AU

Cynnwys

3 Cynnwys

4 Adroddiad Strategol

6 Uchafbwyntiau perfformiad

8 Datganiad y Cadeirydd

12 Adroddiad y Prif Weithredwr

16 Sefydliad wedi'i arwain gan bwrpas

18 Amcanion strategol cyfnod pum mlynedd 2022/27

20 Ein cronfeydd a'n gwasanaethau

22 Gweithio gyda Llywodraeth Cymru

24 Egwyddorion buddsoddi

25 Adroddiad y Cyfarwyddwr Buddsoddi

30 Cynnydd yn erbyn ein hamcanion strategol

58 Adroddiad am fuddsoddi ag effaith

64 Dirnad Economi Cymru

66 Adran 172

72 Adroddiad Prif Swyddog Ariannol

86 Rheoli risg

104 Llywodraethu

138 Adroddiad yr archwilydd annibynnol

150 Datganiadau ariannol




Adran un


Adroddiad Strategol

Uchafbwyntiau perfformiad


Cyfanswm buddsoddiad blynnyddol (£m)




Swyddi wedi'u creu a'u diogelu



Cyd-fuddsoddiad (£m)



Nifer y busnesau



Perfformiad blynnyddol

**435**

Nifer y busnesau

**516**

Nifer y buddsoddiadau

**£240,747**

Maint y fargen ar gyfartaledd

**163**

Unedau tai

**71,882**Troedfedd sgwâr o ofod
eiddo masnachol**£48.3m**

Cyllid datblygu eiddo

**282**

Nifer y cydweithwyr

**88**

NPS® cwsmer

**67**

NPS® gweithwyr

Datganiad y Cadeirydd

Mae'r flwyddyn ddiwethaf hon wedi bod yn gadarnhaol i'r Banc Datblygu gan ein bod wedi ateb neu fynd y tu hwnt i'r rhan fwyaf o'n prif dargedau gweithrediadol mewn amgylchedd economaidd anodd. Fel banc sy'n defnyddio arian trethdalwyr, mae'n rhaid i ni yn anochel fesur ein hunain yn erbyn targedau ariannol caled ond mae ein brand adfywiedig a'n pwrpas diwygiedig eleni yn ein hatgoffa y tu ôl i'r rhifau hynny mae pobl, busnesau a chymunedau Cymru rydym yn helpu i ddod â'u huchelgeisiau yn fyw.

Mae'r Bwrdd yn gywir i fod yn falch o dîm rheoli profiadol a diwyd y Banc mae ein Prif Swyddog Gweithredol, Giles Thorley, wedi'i arwain at y swm buddsoddi blynnyddol mwyaf erioed o £124.2 miliwn. Cwblhaodd y tîm 516 o fuddsoddiadau unigol a chrëodd neu ddiogelodd 4,669 o swyddi, cynnydd arwyddocaol o 32% ar llynedd.

Ymgymrir â'n holl waith caled o fewn fframwaith manwl sydd yn awr wedi'i gynnwys yn ein llythyr gorchwyl oddi wrth Weinidog yr Economi i Fwrdd y Banc Datblygu ynghyd â'n cynllun corfforaethol. Mae'r cyfnod hwn o orchwyl llywodraeth, yn wahanol i'r gyfres flaenorol o lythyrau gorchwyl blynnyddol, yn benthyg ei hun i'r realiti o sut y darperir gwerth gorau i economi Cymru orau. Mae'r rhan fwyaf o'n huchelgeisiau a'n targedau yn gofyn am gynllunio strategol manwl yn ogystal â darparu adnoddau a phrofi penodol, wedi'i ddilyn gan gyfnodau estynedig o weithredu. Nid yw'r fath brosiectau yn gallu cael eu cwblhau mewn blwyddyn galindr unigol. Rydym felly'n croesawu'r gofod i allu cynllunio i weithredu agenda ystyriol ac uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o fewn ei gorchwyl gwytnwch economaidd ac ailadeiladu.



Rheoli cyllid

O fewn ein gweithgaredd craidd o ariannu mentrau micro i ganolig yng Nghymru rydym wedi gwrandu ar ein rhanddeiliaid a'n cwsmeriaid ac wedi canolbwytio ar ddarparu mynediad helaethach at gyfalaf tymor estynedig a chynyddu ein defnydd o gronfeydd ecwiti. Mae gan rai o'n cronefeydd yn awr y gallu i wneud benthyciadau detholedig a chyfnodau ad-dalu o hyd at 15 mlynedd, gan gyfyngu ar effaith ad-daliadau dyled ar lif arian rheolaidd a helpu perchnogion busnesau i gymryd golwg tymor hwy. Er yn cydnabod mai derbyn cyfranddalwr arall yw un o'r penderfyniadau mwyaf y bydd busnes yn ei gymryd, rydym yn credu'n gryf bod ehangu ein defnydd o gronfeydd ecwiti yn ffordd iach i berchnogion busnesau rannu risg, dad-drosoli mantolenni a chael budd o gymorth y partner dibynadwy, adeiladol mae'r banc datblygu yn anelu at fod bob amser.

Fel rhan o'r amrediad ehangach o weithgareddau mae'r Banc yn ymgymryd â nhw yn awr, rydym hefyd wedi parhau i ddefnyddio ein sgiliau a'n harbenigedd i helpu Llywodraeth Cymru i gyllido prosiectau seilwaith cyhoeddus pwysig trwy'r ymagwedd Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Mae hyn yn helpu i gyflwyno buddsoddiad mewn prosiectau strategol pwysig nad ydynt yn gallu bod yn sicr o ddenu cyfalaf sector preifat. Bydd yr ymagwedd newydd yn sicrhau bod prif prosiectau trafnidiaeth, ysbytai ac ysgolion yn cael eu cwblhau.

FW Capital

Mae ein his-gwmni cofrestredig Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) FW Capital yn rheoli cronefeydd yng Ngogledd Lloegr gan gynnwys contractau rhanbarthol gyda Banc Busnes Prydain. Cyrhaeddodd buddsoddiad blynnyddol dros £38 miliwn ar gyfer 86 busnes gwahanol yn ystod y flwyddyn, record i'r tîm. Un o fuddion gweithgaredd FW Capital yw'r defnydd o gronfeydd i mewn i ardaloedd sy'n ffinio â Chymru sy'n ein galluogi i wneud y mwyaf o werth posibl ein buddsoddiadau lle mae ffiniau daearyddol ond nid economaidd. FW Capital yw'r cerbyd awdurdodedig hefyd ar gyfer buddsoddiad £10 miliwn Cronfa Bensiwn Clwyd i mewn i Gronfa Olyniaeth Rheoli Cymru ac mae'n gwella ein graddfa, pwll talent a galluoedd cyffredinol gan greu lle ychwanegol er mwyn datblygu profiad, syniadau, a strwythurau cyllido newydd.



Ffocws amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant

Mae egwyddorion Adduned Contract Economaidd Llywodraeth Cymru wrth galon popeth a wnawn, ac rydym yn mireinio ein mein prawf gwneud penderfyniadau buddsoddi wedi'u canolbwytio'n amgylcheddol, cymdeithasol ac o ran llywodraethiant i sicrhau ein bod yn cynorthwyo cyflogaeth o ansawdd yn fwy lleol; gwella cynhyrchiant busnes, llywodraethiant, a chynaliadwyedd; hyrwyddo diwylliant o arloesi; ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth a chadwyni cyflenwi lleol. Mae'r metrigau yn ein fframwaith effaith yn gydhaws â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a gwelodd eleni ni yn ymuno â chynllun cynaliadwyedd corfforaethol gwirfoddol mwya'r byd, Egwyddorion ar gyfer Buddsoddi Cyfrifol (PRI). Mae hyn yn rhoi glasbrint i ni ar gyfer buddsoddi cyfrifol sy'n sicrhau bod gan ein risg iau ariannol y cyfle gorau o gynhyrchu canlyniadau byd go iawn cadarnhaol; mae hi'n ymagwedd ymarferol, nid yn ymarfer ticio blwch.

Uchelgais bwysig yn ein gorchwyl yw chwarae'r rôl ystyrlon mewn cynorthwyo Llwybr Sero Net 2050 a osodwyd gan Llywodraeth Cymru ym Mawrth 2021. Cam cyntaf hollbwysig yn ystod y flwyddyn oedd lansio ein Cymhelliaid Cartrefi Gwyrdd a'r Cynllun Benthyciadau Busnesau Gwyrdd, a'i fan cychwyn oedd ein hawydd i ymateb i angen marchnad a gafodd ei adnabod trwy weithredu'n gyflym ac yn adeiladol mewn sector polisi hanfodol. Yn yr ysbyrd o beidio â gadael i'r gorau fod yn elyn i'r da, ein hymagwedd yw 'profi a dysgu' wrth i ni geisio datblygu strwythurau ariannu sydd o bosibl yn gallu gweddu i brosiectau sy'n cynorthwyo datgarboneiddio yn economi Cymru ac yn helpu i sefydlu a blaenoriaethu cymwysterau amgylcheddol fel rhan o fusnes fel arfer. Rydym wedi'n calonogi'n fawr gan dystiolaeth gynnar galw'r cwsmeriaid.

Adferiad economaidd a thwf i'r dyfodol

Cafodd Cynllun Benthyciad Busnes Covid-19 Cymru ei lansio ym Mawrth 2020 mewn ymateb i'r pandemig. Wrth i ni adfer ar ôl gyfnod tair blynedd anodd iawn, mae llawer o ddyfalu yn y cyfryngau am berfformiad ariannol rhai cynlluniau argyfwng a gefnogir gan y llywodraeth. Er mwyn bod yn eglur am ein Cynllun Benthyciad Busnes Covid-19 Cymru, rwy'n falch o adrodd bod 40% o'r £92 miliwn a ddarparwyd gan y Banc i 1,331 o fusnesau Cymru yn ystod y cyfnod hwn wedi cael ei ad-dalu yn awr. Mae ein graddfa ddiffygddalu isel ar hyn o bryd o 4.6% yn briodoladwy i raddau helaeth i feini prawf cymhwyster a diwydrwydd dyledus cwsmeriaid ac rydym yn rheoli'r portffolio hwn yn agos iawn i sicrhau ein bod yn cyfyngu a'r ddiffygddaliadau ychwanegol.

Byddwch yn cofio y llynedd i mi roi rhybudd o ofal am yr amgylchedd economaidd. Mae chwyddiant yn parhau'n uchel ac mae twf economaidd yn styfnig o isel eleni. Er ein bod yn gweld nifer fawr o gwsmeriaid yn symud i mewn i'n categorïau risg credyd uwch, gan ofyn am graffu a chymorth dwysach, mae hyn yn cyfeithu'n anochel i gynnydd mewn lefelau darparu benthyciadau a rhywfaint o effaith negyddol ar brisiadau buddsoddiadau. Mae ein ffocws ar sicrhau adferiadau o ddiffygddaliadau wedi helpu i lliniaru'r effeithiau negyddol ar ein mantolen. Ar yr un pryd, mae newidiadau mewn archwaeth am risg credyd o fenthycwyr y stryd fawr yn dod â chwmnïau i mewn na fyddai yn hanesyddol wedi dod atom fel darpar gwsmeriaid. Wrth i'r pwyseddau economaidd barhau, byddwn yn parhau'n wyliadwrus ac yn parhau yn ein hymdrehchion i ganfod datrysiau effeithiol ar gyfer y rheini o'n cwsmeriaid sydd o dan straen tra'u bod yn aros am ddychwelyd i gyfraddau sylfaen sefydlog, chwyddiant is, a thwf economaidd cadarnhaol.

Cyflawni ar gyfer pobl Cymru

Mae ein busnes yn ymwneud gymaint â phobl ag y mae ag arian, naill ai'n staff, cwsmeriaid, neu randdeiliaid.

Rwy'n hapus iawn â'r berthynas gadarnhaol ac adeiladol rydym wedi ei hadeiladu â nifer gynyddol o adrannau o fewn Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn ein galluogi i ddatblygu amrediad ehangach o syniadau a datrysiau a fydd ymhen amser yn cynyddu'r llif a'r amrywiaeth o gyllid i mewn i fusnesau Cymru.

Mae ein Bwrdd Cyfarwyddwyr a'n rheolwyr yn parhau i ymgysylltu ag amrediad eang o randdeiliaid, gydag ailgychwyn digwyddiadau a chyfarfodydd yn y cnawd yn enwedig gan ganiatáu perthnasoedd personol sy'n parhau yn ffactor hollbwysig mewn cyfathrebu, cydweithio a deall effeithiol.

Trwy strategaeth benderfynol o recriwtio a datblygiad proffesiynol mae'r banc wedi adeiladu tîm ardderchog o swyddogion proffesiynol sy'n cynorthwyo datblygu economi Cymru. Mae llawer wedi datblygu galluoedd arbenigol ac mae ein gallu i gynnig amlygiad i amrywiaeth a swm mawr o drafodion busnes i'n swyddogion yn golygu ein bod hefyd yn datblygu swyddogion cyllid proffesiynol y dyfodol â phrofiad ymarferol dwfn. Rwy'n neilltuol o fodlon a balch ein bod yn cyflogi ac yn datblygu graddedigion ifanc a'n bod yn gwneud buddsoddiad sylweddol mewn datblygiad proffesiynol, gan gynnwys hyfforddi a mentora. Rwy'n hoffi meddwl ein bod wedi creu'r Banc Datblygu fel canolfan ragoriaeth mewn cyllido busnes micro i ganolig i Gymru.

Rwy'n parhau ag argraff dda ac yn ddiolchgar fod y Banc yn gwneud cynnydd da yn erbyn yr holl amcanion polisi a amlinellir yn ein gorchwyl. Unwaith eto, mae fy niolch diffuant yn mynd i'n holl staff y mae eu proffesiynoldeb ac ymroddiad yn helpu i wneud Cymru yn lle deniadol i fyw, gweithio a buddsoddi. Mae pawb ohonom yn y Banc Datblygu yn benderfynol o wneud mwy ac yn well.

Gareth Bullock OBE, Cadeirydd

31 Awst 2023

Adroddiad y Prif Weithredwr

Ein pwrpas ym Manc Datblygu Cymru yw dod ag uchelgeisiau yn fyw a thanio posibiliadau trwy gynyddu cyflenwad a hygyrchedd cyllid lle mae methiant marchnad yn bodoli.



Yn erbyn cefnlen o brisiau ynni cynyddol, ansicrwydd economaidd, ac argyfwng costau byw yn codi, fe aethom i mewn i'r flwyddyn yn fwy penderfynol nac erioed i sicrhau bod gennym y cyllid a'r gallu angenrheidiol i ateb galw cwsmeriaid.

Wrth i fanciau'r stryd fawr dynhau eu polisiau credyd wrth rag-weld cyfraddau llog uwch a dirwasgiad posibl, fe safom wrth ein haddewid o fod yn agored trwy'r amser; ac, wrth i ni gyrraedd ein pumed pen-blwydd yn Hydref 2022, nid yw galw am gyllid erioed wedi bod mor gryf.

Mae cydnabod yr her enfawr mae perchnogion busnesau bach ac entrepreneuriaid wedi ei hwynebu yn yr amgylchedd economaidd anos hon, yn golygu bod fy mantra i barhau'n gefnogwyr a phencampwyr gweithredol i entrepreneuriaid prin erioed wedi bod yn bwysicach. Felly, mae'n rhaid i mi â theimladau cymysg ddechrau fy adroddiad ar gyfer 2022/23 trwy ddweud ein bod wedi mynd y tu hwnt i'n targedau yn ogystal â'n disgwyliadau gan wneud 516 buddsoddiad sy'n gyfanswm o £124.2 miliwn a chyd-fuddsoddiad o £114.5 miliwn.

Mae'n dystiolaeth i aeddfedrwydd ein busnes ac i ymroddiad ein tîm ein bod yn gallu cynorthwyo 435 o fusnesau trwy gydol y flwyddyn. Roedd dros hanner y rheini yn gwsmeriaid presennol yn ein portffolio, adlewyrchiad o'r pwyslais a roddwn ar sicrhau perthynas waith dymor hir â'r rheini rydym yn eu cylido. Nid yw wedi bod erioed, ac ni fydd byth, ynglŷn â chael arian allan o'r drws yn unig.

Darparu cyllid dyled ac ecwiti ag effaith gymdeithasol

Nid yw ein buddsoddiad i fusnesau llai ond yn rhan fechan iawn o'r cyllid sydd ei angen i'r economi fusnes dyfu a ffynnu. Fy nghred i yw y bydd ein hyder yn economi Cymru yn annog eraill i gynnwl ac estyn eu hymrwymiad ariannol i fusnes Cymru.

Mae'r dirwedd gyllido hefyd yn newid gyda chwaraewyr newydd yn y farchnad a lansiad cronfa gwerth £130 miliwn i Gymru gan Fanc Busnes Prydain eleni a chronfa Buddsoddi Cyfalaf Arloesedd gwerth £50 miliwn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a lansiwyd ym mis Tachwedd 2022. Rydym yn croesawu'r cyllid newydd hwn gan mai un o'n prif gyfrifoldebau yw meithrin a thyfu'r farchnad ariannol yma yng Nghymru. Rydym felly'n gweithio'n agos gyda'r cyllidwyr newydd hyn i sicrhau bod pob cyllid yn gyflenwol ac wedi'i ganolbwytio i fynd i'r afael â bylchau gwirioneddol yn y farchnad.

Rydym hefyd yn addasu i farchnad heb Gyllid Undeb Ewropeaidd. Mae paratoi ar gyfer hyn wedi bod ar y gweill ers refferendwm 2016. Mae gennym ymrwymiad Llywodraeth Cymru ac mae ein Cronfa Fuddsoddi Hyblyg Cymru wedi'i chyfalafu'n dda fel y mae ein Cronfa Olyniaeth Rheoli Cymru. Mae hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa dda ar gyfer beth bynnag sydd gan y dyfodol i'w gynnig.

Mae'r sector preifat yn chwarae'r rôl bwysig, ac mae'n rhoi boddhad i weld y lefelau uchel o gyd-fuddsoddi yn 2022/23, gan gynnwys rowndiau cyllido graddfa fawr yn cael eu cwblhau gan Coin Cover, QLM a Creo Medical yn ystod y flwyddyn.

Fel un o'r buddsoddwyr cyfalaf menter mwyaf gweithredol yn y DU, rydym wedi parhau i ddarparu cyllid ecwiti fel galluogwr allweddol o dwf busnes. Mae'n chwarae'r rôl bwysig yng nghylch bywyd cyflawn cyllid busnes o'r hedyn a buddsoddiad cam cynnar at fusnesau sefydlog, dan berchnogaeth breifat sy'n bwriadu cyllido olyniaeth ac ymadael. Yn wir, cafodd dros £20 miliwn ei fuddsoddi mewn cytundebau olyniaeth yn ystod y flwyddyn, gan gadw cyfoeth ac ewylls da yng Nghymru. Rwy'n falch o adrodd bod gennym lif cyson o gytundebau yn yr arfaeth ar gyfer 2023/24.

Mae darparu cyllid dyled ac ecwiti ag effaith gymdeithasol yn helpu i hwyluso diwylliant entreprenaidd yng Nghymru o fusnesau sylfaenol i rai twf uchel. Mae hyrwyddo entreprenoriaid ifanc, a gweithgaredd wedi'i anelu at gynyddu cyfranogaeth gan entreprenaaid benywaid ac ethnig leiafrifol, wedi bod yn rhan bwysig o'n Gwaith yn 2022/23 i adeiladu economi amrywiol a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol fel y mae ein gwaith gyda grwpiau a dangynrychiolir i helpu gwella cyflawnder cymdeithasol a chynhwysiad ariannol.



Hyrwyddo a datblygu dyfodol gwyrdd yng Nghymru

Mae ein cynllun corfforaethol pum mlynedd ar gyfer 2022/27 yn amlinellu ein hymrwymiad i gynorthwyo ein cwsmeriaid newydd a phresennol i fynd i'r afael â datgarboneiddio, lleihau eu defnydd o ynni ac ysgogi'r esblygiad i Gymru garbon isel.

Atebwyd y galw ar unwaith am lansiad y Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd a derbyniwyd 33 o ymholiadau busnes newydd yn ystod y mis cyntaf yn unig. Mae hyn yn amlygu bod y farchnad yn barod am offer ariannol arloesol sy'n gallu a bydd yn hyrwyddo'r uchelgeisiau ar gyfer dyfodol gwyrdd yng Nghymru. Rydym wedi parhau i wella ein gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth trwy gydweithio â rhanddeiliaid fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Difodol i Gymru, Innovate UK, a NESTA, asiantaeth arloesi'r DU er lles cymdeithasol. Fe wnaethom hefyd ymuno â Fforwm Cyllid Gwyrdd a Chynaliadwyedd Sefydliadau Ariannol Cyhoeddus y DU ynghyd â chyrff eraill fel Banc Busnes Prydain, Banc Seilwaith y DU a Banc Cenedlaethol yr Alban i ystyried sut y gallwn rannu mewnwelediad ac arbenigedd orau i hyrwyddo buddsoddiad effaith ledled y DU.

Mae gwella effeithlonrwydd ynni stoc tai Cymru yn un arall o'r prif heriau amgylcheddol a wynebwn. Mae lansiad ein Cymhelliaid Cartrefi Gwyrdd £33 miliwn yng Ngorffennaf 2022 yn rhoi gostyngiad i ddatblygwyr cartrefi newydd mewn ffioedd ad-dalu benthyciadau o hyd at 2% yn ddarostyngedig i feini prawf cynhwysos y'n cynnwys statws Graddiad A EP/Passivhaus, strwythurau heb fod yn goncrit a systemau gwresog i heb fod yn danwydd ffosil. Fodd bynnag, y dasg fwy

yw cynorthwyo datgarboneiddio'r stoc tai presennol yng Nghymru a bydd hyn yn parhau i fod yn ffocws i ni wrth i ni symud i mewn i 2023/24. Bydd ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru a NESTA yn helpu i adnabod y prif gyfleoedd effeithlonrwydd i ddeiliaid tai.

Mae ein Cronfa Ynni Lleol wedi helpu grwpiau cymunedol, mentrau cymdeithasol, modelau perchnogaeth lleol a Mentrau Bach a Chanolig. Mae estyniad naturiol o'r gronfa hon o dan ystyriaeth ar gyfer cynlluniau cymunedol mwy fel gwynt ar y tir a chynhyrchu ynni solar a allai greu cylch rhinweddol ag elw'r buddsoddiad yn cael ei ddychwelyd i'r gymuned i fuddsoddi ymhellach mewn busnesau lleol. Mae gan faint ein sylfaen cwsmeriaid y potensial hefyd i gynorthwyo ymdrechion i weld Cymru yn dod yn ganolfan ar gyfer technolegau gwyrdd. Mae'n ennill bob tro ac mae'n ffitio'n braf â'n ffocws ar fuddsoddiadau ESG.

Rhagoriaeth cyflawni, yn wynebu cwsmeriaid, cynaliadwyedd ariannol

Mae popeth a wnawn yn y farchnad yn cael ei gefnogi gan ymchwil Dirlad Economi Cymru. Ymunwyd â'r cydweithio unigryw rhwng y Banc Datblygu, Ysgol Fusnes Caerdydd a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) gan Ysgol Fusnes Bangor a'r Ganolfan Ymchwil Mentergarwch yn Hydref 2022. Gyda'n gilydd rydym yn datblygu mewnwelediadau ychwanegol i'r materion sy'n effeithio ar Economi Cymru fel y gallwn barhau i ateb anghenion newidiol ein cwsmeriaid.

Mae'r cydweithio hwn yn neilltuol o bwysig wrth ystyried bod yr adroddiad chwarterol a gyhoeddwyd yn gynnar yn 2023 yn awgrymu bod amodau heriol yn parhau i Fentrau Bach a Chanolig yng Nghymru. Rydym felly yn olrhain yr hyn sy'n digwydd yn ein heconomi yn

ofalus ac mae'r data hyn yn cael eu defnyddio i wneud y mwyaf o effaith cyflawni ac yn dangos gwerth amlwg am arian wrth i ni ddatblygu ein cymorth i gwsmeriaid.

Rydym hefyd yn gwybod bod prif randdeiliaid fel y Ffederasiwn Busnesau Bach, Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr a Busnes Cymru yn wirioneddol werthfawrogi'r wybodaeth a gynhyrchir.

Wrth gwrs, mae ein gallu i ehangu cyflawni yn gyflym yn unol ag anghenion cynyddol y farchnad yn briodoladwy i raddau helaeth i fuddsoddiad parhaus yn ein systemau a'n prosesau a'n pobl. Fe wnaethom groesawu 60 o ddechreuwyr newydd i dîm y Banc Datblygu yn 2022/23, gan gymryd cyfanswm ein cyfrif pennau i 282. Roeddwn i hefyd yn neilltuol o fodlon i gadarnhau deg dyrchafiad mewnol, pob un ohonynt wedi dod trwy ein fframwaith datblygu gyrfa.

Edrych ymlaen

Wrth i ni gychwyn ar ail flwyddyn ein cynllun corfforaethol diweddaraf, rwyf am ddiolch i'n tîm, ein Bwrdd Cyfarwyddwyr a Gareth Bullock fel ein Cadeirydd am bopeth maen nhw wedi ei wneud trwy gydol 2022/23 i gynorthwyo busnesau ar hyd a lled Cymru. Mae wedi bod yn ymdrech tîm gwirioneddol.

Ein pobl yw ein hased mwyaf ac yn sylfaenol i'n llwyddiant tymor hir. Byddwn yn symud ymlaen yn 2023/24 trwy weithio gyda'n cydweithwyr i gynnal rhagoriaeth cyflawni ar gyfer cynaliadwyedd tymor hir economi Cymru a'r busnesau rydym yn eu cynorthwyo.

Giles Thorley, Prif Weithredwr
31 Awst 2023

Sefydliad wedi'i arwain gan bwrpas

Pwrpas

Dod ag uchelgeisiau'n fyw a hybu posibiliadau i bobl, busnesau a chymunedau yng Nghymru.

Gorchwyl

Datgloi potensial yn economi Cymru trwy gynyddu cyflenwad a hygyrchedd cyllid cynaliadwy, effeithiol.

Gwerthoedd


- **Cydweithio clyfar**
- **Egni entrepreneuraid**
- **Empathi gwrthrychol**
- **Cyfrifoldeb ymwybodol**

Targedau cyflawni 2022/27

Targedau cyflawni llinell sylfaen 2022/27

2,200


Cynorthwyo dros 2,200 o fusnesau

1,900


Cyllido 1,900 o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu

20,000


Dros 20,000 o swyddi wedi cael eu cefnogi

£650m


Buddsoddi dros £650 miliwn yn uniongyrchol i mewn i gwmniau Cymreig

Cyflawni ar ein hadduned i Gynllun Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru Gweithio Gyda'n Gilydd i Gyrraedd Sero Net

60


Cynnal NPS®
cwsmeriaid o 60

60


Cynnal NPS®
gweithwyr o 60

1:1


Targedu cydfuddsoddiad
ar gronfeydd busnes o 1:1

Amcanion strategol cyfnod pum mlynedd 2022/27

Craidd:	Yn codi:	Gweithrediadol:
Darparu cyllid dyled ac ecwiti ag effaith gymdeithasol	Hyrwyddo a datblygu dyfodol gwyrdd yng Nghymru	Rhagoriaeth cyflawni, cwsmer yn gyntaf, cynaliadwyedd ariannol
1. Hwyluso diwylliant entreprenaidd yng Nghymru, o'r sylfaen i fusnesau twf uchel	1. Defnyddio ein safle a'n dylanwad i hyrwyddo trawsnewid cadarn a chymesur i ddyfodol gwyrdd ar draws yr ecosystem fusnes yng Nghymru	1. Sicrhau cyflawni cyd-weithrediadol ac ymatebol sy'n ateb anghenion esblygol cwsmeriaid
2. Cefnogi cynhwysiad ariannol ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir a chreu effaith gadarnhaol yn economi Cymru	2. Datblygu offer ariannol arloesol i hybu'r uchelgeisiau ar gyfer dyfodol gwyrdd yng Nghymru	2. Sefydlu cynaliadwyedd ariannol i'r tymor hir trwy ddefnydd arloesol o gyfalaf ar gyfer anghenion marchnad parhaol
3. Gweithio gyda'n cwsmeriaid newydd a phresennol i'w hannog i adnabod a blaenorriaethu cyfleoedd effaith gymdeithasol fel rhan o'u cynllunio busnes	3. Gwella ein gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o effeithiau newid hinsawdd a rôl cyllid mewn darparu datrysiau yn barhaus	3. Gwneud y defnydd mwyaf o'n gallu i gynorthwyo cyflawni polisi'r llywodraeth trwy ein strwythur ac arbenigedd



Holbrook Dubs
Bro Morgannwg

Ein cyllid a'n gwasanaethau

- Dyled
- Ecwiti
- Dyled ac Ecwiti

Cronfa	Hedyn	Technoleg cyfnod cynnar	Dechrau busnes	Twf	Olyniaeth	Eiddo	Ariannu gwasanaethau gweinyddol
Cronfeydd Busnes							
Cronfa Buddsoddi Cyd Angylion Cymru			£25k - £250k				
Cronfa Busnes Cymru				£50k - £5m			
Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru*				£25k - £10m			
Cronfa Olyniaeth Rheolaeth Cymru					£500k - £3m		
Cronfa Micro Fenthyciadau Cymru			£1k - £50k				
Cronfa Achub ac Ailstrwythuro Cymru					£50k - £2m		
Cronfa Sbarduno Technoleg Cymru II	£50k - £450k						
Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru			£100k - £5m				
Cronfa Ynni Lleol			£50k - £2m				

*(yn cynnwys Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd)

Cronfa	Hedyn	Technoleg cyfnod cynnar	Dechrau busnes	Twf	Olyniaeth	Eiddo	Ariannu gwasanaethau gweinyddol
Cronfeydd Datblygu Eiddo							
Cronfa Safleoedd						£150k - £6m	
Segur Cymru							
Cronfa Eiddo						£250k - £5m	
Masnachol Cymru							
Cronfa Datblygu						£150k	
Eiddo Cymru II						- £6m	
Benthyca Personol ar gyfer Cartrefi							
Cymorth i Brynu -						£1k - £50k	
Cymru							
Hunanadeiladu						% o'r gost	
Cymru						Adeiladu	
Cynllun Cymorth i							
Lesddeiliaid							
Isadeiledd							
Model Buddsoddi							
Cydfuddiannol							
FW Capital							
Cronfa Fuddsoddi					£100k - £750k		
Northen Powerhouse							
Cronfa Eiddo						£250k - £2m	
Gogledd Ddwyrain							
Lloegr							
Cronfa Buddsoddi						£1m	
mewn Eiddo						- £7m	
Masnachol y							
Gogledd Ddwyrain							

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru

Vaughan Gething MS

Gweinidog yr Economi

"Rwy'n falch iawn o weld Banc Datblygu Cymru yn cyflawni'r lefelau uchaf erioed o fuddsoddiad ecwiti gyda set o ganlyniadau sy'n profi pa mor ased y mae wedi dod i economi Cymru.

Crëodd Llywodraeth Cymru fanc rhanbarthol cyntaf y DU i helpu busnesau i gael mynediad at y cyllid cynaliadwy ac effeithiol sydd ei angen arnynt i dyfu a datblygu. Trwy ei gyfres eang o gronfeydd, mae'r Banc wedi helpu cannoedd o fusnesau mewn ystod amrywiol o sectorau i drosoli buddsoddiad a chreu swyddi.

"Byddwn yn gweithio gyda'r Banc wrth iddo barhau i arloesi, gan gyflwyno cynhyrchion newydd i helpu busnesau i leihau eu defnydd o ynni a thrawsnewid i Sero Net. Edrychaf ymlaen at ein partneriaeth barhaus yn ystod cyfnod heriol wrth i ni weithio i gefnogi swyddi gwell mewn busnesau cryfach ledled Cymru."



Rebecca Evans MS

Gweinidog Cyllid

"Yn wyneb helbul economaidd a'r heriau ariannol canlyniadol sy'n wynebu busnesau ledled Cymru, mae'r Banc Datblygu wedi datblygu ei gefnogaeth i'n heconomi ymhellach. Mae'r Adroddiad Blynnyddol hwn yn nodi sut mae'r Banc Datblygu yn darparu cyllid hanfodol, gan helpu busnesau i ddatblygu a thyfu.

"Fel partner cyflawni allweddol, rydym yn parhau i weithio gyda'n gilydd i adeiladu economi nawr ac ar gyfer dyfodol Cymru yn seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd a thegwch.

"Diolch i'r rhai yn y Banc am eu proffesiynoldeb a'u hymrwymiad i wasanaethu'r gymuned fusnes yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf."



Julie James MS

Gweinidog Newid Hinsawdd


"Rwy'n croesawu'r camau a gymerwyd gan Fanc Datblygu Cymru i rannu ein gweledigaeth ar gyfer mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a symud tuag at Sero Net.

"Mae'r Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd newydd yn mynd i'r afael â'r galw gan fusnesau am gyllid gwyrdd drwy helpu busnesau i oresgyn rhwystrau i fuddsoddi mewn datgarboneiddio, yn ogystal â darparu modd i wrthsefyll costau ynni uchel.

"Yn ogystal, mae'r Cymhelliant Cartrefi Gwyrdd yn cynnig gostyngiadau graddol mewn benthyciadau eiddo yn seiliedig ar faint o fesurau effeithlonrwydd ynni a charbon isel y mae datblygwyr BBaChau yn eu hymgorffori yn eu datblygiadau tai.

"Rwy'n falch bod Banc Datblygu Cymru yn parhau i weithio gyda ni i ddod o hyd i ffyrdd o fynd i'r afael â'r gwahanol anghenion tai sydd gan bobl Cymru drwy ddarparu cyllid eiddo gyda mwy o bwyslais ar ddarparu cartrefi carbon isel.

"Bydd hyn nid yn unig yn gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi newydd ond hefyd yn helpu i leihau costau i berchnogion tai, sydd mor bwysig yn ystod yr argyfwng costau byw parhaus.



Egwyddorion buddsoddi

Mae ein hegwyddorion buddsoddi yn ategu ein rôl a'n safle mewn cynorthwyo datblygiad economaidd yng Nghymru. Maen nhw wedi'u cynllunio i ateb uchelgeisiau ein cyfranddalwyr, gan ystyried capasiti ein gweithrediadau a rheoliadau'r farchnad.

Chwe egwyddor graidd ein hymagwedd at fuddsoddi yw:

- Rydym yn gweithredu lle mae **methiant marchnad**, gan gynorthwyo cyfle economaidd trwy drefnu bod cyllid ar gael i fusnesau hyfwy ac rydyn ni'n ymateb i anghenion esblygol y farchnad a chwsmeriaid.
- Rydym yn buddsoddi ar **delerau masnachol**, gan brisio'r buddsoddiad yn deg i adlewyrchu'r risg. Mae hyn yn sicrhau nad ydym yn dadleoli'r sector preifat, a'n bod yn cynhyrchu elw y gellir ei ailgylchu i gwsmeriaid newydd, gan greu ased tymor hir, gwerth am arian i Gymru.
- Rydym yn **fuddsoddwr amyneddgar**, yn darparu cyllid hygrych i gynorthwyo cynaliadwyedd tymor hir y busnesau rydym yn eu cyllido.
- Rydym yn cydweithio'n agos â'r sectorau preifat a chyhoeddus a **chyd-fuddsoddi tyrfa sector preifat** lle bynnag y bo'n bosibl i gynyddu llif cronfeydd yng Nghymru.
- Rydym yn buddsoddi ar gyfer effaith gadarnhaol ariannol a heb fod yn ariannol yn y cymunedau rhanbarthol a wasanaethwn. Mae **amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant** yn ystyriaethau wedi'u sefydlu'n gymesur yn ein penderfyniadau buddsoddi.
- Rydym yn fuddsoddwr cyfrifol, gan ddarparu **gwasanaethau rheoli buddsoddi arbenigol, annibynnol**. Mae ein tîm profiadol yn ychwanegu gwerth at y busnesau rydym yn gweithio gyda nhw, ar gyfer oes y berthynas.

Adroddiad y Cyfarwyddwr Buddsoddi

Mae 2022/23 wedi bod yn flwyddyn fawr i fuddsoddiadau. Mae'r rhifau yn drawiadol a swm uchaf o gyllid ecwiti a dyled gwerth £124.2 miliwn yn cael ei ddyfarnu i fusnesau yn amrywio o rai newydd i olyniaeth rheoli gan rychwantu pob sector a chyrraedd pob cwr o Gymru.



Gwelodd fuddsoddiadau ecwiti dwf a chynnydd o tua 97% o £11.6 miliwn yn 2021/22 i £22.9 miliwn yn 2022/23. Mae hyn yn adlewyrchu'r ymdrechion rydym wedi'u rhoi i addysgu busnesau ar werth buddsoddi ecwiti a'r gwaith rydym wedi'i wneud gyda chyllidwyr a chyd-fuddsoddwyr eraill fel Wesley Clover, Mercia a Pi Labs i hyrwyddo'r cyfleoedd masnachol yma yng Nghymru ac i ysgogi galw.

Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod amodau economaidd yn fregus o hyd ac mae data gan ein partneriaid ymchwil yn Nirnad Economi Cymru yn awgrymu risg o fethdaliadau cynyddol yn y flwyddyn sydd i ddod. Rydym yma i helpu'r busnesau hynny sy'n wynebu amser anodd, gan gamu i mewn i ddarparu cyllid lle mae methiant marchnad yn bodoli.

Wrth gwrs, rydym yn gweithredu ar delerau masnachol, ond rydym yn cydnabod yr angen i gyflawni cydbwysedd o ganlyniadau cymdeithasol ac ariannol. Mae hyn wedi bod yn brif ysgogwr ein twf yn y flwyddyn ddiwethaf wrth i fenthycwyr y stryd fawr dynnu allan o'r farchnad, gan roi'r cyfle i ni gamu i mewn a llenwi'r bylchau. Mae'n esbonio hefyd pam mae maint ein cytundebau ar gyfartaledd wedi tyfu dros y flwyddyn ddiwethaf o 14% i £240,748.

Twf o'r gwaelod i fyny

Mae twf cynaliadwy hirdymor ein heconomi yn dechrau gyda chefnogi entrepreneuriaid wrth iddynt symud eu syniad busnes o'r cysyniad i'r creu. Yn 2022/23 fe wnaethom fuddsoddi £14.32 miliwn mewn busnesau newydd a chefnogi 320 o wahanol fusnesau gyda micro fenthyciadau. Roedd bron hanner y rhain yn fenthyciadau trac cyflym i fusnesau yn masnachu ers dwy flynedd neu fwy, sy'n gwerthfawrogi'r penderfynu cyflym a'r broses ymgeisio syml.

Mae hwyluso diwylliant entrepreneuriaidd yng Nghymru yn golygu ein bod yn gweld rhagor o bobl ifanc yn ymgeisio am gyllid i gychwyn a thyfu eu mentrau busnes. Fe wnaethom fuddsoddi £16.9 miliwn mewn 111 o entrepreneuriaid ifanc eleni, cynydd o 106 yn 2021/22, ag un cwmni a gynorthwywyd â'r cyfarwyddwr a chyfrannodaliwr ifancaf yn 17 oed yn unig. Rosa Cundill o Gastell-nedd yn ysbrydoliaeth i ni i gyd wedi sefydlu ei becws ei hun yn gweini bara, crwst a chacennau organig â chymorth ei rhieni a benthyciad micro gan y Banc Datblygu.

Mae entrepreneuriaid ifanc a busnesau newydd yn rhan fawr o'n dyfodol yng Nghymru a dyna pam rydym yn awyddus bob amser i reoli ein perthnasoedd cwsmeriaid yn rhagweithiol a chynnig cymorth trwy gydol cylch bywyd busnes. Mae cyllid dilynol yn rhan bwysig o hyn wrth i fusnes gynyddu o ran graddfa ar gyfer twf. Er enghraift, mae buddsoddiad chwe ffigwr o'n Cronfa Fuddsoddi Hyblyg Cymru yn gynnar yn 2023 ar gyfer brand harddwch figan Mallows Beauty yn helpu i gyllido datblygu cynyrch a thwf allforio. Â chymysgedd o ddyled ac ecwiti, hon yw'r ail fuddsoddiad a wnaethom yn y busnes twf cyflym ers 2021.

Twf mewn sectorau allweddol

Mae twristiaeth yn fusnes mawr yng Nghymru, gan gyfrif am tua 8% o'n heconomi ac yn cyflogi dros 12% o'n gweithlu. Ond mae'n sector sy'n parhau i wynebu heriau sylweddol ar ôl Covid a phrinderau llafur a chostau cynyddol. Mar Cronfa Dwristiaeth Cymru wedi camu i fyny yn wirioneddol yn y flwyddyn ddiwethaf â £7.8 miliwn yn cael ei ddyfarnu i fusnesau twristiaeth sy'n dangos ymrwymiad gwirioneddol i Gontact Economaidd Llywodraeth Cymru.

Mae datblygiad eiddo masnachol hefyd wedi gweld twf sylweddol â buddsoddiad mewn 23 prosiect gwahanol yn gwneud cyfanswm o 163 o gartrefi newydd a 71,882 troedfedd sgwâr wrth i'n gwaith ar fynd barhau i aeddfedu ledled Cymru. Cynrychiolodd £6.7 miliwn o'n Cronfa Eiddo Masnachol bron dwbl y buddsoddiad a gafodd ei wneud yn 2021/22 a

datblygiadau fel FABCO Holdings yn agosáu at gwblhau 18 uned yng Nghwrt Felindre, rhan o Barc Technoleg Pencoed. Â chyllid gan y Banc Datblygu ym Mawrth 2023, mae pob un wedi cael eu rhagwerthu.

Mae'r sector eiddo hefyd yn cael budd o gyflwyniad ein Cymhelliaid Cartrefi Gwyrrdd. Y datblygwr preswyl cyntaf i gyrchu'r gronfa yn Ionawr 2023 oedd Wellspring Homes wedi'u lleoli yng Nghaerdydd â benthyciad o £1.2 miliwn i gyllido adeiladu wyth cartref cynaliadwy yn rhannol gan ddefnyddio Hempcrit yng Nghastell-nedd.

Yn y cyfamser, i ffwrdd o'r safleoedd adeiladu, performiodd ein cronefeydd technoleg yn dda hefyd gyda 31 o fentrau technoleg gwahanol wedi'u cefnogi drwy gydol y flwyddyn, sef cyfanswm o £10.9 miliwn. Roedd y twf hwnnw'n cynnwys trydydd buddsoddiad ecwiti ar gyfer Hut Six Security Limited, datblygwr cynhyrchion hyfforddiant diogelwch gwybodaeth seiliedig ar feddalwedd â'u pencadlys yng Nghasnewydd.

Twf mewn cydfuddsoddi

Helpodd ein cyllid Menter Bach a Chanolig i ddod â £114.5 miliwn ychwanegol o bartneriaid sector preifat neu drosoli 1:1.36 yn 2022/23. Mae hyn yn cynnwys tri chytundeb neilltuol o fawr â phecyn cyllid £32.3 miliwn i Creo Medical, £10.8 miliwn i QLM a £12 miliwn i Coincover. Mae pob un yn dangos sut mae ein cyllido a pherthnasoedd tymor hir â chwsmeriaid yn gallu bod yn gatalydd ar gyfer rhagor o dwf.

Cododd buddsoddwyr wedi'u cofrestru ag Angylion Buddsoddi Cymru i 334 a 102 o fuddsoddiadau angel unigol wedi cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn. Ryw'n arbennig o falch o adrodd ein bod wedi gweld twf yn y nifer o fuddsosddwyr benywaidd yng Nghymru yn dilyn lansiad Angylion Cymru sy'n Ferched ar ddiwedd 2022. Wedi'u harwain gan y fuddsoddwraig arweiniol Jill Jones, mae gan y syndicet yn awr fwy na 30 o entrepreneuriaid benywaidd llwyddiannus ac arweinyddion busnes yn gweithio'n agos â'r Banc

Datblygu i fuddsoddi mewn menywod yng Nghymru, i Gymru. Rydym yn edrych ymlaen at y cytundeb cyntaf yn cael ei gwblhau yn y flwyddyn ariannol newydd.

Tyfu ein ffocws ar amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant

Mae 2022/23 wedi ein gweld yn tyfu ein rôl fel buddsoddwr cyfrifol ymhellach, gan ddatblygu ein prosesau penderfynu canolbwytio'n gynyddol ar ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant. Rydym wedi gwneud camau mawr o ran sut rydym yn cipio data gan ein galluogi i gasglu cyfres ehangach o wybodaeth am yr effaith mae ein buddsoddiadau yn ei chael.

Wrth gwrs, fel y crybwylodd Gareth eisoes, rydym wedi cofrestru ag Egwyddorion ar gyfer Buddsoddi Cyfrifol (PRI) y Cenhedloedd Unedig ond rydym hefyd yn gweld mwy o archwaeth o sylfaen ein cwsmeriaid sy'n dymuno cael buddion masnachol yr arnodiad trydydd parti sy'n dod o achrediadau. Cyflawnodd asiantaeth farchnata wedi'i hysgogi gan ddata a thechnoleg Yard Statws B Corp Status yn gynnar yn 2023, dwy flynedd yn unig ar ôl cwblhau pryniant rheolaeth saith ffigwr a gafodd ei gyllido'n rhannol gan ein Cronfa Olyniaeth Rheoli Cymru o £25 miliwn. Canlyniad gwych i bawb.

Olyniaeth busnes a'r tueddiadau cynyddol

Bu cynnydd pendant yn y galw am gyllid olyniaeth gyda 44 o fusnesau wedi cyrchu £20.6 miliwn i ariannu bargeinion olyniaeth. Daeth £3.9 miliwn o hyn o'n Cronfa Olyniaeth Rheolaeth Cymru gwerth £25 miliwn a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Bensiwn Clwyd. Mae benthyciadau ac ecwiti ar gael i dimau rheoli sydd eisiau rhedeg a bod yn berchen ar eu busnesau, gan ganiatáu i Gyfarwyddwyr sefydlu ddilyn diddordebau eraill a/neu ymddeol.

Twf y tu allan i Gymru, ar gyfer Cymru

Nid Cymru yn unig sydd wedi gweld twf eleni. Derbyniodd FW Capital hwb cyllid ychwanegol o £9.5 miliwn fel rhan o Gronfa Fuddsoddi'r Northern Powerhouse (NPIF). Mae yn awr yn gronfa £171.6 miliwn gan gynnwys £102.2 miliwn yn y Gogledd-Orllewin, a £69.4 miliwn yn Tees Valley a Cumbria.

Fe wnaethom hefyd groesawu lansiad Cronfa Fuddsoddi Eiddo Masnachol y Gogledd Ddwyrain gwerth £35 miliwn sy'n cael ei rheoli gan FW Capital a'i chefnogi gan Bartneriaeth Menter Lleol y Gogledd-Ddwyrain (LEP). Â chyflenwad cryf o gytundebau, mae'n ddrych-ddelwedd o'n Cronfa Eiddo Masnachol Cymru, gan ein galluogi i wneud y mwyaf o gwerth ac allforio ein sgiliau.


Cynllunio ar gyfer twf y dyfodol

Mae twf ein busnes a'r croneydd rydym yn eu rheoli yn golygu ein bod yn gweithredu yn awr mewn amgylchedd cynyddol gymhleth, gan ddarparu buddsoddiadau, gweithio gyda chydfuddsoddwyr i wneud y mwyaf o lif cyfalaf preifat yng Nghymru a darparu gwasanaethau rheoli arbenigol, annibynnol.

Fel darparwr tymor hir o gyfalaf tymor estynedig, byddwn yn parhau i weithio'n galed i ddatblygu'r farchnad yng Nghymru a chynorthwyo ein cwsmeriaid newydd a phresennol â dyled ac ecwiti mewn ffordd gynaliadwy ac effeithiol. Mae gennym gyllid ar gael, arbenigedd yn ein tîm a'n rhwydwaith, ac rydym yn buddsoddi yn ein prosesau a'n systemau i wella taith y cwsmeriaid. Bydd hynny'n parhau yn ffocws i ni yn y flwyddyn sydd i ddod.

Mike Owen, Cyfarwyddwr Buddsoddi'r Grŵp
31 Awst 2023





Craidd:

**Darparu cyllid dyled
ac ecwiti ag effaith
gymdeithasol**

Cynnydd yn erbyn ein hamcanion strategol

Craidd: Darpar y cyllid dyled ac ecwiti ag effaith gymdeithasol


Rydym yn gwneud buddsoddi yn hygrych i gymaint o fusnesau â phosibl ledled Cymru gyfan ac yn parhau i chwarae ein rhan mewn cydbwysedd economiâu tri rhanbarth economaidd llywodraeth Cymru.

Roedd 2022/23 yn flwyddyn record ar gyfer gwerth ein buddsoddi uniongyrchol ar £124m gan gynnwys cyfanswm buddsoddiad Mawrth o £22m. Syrthiodd busnesau a gynorthwywyd ychydig o 519 yn 2021/22 i 516, er y cynyddodd maint y buddsoddiad ar gyfartaledd o'n cronfeydd eiddo. Cynyddodd maint cytundeb ar gyfartaledd ar draws pob cronfa o £210k i £240k gan adlewyrchu chwyddiant cynyddol a chyson y DU.

Blaenoriaeth allweddol yn y flwyddyn oedd darparu Cronfa Fusnes Cymru a gefnogwyd gan y Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeiadd (ERDF), wedi'i blaenoriaethu i Orllewin Cymru a'r Cymoedd, gan sicrhau bod busnesau mewn ardaloedd difreintiedig yn economaidd yn cael budd o'r swm llawn o gyllid sydd ar gael.



Buddsoddi ar draws Cymru




* Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. <https://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/business/activitysizeandlocation/adhocs/14936smallandmediumenterprisesinwales>


Cynorthwyo busnesau ar bob cam o'u taith

Mae'r cronfeydd rydym yn eu rheoli yn cynorthwyo busnesau trwy'r cylch bywyd llawn, o gyfalaf hedyn seiliedig ar ecwiti ar gyfer busnesau technoleg cam cynnar, i gynorthwyo trafodion olyniaeth busnes i gwmnïau sefydledig.

Gwerth buddsoddiad fesul cam busnes



Nifer y buddsoddiadau fesul cam busnes



Dechrau busnes a chyfnod cynnar

Gostyngodd cyllid ar gyfer busnesau cyfnod cynnar a busnesau newydd ychydig o flwyddyn i flwyddyn, o £15 miliwn i £14.3 miliwn. Mae hyn yn arwydd o dueddiadau yn yr economi ehangach a welodd ostyngiad sydyn yn nifer y genedigaethau busnes yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn.¹

O fewn y cyfanswm hwn, cynyddodd cymorth i fusnesau technoleg hadau a chyfnod cynnar 40% o £7.8 miliwn i £10.9 miliwn gyda nifer y bargeinion yn cynyddu 24% o 25 i 31.

Astudiaeth achos

Against the Grain

Rhanbarth: De Cymru

Math o gyllid: Benthyriad micro

Angen busnes: Cychwyn busnes

Buddsoddiad: £15,000

Cafodd y cyn-swyddog gwasanaeth cwsmeriaid proffesiynol Frazer Twigg ei ysbrydoli i sefydlu Against the Grain gan ei bartner tymor hir Chris, a gafodd ei ddiagnosio ag afiechyd seliag yn 2018.

Canfu'r cwpl o Gaerdydd nad oedd siopau coffi a becysau yn lleol a allai warantu cynhwysion cwbl ddiglwen.

Arweiniodd hyn atynt yn agor Against the Grain ym Mehefin 2022 fel siop goffi gwbl ddiglwen gyntaf Cymru, gan gynnig amrediad o brydau ysgafn a byrbrydau cartref – gan ganiatáu i gwsmeriaid ag anoddefgarwch glwten a chyflyrau perthynol fwynhau bwyd a diod yn ddiogel heb redeg y risg o drawslygru.

Cefnogodd y Banc Datblygu y cwpl â benthyriad micro £15,000, gan eu galluogi i osod cyfarpar yn eu lleoliad newydd yn yr Eglwys Newydd.

¹ <https://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/business/activitysizeandlocation/datasets/inessdemographyquarterlyexperimentalstatisticsuk>





Astudiaeth achos

Gower Electric Bikes

Rhanbarth: Gorllewin Cymru

Math o gyllid: Benthyciad micro

Angen busnes: Cychwyn busnes

Buddsoddiad: £17,000

Cafodd Gower Electric Bikes ei sefydlu gan Tom Clulee a Joe Matthews i helpu rhagor o ymwelwyr a phobl leol i archwilio'r golygfeydd a'r tirweddau ysblennydd o gwmpas Gŵyr, a ddaeth yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf y DU yn 1956.

Wedi'u cynorthwyo â £17,000 o Gronfa Benthyciad Micro Cymru, mae'r cwmni yn defnyddio fflyd o feiciau wedi'u pweru gan fatri Trek Powerfly sy'n caniatáu i seiclwyr llai profiadol fynd i'r afael â thirwedd ysblennydd yr ardal heb yr angen am lefelau athletaidd o ffitrwydd corfforol.

Mae Gower Electric Bikes hefyd yn anelu at ddefnyddio ynni adnewyddadwy 100% i wefru eu beiciau, gan ddefnyddio paneli solar lleol a chyflenwyr ynni gwyrdd.

Olyniaeth busnes

Mae olyniaeth yn parhau i fod yn faes polisi blaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac i'r Banc Datblygu, gan gadw busnesau dan berchnogaeth Gymreig. Mae perchnogaeth gan weithwyr yn gallu cymryd nifer o ffurflai ac mae'r prif fath o drafodyn a gefnogir gan y Banc Datblygu yn parhau i fod yn Bryniant Rheolaeth. Cefnogwyd cyfanswm o 44 o gwmnïau olyniaeth gyda chyllid olyniaeth o £20.5 miliwn.

Daeth £3.9 miliwn mewn cyllid o Gronfa Olyniaeth Rheoli Cymru, sydd wedi'i theilwra'n benodol i gefnogi timau rheoli presennol â chyllid ecwiti i ddod yn berchnogion trwy brynu cyfrannau. Mae ecwiti yn opsiwn deniadol i gynorthwyo busnesau â hanes masnachol cryf ac mae'n cynnig llwybr cyllido sydd hefyd yn cryfhau'r fantolen, gan alluogi busnesau i dyfu o dan arweiniad newydd. Darparwyd cyllid hefyd ar gyfer trafodion olyniaeth drwy Cronfa Busnes Cymru, Cronfa Micro Fenthyciadau Cymru, a Chronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru.

Astudiaeth achos

Reel Label Solutions

Rhanbarth: De Cymru

Math o gyllid: Ecwiti a benthyciad

Angen busnes: Prynus busnes

Buddsoddiad: £1.2miliwn

Buddsoddodd y Banc Datblygu £1.2 miliwn yn y busnes argraffu arbenigol wedi'i leoli ym Mhontyclun, Reel Label Solutions i gyllido ailstrwythuro cyfranddalwyr a darparu cyllid ar gyfer buddsoddi capex wrth i'r cwmni gychwyn ar raglen o dwf wedi'i arwain gan Jonathan Wright sydd newydd ei benodi fel Rheolwr Gyfarwyddwr. Daeth cyllid ar gyfer y buddsoddiad o Gronfa Fusnes Cymru a Chronfa Olyniaeth Rheoli Cymru.

Cafodd Reel Label Solutions ei sefydlu yn 2002 gan y cyfarwyddwyr sylfaenu Jonathan Wright, Paul Prothero a Chris Duffin. Mae'r buddsoddiad o £1.2 miliwn yn gymysgedd o ddyled ac ecwiti gan y Banc Datblygu a'r cyn-Gyfarwyddwr Gwerthu Jonathan Wright yn dod yn gyfranddalwr mwyafrifol ac yn Rheolwr Gyfarwyddwr yn dilyn ymadawriad Paul Prothero ac ymadawriad rhannol Chris Duffin.

Wedi'i leoli ar Stad Ddiwydiannol Cambrian, mae'r cwmni yn cyflogi 27 ac yn arbenigo mewn labeli digidol o ansawdd uchel, yn enwedig cynhyrchiad rhediad byr o labeli ymllynol digidol ac argraffu labeli fflecsograffig.



Astudiaeth achos

Avantis Marine

Rhanbarth: De Cymru

Math o gyllid: Ecwiti


Angen busnes: Prynu busnes

Buddsoddiad: Heb ei ddatgelu

Cwblhaodd darparwr gwasanaeth technoleg ar gyfer y sector morol wedi'i leoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr bryniant cyfranddaliadau rheoli (MBO) â phecyn saith ffigwr gan y Banc Datblygu a HSBC UK, a chyllid yn dod o Gronfa Olyniaeth Rheoli Busnes Cymru.

Wedi'i sefydlu yn 2019, defnyddiodd Avantis fuddsoddiad ecwiti o'r banc datblygu i gwblhau'r pryniant cyfranddaliadau rheoli o'r perchnogion presennol Envoy and Partners, â'r entrepreneur ifanc Thomas David yn cymryd rôl y Prif Swyddog Gweithredol. Yn 30 oed, mae'n cael ei gynorthwyo gan y Cadeirydd Chris David, y Prif Swyddog Gweithrediadau Jack Jenkins a'r Prif Swyddog Masnachol, Leon Solder.

Helpodd y Pryniant Cyfranddaliadau Rheoli i sicrhau cyfleoedd cyflogaeth tymor hir yn Ne Cymru ac yn rhwngwladol, yn ogystal â galluogi'r tîm rheoli i gael rheolaeth dros weithrediadau o ddydd i ddydd.



Cyllid ecwiti a chyfalaf tymor estynedig

Mae mynediad at gyllid ecwiti a chyfalaf tymor estynedig yn hanfodol ar gyfer cefnogi technoleg cam cynnar arloesol neu ar gyfer strategaethau twf cwmnïau uchelgeisiol ac, mae'n ysgogwr allweddol o dwf economaidd.

Mae ymchwil o blatfform data Beauhurst², yn dangos bod Cymru yn gartref i 1,583 o gwmnïau twf uchel, gan gynrychioli 3.5% o gyfanswm y DU. Mae eu hymchwil yn dangos ymhellach bod 0.31% o'r mentrau gweithredol wedi'u cofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau wedi defnyddio buddsoddiad ecwiti i gyllido eu twf. Mae hyn yn cymharu â ffigwr y DU o 0.37% sy'n dangos pan ddaw'n fater o fusnesau wedi'u cefnogi gan ecwiti yn yr economi, mae Cymru'n cymharu'n fras â data'r DU yn ehangach.

Dyblodd gwerth y trafodion ecwiti bron yn 2022/23, o £11.6 miliwn i £22.9 miliwn, adlewyrchiad o ymdrechion mewn blynnyddoedd diweddar i annog galw am fuddsoddiadau yng Nghymru. Rydym wedi parhau i fuddsoddi'n drwm yn ein hymdrechion i hybu'r farchnad, gan gynnwys denu cydfuddsoddwyr i Gymru, gan amrywio'r ffynonellau o gyfalaf sydd ar gael i entrepeneuriad Cymru.

Astudiaeth achos

Halo Therapeutics

Rhanbarth: De Cymru

Math o gyllid: Ecwiti

Angen busnes: Datblygu menter dechnolegol

Buddsoddiad: £1 miliwn

Daeth yr arloeswyr technoleg feddygol Halo Therapeutics i Gymru o Fryste yn dilyn buddsoddiad o £1 miliwn gan y Banc Datblygu.

Disgwylir treialon clinigol o driniaeth therapiwtig gartref hawdd ei defnyddio ar gyfer SARS-CoV-2 (coronafeirws) yn dilyn buddsoddiad o £1.52 miliwn a arweiniwyd gan y Banc Datblygu ochr yn ochr ag aelodau Science Angel Syndicate a'r KBA Group, consortiwm angylion o unigolion gwerth net uchel a arweinir ar y cyd gan Dr Nikolaos Kostopoulos a Paras Barot.

Yn seiliedig ar ymchwil o safon fyd-eang a gynhalwyd ym Mhrifysgol Bryste, sefydlwyd Halo Therapeutics fel cwmni deillio yn 2020 gan Dr Daniel Fitzgerald, yr Athro Christiane Schaffitzel, a'r Athro Imre Berger. Mae Halo Therapeutics wedi'i ddenu i Gymru yn dilyn buddsoddiad ecwiti o £1,000,000 gan Fanc Datblygu Cymru a bydd wedi'i leoli i ddechrau yn Welsh ICE, Caerffili.

Bydd yr astudiaeth gychwynnol hon gan Halo Therapeutics yn profi eu chwistrelliad gwrthfeirysol anadolol yn erbyn coronafirysau. Mae'r ffocws ar werthuso diogelwch a goddefgarwch y driniaeth. Yn dilyn hyn, cynhelir astudiaethau pellach ar gleifion sydd naill ai â SARS-CoV-2 neu sydd mewn perygl o'i ddal.

² <https://www.beauhurst.com/wp-content/uploads/2023/06/Beauhurst-Equity-Investment-in-Wales-2023.pdf> sources of capital available to Welsh entrepreneurs.

Angylion Buddsoddi Cymru

Angylion Buddsoddi Cymru yw'r rhwydwaith angylion mwyaf yng Nghymru, yn cysylltu buddsoddwyr profiadol â busnesau Cymreig sy'n ceisio buddsoddiad preifat.

Arhosodd y nifer o drafodion a hwyluswyd gan y rhwydwaith yn sefydlog ar 25 tra gostyngodd cyfanswm gwerth buddsoddiad o £3.3 miliwn i £2.3 miliwn. Cyflawnodd ymdrechion cynyddol mewn adeiladu'r sylfaen buddsoddwyr 35 o angylion ychwanegol, gan dyfu'r rhwydwaith i 334 o fuddsoddwyr, tra yr arweiniodd ffocws strategol ar ein hymdrechion i arallgyfeirio'r sylfaen buddsoddwyr at gynnydd yn y gyfran o fuddsoddwyr benywaidd gan dyfu o 10% i 16%.

Arweiniodd y twf hwn yn sylfaen y buddsoddwyr benywaidd a chymorth y rhwydwaith, at fwy na 30 o entreprenoriaid benywaidd mwyaf llwyddiannus Cymru ac arweinyddion busnes yn uno i ffurio Angylion Cymru sy'n Ferched, syndicet angylion buddsoddi busnes newydd i fenywod wedi'i arwain gan y brif fuddsoddwraig Jill Jones.

Mae'n dod wrth i adroddiad diweddaraf Cymdeithas Angylion Busnes y DU (UKBAA) awgrymu er i angylion buddsoddi benywaidd helpu ysgogi mwy na £2 biliwn o fuddsoddiad mewn cwmnïau ledled y DU yn y degawd diwethaf, mae menywod yn parhau yn lleiafrif mewn buddsoddi angylion. Mae'r prinder hwn o angylion benywaidd yn cael effaith uniongyrchol oherwydd bod data yn dangos bod menywod yn llawer mwy tebygol o fuddsoddi mewn cwmnïau a sefydlir gan fenywod.



Astudiaeth achos

Explorage

Rhanbarth: Gogledd Cymru

Math o gyllid: Ecwiti

Angen busnes: Tyfu busnes

Buddsoddiad: Dros £100,000

Wedi'i leoli yn Ynys Môn, mae Explorage.com yn farchnad ar-lein sy'n caniatáu i gyfleusterau hunanstorio i restru eu gofod a chwsmeriaid i ganfod, cymharu ac archebu'r gofod cywir ar gyfer eu hanghenion ar unwaith.

Mae tua 27,000 o archebion storio newydd bob mis yn y DU, ac mae'r sector yn werth amcangyfrif o £48 biliwn yn flynyddol yn awr. Ond gall cymharu ac archebu'r ateb cywir bod yn broses anghyson a hirwyntog.

Yn Nhachwedd 2022, ymunodd syndicet o naw o angylion busnes â Banc Datblygu Cymru a M-Sparc mewn cefnogi'r perchenog Anna Roberts wrth iddi baratoi i lansio Explorage.com ar blatfform ar-lein. Huw Bishop o Camau Nesaf oedd prif fuddsoddwr y syndicet a fuddsoddodd swm chwe ffigwr yn Explorage, ac Angylion Buddsoddi Cymru yn darparu cyllid cyfatebol o Gronfa Gyd-fuddsoddi Angylion Cymru. Gan gydnabod potensial y cwmni, ymrwymodd Rhaglen Gyflymydd M-Sparc gyllid i Explorage.com.

Defnyddiodd Anna'r arian i wneud llogiadau allweddol a chychwyn cyflwyniadau rhanbarthol ledled y DU, ac mae Explorage ers hynny wedi derbyn cyllid ecwiti ychwanegol o'n Cronfa hedyn Technoleg i ddatblygu'r dechnoleg y tu ôl i Explorage.com ymhellach.



Buddsoddi mewn Eiddo

Trwy ein cronfeydd eiddo wedi'u targedu, rydym yn cefnogi datblygwyr maint bach a chanolig i adeiladu cartrefi, swyddfeydd, gofodau diwydiannol a datblygiadau defnydd cymysg newydd.

Daliodd galw am gyllid gan y sector eiddo yn dda mewn blwyddyn pan adroddodd Mynegai pris Adeiladu Cartrefi Preifat y Gwasanaeth Gwybodaeth Cost Adeiladu (PHCPI) am chwyddiant yn y sector adeiladu tai o 12.8% ar ddiwedd 2022. O ran cyfanswm, cafodd £48.3 miliwn ei fuddsoddi ar draws cronfeydd eiddo, gan gyflawni 163 o unedau tai, 28 ohonynt yn gartrefi fforddiadwy a 71,882 troedfedd sgwâr o ofod eiddo masnachol newydd. O ran cyfanswm, derbyniodd 20 prosiect gyllid gan y Banc Datblygu.

Cafodd y Cymhelliad Cartrefi Gwyrdd ei lansio yng Ngoffennaf 2022, y cyntaf o'n cynlluniau cyllid gwyrdd i gael ei gyflawni. Wedi'i gyllido gan Lywodraeth Cymru, mae datblygwyr preswyl sy'n ateb safonau gwyrdd yn gallu cyrchu gostyngiad mewn ffioedd ad-dalu benthyciadau o hyd at 2%. Trwy'r cynllun rydym yn targedu ein cymorth i helpu darparu rhagor o gartrefi mwy thermol effeithlon a charbon is yng Nghymru.

Mae cyllid ar gyfer hyd at 100% o gostau adeiladu ar gael â llog wedi'i rolio i fyny trwy gydol tymor y benthyciad. Bydd cymhwyster yn dibynnu ar feini prawf cymhwysy sy'n cynnwys Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) Graddiad A/statws Passivhaus, strwythurau heb fod yn goncrit a systemau gwresogi heb fod yn danwydd ffosil.

Mae gweithrediad adeiladau yn cyfrif am tua 30% o allyriadau yn y DU, yn bennaf o wresogi, oeri a defnydd trydan. Ar gyfer adeiladau newydd, mae'r allyriadau corfforedig o adeiladu yn gallu cyfrif am hyd at hanner yr effeithiau carbon a gysylltir â'r adeiladu dros ei gylch bywyd.

Mae'r data diweddaraf o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) (2020) yn dangos y cyflawnodd 77% o'r holl adeiladu newydd yng Nghymru fesur B EPC, â dim ond 5% yn cyflawni mesur A. Mae inswleiddio ychwanegol, ffenestr ddwbl/triphlyg a phaneli solar oll yn gallu helpu i wella mesuriadau EPC.

Derbynir yn eang hefyd bod strwythurau amgen fel fframiau pren, blociau hempcrit, blociau calchgrit a briciau myseliwm yn cael effaith carbon is na choncrit. Mae'r defnydd o fframiau pren wedi dod yn fwy cyffredin dros y degawd diwethaf ond mae pwyseddau byd-eang diweddar ar gost pren a'r hyn sydd ar gael wedi arwain at nifer o ddatblygwyr yn troi yn ôl at goncrit felly yr angen am gymhellion ariannol. Bydd datblygwyr sy'n gosod systemau gwresogi heb fod yn danwydd ffosil yn gallu cael budd o'r cymhelliad newydd gan fod pympiau gwres o ffynonellau'r ddaear ac awyr yn lleihau galw gweithrediadol am ynni yn sylweddol yn ystod oes eiddo.

Mae'r cymhelliad wedi profi'n boblogaidd ers y lansio, â £9m wedi'i sancsiynu ar draws 10 cytundeb o fewn y 9 mis cyntaf. Mae'r 10 cytundeb hyn wedi'u cyfuno yn mynd i gyflawni amrediad o fesurau carbon is ar draws 42 o dai adeiladu o'r newydd yng Nghymru, gan gynnwys 16 EPC A, 37 o strwythurau heb fod yn goncrit ac 16 o bympiau gwres ffynhonnell awyr. Mae galw am y cyllid yn parhau'n gryf â phiblinell iach mewn grym ar gyfer 2023/24.

³ <https://bcis.co.uk/news/housebuilding-costs-continue-to-increase/>

Astudiaeth achos

Wellspring Homes

Rhanbarth: De Cymru

Math o gyllid: Benthyciad

Angen busnes: Datblygu eiddo

Buddsoddiad: £1.2miliwn

Cafodd benthyciad datblygu eiddo £1.2 miliwn i Wellspring Homes o Gaerdydd ei ddefnyddio i gyllido'r adeiladu o wyth cartref cynaliadwy yn Pearson Way, Castell-nedd.

Y benthyciad oedd y cyntaf i gael ei ddarparu o dan Gymhelliad Cartrefi Gwyrdd â disgownt y Banc Datblygu.

Funudau yn unig o goridor yr M4, bydd y datblygiad yn cynnig pedwar cartref teulu pedair ystafell wely ar wahân ochr yn ochr â phedwar o dai dwy ystafell wely lled ar wahân. Â mesur ynni Graddfa A, bydd pympiau gwres ffynhonnell awyr wedi cael eu gosod i bob un a byddant yn cael eu hadeiladu gan ddefnyddio Hempcrit, deunydd naturiol "gwell na charbon sero".



Cynorthwyo entrepreneuriaid ifanc

Mae ein hymchwil â chwsmeriaid wedi ein helpu ni i ddeall sut y gallwn gynorthwyo entrepreneuriaid ifanc yn well i gychwyn eu busnesau eu hunain.

O'r sgyrsiau hyn, mae amrediad o rwystrau posibl wedi cael eu hadnabod gan gynnwys:

- canfyddiad y gall cyllidwyr fod yn gyndyn o gefnogi entrepreneuriaid ifanc
- diffyg mynediad at gyfalaf neu sicrwydd
- diffyg profiad i ategu cynllun busnes a gwerthu'r cynnig i gyllidwyr
- a phrinder modelau rôl a mentoriaid

Mewn ymateb i hyn rydym wedi enwebu dau o bencampwyr entrepreneuriaid ifanc o fewn ein tîm i helpu pontio'r rhwystrau. Eleni, mae sicrhau bod entrepreneuriaid ifanc yn gwybod ein bod yno i'w helpu wedi bod yn flaenoriaeth ac rydym wedi gweithio i godi ymwybyddiaeth o'r Banc Datblygu trwy rannu storïau modelau rôl llwyddiannus. Rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau fel Syniadau Mawr Cymru ac Ymddiriedolaeth y Tywysog er mwyn i entrepreneuriaid ifanc gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt.

Rydym yn parhau â'n gwaith i gyrraedd rhagor o bobl ifanc, gan gydnabod bod gennym rôl bwysig i'w chwarae mewn cyflawni Gwarant Person Ifanc Llywodraeth Cymru.

Gwelodd blwyddyn ariannol 2022/23 ni yn cynorthwyo 111 o entrepreneuriaid ifanc (hynny yw, cyfarwyddwyr oedd yn 30 neu'n iau pan wnaethom ddod i gytundeb â nhw), a £16.9 miliwn wedi'i fuddsoddi, cynydd o £10 miliwn ar y £6.9 miliwn a fuddsoddwyd yn 2021/22. .

Rydym wedi bod yn gweithio i adolygu ein hymagwedd i sicrhau ein bod yn parhau i gyrraedd pobl o dan 25 sy'n dymuno cychwyn neu dyfu eu busnes eu hunain.

Astudiaeth achos

Maggie Cross

Rhanbarth: Gorllewin Cymru

Math o gyllid: Benthyciad micro

Angen busnes: Tyfu busnes

Buddsoddiad: £5,000

Ehangodd yr entrepreneur ifanc, gemydd a gof arian Maggie ei busnes gemwaith bwtic â chymorth benthyciad micro gan Fanc Datblygu Cymru.

Mae'r fam sengl 29 oed yn gwneud gemwaith minimal ond hwylig gan ddefnyddio technegau gof arian traddodiadol a metalau gwerthfawr wedi'u hailgylchu o'i stiwdio yn Aberteifi. Hyfforddodd hi yn yr Ysgol Emwaith yn Birmingham ac mae'n defnyddio gweithdai yn y Chwarter gemwaith enwog ar gyfer castio.

Cafodd benthyciad o £5,000 gan y Banc Datblygu ei ddefnyddio i fuddsoddi mewn stoc, castio a deunyddiau wrth iddi ddechrau uwchraddio i ateb galw cwsmeriaid, ynghyd â rhaglen o weithdai.



Cyd-fuddsoddi

Rydym yn gweithio gyda rhwydwaith o gyd-fuddsoddwyr i wneud y mwyaf o lif cyfalaf preifat yng Nghymru a lleihau dadleoliad; rydym yn gwneud hyn trwy gyflwyno buddsoddwyr i'n cwsmeriaid, cydfuddsoddi ar drafodion unigol a meinchnodi i sicrhau bod ein cyfraddau a'n ffioedd yn unol â'r farchnad.

Mae ein gweithgarwch strategol i ddatblygu berthnasoedd cyd-fuddsoddwyr cryf yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac rydym wedi parhau i hyrwyddo cyfleoedd buddsoddi o fewn ein rhwydwaith gan arwain at gyd-fuddsoddiad o £114 miliwn ar gyfer ein cwsmeriaid yn 2022/23.

Astudiaeth achos

CanSense

Rhanbarth: De Cymru

Math o gyllid: Ecwiti

Angen busnes: Datblygu menter dechnolegol

Buddsoddiad: £500,000

Datblygodd CanSense o Abertawe brawf gwaed sy'n ceisio achub bywydau trwy wneud diagnosis o ganser y coluddyn yn gynnar.

Mae prawf CanSense yn cyfuno sbectrosgopeg laser â deallusrwydd artifisiaid, ac mae'n fwy effeithiol, derbynol ac effeithlon na phrofion confensiynol fel profion ysgarthol neu colonosgopïau ymledol.

Gall hefyd ganfod polypau cyn iddynt ddatblygu i fod yn ganser, a gall ddiystyr u canser gyda lefel uwch o gywirdeb - sy'n golygu y bydd yn rhaid i lai o gleifion fynd ymlaen i brofion mwy ymledol. Ar hyn o bryd, canfyddir bod gan lai nag un o bob deg claf sy'n cael colonosgopi ganser ac amcangyfrifir bod triniaethau diangen yn costio tua £300m y flwyddyn i'r GIG. Mae ei brawf hefyd yn lleihau'r pwysau ar adnoddau diagnostig, ac mae canfod yn gynharach yn lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â chanser cam hwyr.



Buddsoddodd y Banc Datblygu yn Cansense ochr yn ochr â Nonacus a Mercia, gyda chyfanswm y buddsoddiad yn ystod y rownd yn cyrraedd £1.5m. Bydd y buddsoddiad yn caniatáu i'r cwmni ddatblygu ei gynnyrch a dod â'i brawf i'r farchnad.

Mae prawf gwaed CanSense yn seiliedig ar ymchwil gan yr Athro Peter Dunstan, yr Athro Dean Harris a Dr Cerys Jenkins ym Mhrifysgol Abertawe a ariannwyd yn rhannol gan Ymchwil Cancer Cymru. Fe wnaethant ymuno â Dr Adam Bryant, entrepreneur a chyn fanciwr buddsoddi gyda PhD mewn ffiseg, i sefydlu CanSense yn 2019.

Cynorthwyo ein cwsmeriaid

Â phortffolio cwsmeriaid sydd wedi tyfu i dros 3,100 o fusnesau gweithredol, mae'r ffordd rydym yn gweithio gyda ac yn cynorthwyo cwsmeriaid i greu gwerth yn rhan gynyddol bwysig o'n cynnig.

Mae datblygu perthnasoedd sy'n parhau ac yn gryf â'r busnesau rydym yn buddsoddi ynddynt yn rhan allweddol o'r ffordd rydym yn gweithio ynddi. Yn 2022/23, aeth 55% o fuddsoddiad a ddarparwyd i gwsmeriaid presennol y Banc Datblygu, cynnydd o 51% yn y flwyddyn flaenorol, gan ddangos ein hymrwymiad i gynorthwyo ein cwsmeriaid dros y tymor hir.

Rydym yn dynodi swyddog a enwir i bob cwsmer, sy'n gyfrifol am reoli'r berthynas, gan fonitro perfformiad ariannol y busnes, a chwblhau buddsoddiadau dilynol. Yn achos benthyciadau mwy ac ar gyfer pob buddsoddiad ecwiti, mae ein tîm o swyddogion portffolio yn adeiladu perthnasoedd cryf â byrddau cwmniâu ac unrhyw fuddsoddwyr eraill, yn annog llywodraethiant da, ac yn cynorthwyo'r tîm mewn darparu eu cynlluniau cyflawni.

Mae adborth a mewnwelediad cwsmeriaid yn ffurio ein strategaeth ac rydym yn defnyddio ein Sgôr Hyrwyddwr net fel ein mesur ar gyfer bodlonrwydd cwsmeriaid gan gyflawni sgôr meincnod blwyddyn gyntaf yn 2021/22 o 74 o gyfradd ymateb arolwg o 29%. Ar gyfer 2022/23, cyflawnwyd sgôr o 88 o gyfradd ymateb 35%. Cafodd arolygon eu dosbarthu yn dilyn cwblhau trafodyn ac i gwsmeriaid portffolio ac mae'r adborth a dderbyniwyd yn ffurio gwelliannau yn uniongyrchol i daith y cwsmeriaid.

Astudiaeth achos

Midtec

Rhanbarth: Gorllewin Cymru

Math o gyllid: Benthyciad

Angen busnes: Tyfu busnes

Buddsoddiad: £220,000

Mae gan Midtec, un o weithgynhyrchwyr blaenaf y DU o gyflau simneiau a systemau ffliwiau adeiladu 2,500 troedfedd swarz o ofod gweithgynhyrchu ychwanegol yn Stad Ddiwydiannol Capel Hendre ger Rhydaman, gan ddefnyddio benthyciad £220,000 gan Fanc Datblygu Cymru.

Wedi'i ffurfio yn 2003 gan y Rheolwr Gyfarwyddwr, Trefor Jenkins, elwodd Midtec yn gyntaf o fuddsoddiad gan y Banc Datblygu yn 2005.

Maen nhw wedi cael sawl rownd o gyllid ers hynny gan y Banc Datblygu i gynorthwyo cynlluniau twf, â'r genhedlaeth nesaf yn rhedeg y busnes gan edrych i'r dydofol a'r gofod newydd ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i letya peiriant torri laser ENSIS o'r radd flaenaf, wedi'i gyflenwi gan Amada.



FW Capital

FW Capital yw braich rheoli cronfa gofrestredig Grŵp FFCa Banc Datblygu Cymru Mae wedi bod yn weithredol ers 2009 ac mae ganddo hanes cryf o gyflawni contractau rheoli cronfeydd masnachol, yn bennaf ar draws Gogledd Lloegr yn ogystal â bod yn gerbyd i fuddsoddiad Cronfa Bensiwn Clwyd yng Nghronfa Olyniaeth Rheoli Cymru.

Gan weithredu o chwe swyddfa ar draws Gogledd Lloegr â 35 o weithwyr, gan gynnwys dau gyfarwyddwr cronfeydd dynodedig sy'n rheoli gweithrediadau yn y Gogledd-Orllewin a Gogledd-Ddwyrain Lloegr, mae FW Capital yn ffurfio rhan graidd o strategaeth y Grŵp gan greu buddion uniongyrchol i Gymru:

- **Ariannol:** gwneud cyfraniad ariannol at y Grŵp i fod o fudd i Gymru, yn ogystal â chreu swyddi yng Nghymru ar gyfer cymorth cefn swyddfa
- **Arbenigedd:** ehangu cwmpas gweithgaredd buddsoddi'r Grŵp ac felly'n cynyddu'r sylfaen wybodaeth ar draws y sefydliad
- **Codi arian:** sicrhau a chyflawni contractau'n llwyddiannus ar ran trydydd partïon, gan gynnwys Banc Busnes Prydain

Yn 2022/23, cafodd benthyciadau gwerth £38 miliwn eu gwneud yn uniongyrchol gan FW Capital a ddenodd gyd-fuddsoddiad o £51.4 miliwn gan y sector preifat. Helpodd y buddsoddiadau hyn fusnesau lleol ar draws Gogledd Lloegr i greu a diogelu 1,238 o swyddi.

Astudiaeth achos

Stonedale Developments

Rhanbarth: Gogledd Ddwyrain

Math o gyllid: Benthyciad

Angen busnes: Adeiladu eiddo

Buddsoddiad: Heb ei ddatgelu

Dechreuodd Stonedale Developments o Allendale weithio ar chwe chartref ecogyfeillgar newydd yn Catton yn Hexham, ar ôl derbyn buddsoddiad saith ffigur gan Gronfa Eiddo Gogledd-ddwyrain FW Capital (NEPF).

Wedi'i sefydlu yn 2021 gan y saer maen a'r adeiladwr Terry Sparke a'r datblygwr Trevor Newman, mae Stonedale Developments yn cyfuno dulliau adeiladu traddodiadol â thechnegau adeiladu modern i adeiladu cartrefi hardd, ymarferol sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Mae gan yr adeiladau newydd yn Splitty Lane yn Catton wres o dan y llawr ecogyfeillgar, pympiau gwres ffynhonnell aer a phaneli solar.

Mae hyn wedi helpu i greu pum swydd yn lleol gan gynnwys seiri maen a phrentis.

Mae'r NEPF yn cefnogi datblygiad cynlluniau eiddo ar raddfa fach ac fe'i hariennir gan Bartheriaeth Menter Leol y Gogledd Ddwyrain (LEP).



Astudiaeth achos

Polar Specialist Coatings

Rhanbarth: Gogledd Orllewin

Math o gyllid: Benthyciad

Angen busnes: Tyfu busnes

Buddsoddiad: Heb ei ddatgelu

Defnyddiodd Polar Specialist Coatings o Swydd Gaer fuddsoddiad o Gronfa Fuddsoddi Northern Powerhouse FW Capital Debt Finance - a reolir gan FW Capital a rhan o Gronfa Buddsoddi Northern Powerhouse - i ariannu twf a datblygu cynnrych newydd, gyda chyllid chwe ffigur hefyd yn cefnogi lansiad y cwmni. eu cynnrych bitwmen ecogyfeillgar newydd.

Wedi'i lansio yn 2018 gan y brodyr Tom a John Johnstone - y bumed genhedlaeth o deulu Johnstone - mae'r busnes yn gwneud defnydd da o fwy na 130 o flynyddoedd yn y busnes gweithgynhyrchu paent i wneud paentiau, haenau, paent chwistrell, selwyr a chynhyrchion eraill arbenigol ar gyfer amrywiaeth eang o gymwysiadau.

Mae'r busnes yn gweithredu o Winsford a dechreuodd werthu ei gynnrych ar Amazon. Cyhoeddodd hefyd bartneriaethau gyda Selco Builders Warehouse i ddosbarthu ei ystod cynnrych.



Cymorth i Brynu - Cymru

Yn dilyn ei lansiad gwreiddiol gan Lywodraeth Cymru yn 2014, mae'r cynllun Cymorth i Brynu – Cymru yn awr yn ei drydydd cam, yn cynorthwyo prynu tai ar werth marchnad o hyd at £250,000 trwy adeiladwr cofrestredig Cymorth i Brynu – Cymru.

Mae'r cynllun Cymorth i Brynu – Cymru yn trefnu bod cartrefi wedi'u hadeiladu o'r newydd ar gael i'r holl brynwyr tai, nid i brynwyr tro cyntaf yn unig, sy'n dymuno prynu cartref newydd ond gallant fod yn cael eu cyfyngu wrth wneud hynny. Mae cymorth o hyd at uchafswm o 20% o'r pris prynu ar gael i brynwyr trwy fenthyciad ecwiti ar y cyd wedi'i gyllido gan Gymorth i Brynu – Cymru, tra bo gofyn i brynwyr ddarparu blaendal o 5% o'r pris prynu.

Ers i'r cynllun ddechrau yn 2014, mae 13,633 o dai wedi cael eu prynu o dan y cynllun, gan gynorthwyo dros 21,000 o brynwyr. O ran cyfanswm, mae mwy na £538 miliwn wedi cael ei fenthyg yn cynorthwyo gwerthiannau eiddo o £2.6 biliwn. Yn y flwyddyn, estynnodd Llywodraeth Cymru drydydd cam y cynllun hyd Fawrth 2025 ac o Ebrill 2023, cap pris cynyddol o £300,000 a bydd gofyniad am isafswm B EPC yn gymwys.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil i anghenion prynwyr cartrefi i'r dyfodol, a'r rôl mae Cymorth i Brynu yn gallu chwarae i ateb yr anghenion hynny. Bydd canfyddiadau'r ymchwil, sydd wedi'u cynllunio i fod ar gael yn haf 2024, yn ategu cynllunio'r dyfodol i gynorthwyo pobl sy'n dymuno prynu cartref.

Mae ein blaenoriaeth yn parhau ein bod yn cynorthwyo ein cwsmeriaid mwyaf bregus trwy herio'r hinsawdd ariannol heriol, ag ystyriaeth ar gyfer y Dreth Defnyddwyr FCA Newydd i weithredu a darparu canlyniadau da i gwsmeriaid manwerthu.

Mae cam 3 yn parhau i gynorthwyo'r ddemograffeg darged ag 87% o gwsmeriaid yn brynwyr tro cyntaf, oedran cyfartalog o 31 ac incwm cyfartalog o £27,359.



Gower Electric Bikes
Abertawe



Yn codi:

Hyrwyddo a datblygu dyfodol gwyrdd yng Nghymru

Cynnydd yn erbyn ein hamcanion strategol

Yn codi: Hyrwyddo a datblygu dyfodol gwyrdd yng Nghymru

Gwelwyd cynnydd da yn y flwyddyn ar draws cynhyrchion a gwasanaethau ac yn ein gweithrediadau ein hunain.

Rydym yn cydnabod y rôl hollbwysig sydd gennym i'w chwarae mewn cynorthwyo economi gryfach, werddach wrth i ni symud ymlaen tuag at ddatgarboneiddio, ac rydym yn adeiladu ein rôl fel rhan o 'Dîm Cymru' yn barhaus. Mae graddfa'r her ac anghenion amrywiol ein cwsmeriaid, yn gofyn i ni gael ymagwedd ystyriol i sicrhau bod ein hadnoddau, capaciti a chyfalaf yn cael eu defnyddio yn y ffyrdd mwyaf effeithiol.

Ein haddewid:

Mae'r Banc Datblygu wedi ymrwymo'n llwyr i fynd i'r afael â'r argyfwng newid yn yr hinsawdd a bydd yn parhau i ddatblygu ffyrdd o weithio a fydd yn cael effaith uniongyrchol a yrrir drwy:

1.

Cyflawni cynllun lleihau carbon yn barhaus sy'n canolbwytio ar ein gweithrediadau ein hunain, a reolir gan weithgor penodedig gyda'r uchelgais i gyrraedd sero net*.

2.

Defnyddio ein huned ymchwil Deallusrwydd Economaidd Cymru i archwilio argymhellion polisi a chynnyrch a all lywio'r trawsnewid i economi carbon isel.

3.

Cefnogi'r busnesau rydym yn gweithio gyda nhw i wella a lleihau'r effaith amgylcheddol, gan gynnwys drwy atgyfeiriadau at gyngorwyr cynaliadwyedd Busnes Cymru.

* i gysoni â thargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer Sero Net erbyn 2030

Cynhyrchion

Datblygu a chyflwyno cynigion ar gyfer dau gynllun datgarboneiddio newydd i Lywodraeth Cymru.

Mae cynnydd da wedi cael ei wneud mewn ehangu ein cynnig i gynnwys rhagor o gymorth i weithgaredd wedi'i ganolbwytio ar ddatgarboneiddio. Cafodd y **Cymhelliant Cartrefi Gwyrdd** ei lansio yng Ngorffennaf 2022 ac mae wedi casglu diddordeb gwirioneddol gan ddatblygwyr â dros £28 miliwn yn y broses fuddsoddi ar ddiwedd y flwyddyn.

Cafodd y **Cynllun Benthyriad Busnes Gwyrdd** ei lansio yn Chwefror 23 a'r cytundeb cyntaf o £1.2 miliwn yn cwblhau ym Mawrth 23. Mae rhagor o ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynhyrchion eraill gan gynnwys ymchwil i mewn i'r rôl cyllid cyhoeddus mewn ôl-ffitio tai.

Astudiaeth achos

Something Different

Rhanbarth: Gorllewin Cymru

Math o gyllid: Benthyriad gwyrdd

Angen busnes: Tyfu busnes

Buddsoddiad: £1.2miliwn

Cwmni anrhegion Cymreig oedd y cyntaf i gyrchu Cynllun Benthyriad Busnes Gwyrdd Banc Datblygu Cymru.

Derbyniodd Something Different Wholesale wedi'i leoli yn Abertawe fenthyriad £1.2m gan y cynllun, a gafodd ei sefydlu gan y Banc Datblygu a Llywodraeth Cymru i helpu busnesau yng Nghymru i leihau eu hól troed carbon, gan gynorthwyo taith y genedl at ddod yn sero net erbyn 2050.

Bydd y busnes yn defnyddio'r buddsoddiad a ddarperir i sefydlu 2,200 o baneli solar newydd ar ei warwsau 158,000 troedfedd sgwâr yn y Parc Menter ar Ffordd Fforest Uchaf, Abertawe.

Bydd y systemau ynni solar newydd yn helpu Something Different i dorri ei filiau ynni tra'n ateb galw cynyddol yn fwy cynaliadwy, a'i ganiatáu i werthu ynni dros ben yn ôl i'r farchnad. Mae gosod y paneli newydd yn dilyn uwchraddio goleuo'r cwmni i oleuadau LED lights yn 2021.



Ymchwil

Trwy Ddirnad Economi Cymru, ehangu ein cydweithio ymchwil i gynnwys dau bartner newydd a chytuno cynllun ymlaen ar gyfer ymchwil â ffocws ar wyrdd.

Yn Hydref 2022 fe wnaethom gyhoeddi y byddai dau bartner ymchwil newydd yn ymuno â'r partneriaid presennol, Ysgol Fusnes Caerdydd, a'r Swyddfawd Ystadegau Gwladol (ONS) i gynhyrchu adroddiadau a datblygu rhagor o fewnwelediadau i faterion amser go iawn sy'n effeithio ar economi Cymru.

Mae gan Ysgol Fusnes Bangor enw da rhyngwladol mewn bancio a chyllid ac mae'n cael ei chydnewabod fel 'Canolfan Ragoriaeth' Sefydliad y Bancwyr Siartredig'. Ar hyn o bryd hefyd mae'n cael ei gosod ar reng uchaf holl brifysgolion y DU ar gyfer ymchwil ym maes Bancio.

Y Ganolfan Ymchwil Mentergarwch (ERC) yw canolfan ragoriaeth flaenaf y DU ar gyfer ymchwil i dwf, arloesedd a chynhyrchant Mentrau Bach a Chanolig (SMEau), â ffocws neilltuol ar ysgogwyr twf, arloesedd a pherfformiad SME. Mae ei hymchwil yn helpu i lunio'r polisiau a'r ymarferion sy'n galluogi SMEau i ffynnu.

Mae'r ERC wedi bod yn darparu ymchwil annibynnol i ffurio polisi ac ymarfer ar SMEau ers 2013, a'i dîm arweinyddiaeth ac ymchwil craidd wedi'i leoli yn Ysgolion Busnes Prifysgolion Warwick ac Aston.


Rydym yn disgwyl yr adroddiad cyntaf o Brifysgol Bangor sy'n cynhyrchu ymchwil i '**bolisiau carbon sero net a chynlluniau Mentrau Bach a Chanolig tuag at ddatgarboneiddio**' yn 2023.

Gwneud penderfyniadau buddsoddi

Integreiddio asesiad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethiant (ESG) i wneud penderfyniadau buddsoddi a chynlluniau creu gwerth ar gyfer y portffolio ecwiti.

Mae'r Banc Datblygu yn cymryd ymagwedd "stewardiaeth" at gynaliadwyedd, gan gynorthwyo ac annog busnesau bach i lywio tirwedd sy'n newid. Mae'r broses sancsiwn buddsoddi yn awr yn ymgorffori naratif yng Nghymru risgau a chyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant, ac mae hyfforddiant cychwynnol wedi cael ei gyflwyno ar draws y grŵp.

Er bod ffactorau cymdeithasol a llywodraethiant wedi bod yn ystyriaeth graidd ers amser maith yn y ffordd rydym yn cynllunio ac yn darparu ein cynhyrchion, rydym yn gweithio i adeiladu'r sgiliau ychwanegol angenrheidiol i gynorthwyo cyflawni ein cynhyrchion a gwasanaethau datgarboneiddio.



Gweithrediadau

Cytuno ar safon cynaliadwyedd i'w ddilyn a'i weithredu ar draws y sefydliad a chydgyfeirio â thargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer sero net erbyn 2030.

Fe ddaethom yn llofnodwyr i Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig (PRI). Â 7,000 o llofnodwyr corfforaethol mewn 135 gwlad, cydnabyddir y PRI fel y rhwydwaith flaenaf yn fydd-eang ar gyfer buddsoddwyr sydd wedi ymrwymo i integreiddio ystyriaethau ESG i'w hymarferion a'u polisiau. Mae llofnodwyr yn cynnwys buddsoddwyr sefydliadol croneydd pensiwn, darparwyr yswiriant, croneydd cyfoeth sofran a chronfeydd gwaddol.

Mae'r egwyddorion a osodir gan PRI yn gydnaws ag ymrwymiad y Banc Datblygu i ymgorffori ffactorau ESG i brosesau buddsoddi, dadansoddi a gwneud penderfyniadau Mae hyn yn cynnwys ceisio

datgeliadau priodol, hyrwyddo derbyniad a gweithrediad yr egwyddorion ac adrodd ar gynnydd.

Ymunodd y Banc hefyd â'r Bartneriaeth ar gyfer Cyllid Cyfrifeg Carbon yn 2022/23 a byddwn yn cwblhau ein hadroddiadau cyntaf yn 2023/24.

Fe wnaethom gytuno iaelodaeth barhaol o Fusnes yn y Gymuned a chwblhau ein pedwerydd achrediad Cyflogwr Chwarae Teg ar gyfer cydraddoldeb rhywiau. Fe wnaethom hefyd gwblhau ein hadroddiad cyfrifo carbon cyntaf fel cyfranogwyr yn adrodd carbon sero net Llywodraeth Cymru ac fe wnaethom gymryd rhan mewn cynllun plannu coed i wrthbwysu carbon Llywodraeth Cymru, Ôl Troed Carbon.



Development Bank of Wales Plc

offset 190 tCO₂e

through the Verified Carbon Standard
(VCS 981) ADPML Portel Para REDD project

and

planted 190 trees in the UK

thereby offsetting carbon emission,
helping to prevent climate change
and creating space for wildlife
on

20 April 2021

John Buckley, Managing Director,
Carbon Footprint Ltd.

www.carbonfootprint.com

Planting broad-leaved trees,
offsetting carbon emissions
and providing wildlife habitats





Gweithrediadol:

Rhagoriaeth cyflawni, cwsmer yn gyntaf, cynaliadwyedd ariannol

Cynnydd yn erbyn ein hamcanion strategol

Gweithrediadol: Rhagoriaeth cyflawni, cwsmer yn gyntaf, cynaliadwyedd ariannol

Wrth i gyllidebau llywodraeth dynhau ac anghenion busnesau ddod yn fwy cymhleth, mae'n rhaid i ni ystyried ffyrdd newydd a gwreiddiol i wneud y mwyaf o effaith cyflawni.

Mae hyn yn cynnwys defnyddio ein hendid rheoledig gan FCA, FW Capital, i weithio gyda phwll ehangach o fuddsoddwyr i gynyddu'r llif o gyllid o fewn economi Cymru.

Trawsffurfio digidol

Parhaodd ein rhaglen drawsffurfio ddigidol wedi'i chanolbwyntio ar gwsmeriaid trwy gydol 2022/23. Ein nod yw creu effeithlonrwydd yn y broses asesu ceisiadau a lleihau amseroedd ymateb i'n cwsmeriaid.

Ochr yn ochr â hyn, mae gwelliannau effeithlonrwydd trwy ddefnydd ehangach o lofnodion electronig wedi gwella profiad cwsmeriaid ymhellach. Mae gwaith y tu ôl i'r lleni wedi parhau i drosglwyddo ein gweinyddiaeth benthyciadau i'r system reoli ariannol newydd Pancredit. Canolbwyntiodd llinyn allweddol o'r gwaith ar y strategaeth i sicrhau bod datblygiadau digidol mewn adrodd yn cael eu cynorthwyo'n dda gan ffynonellau data wedi'u llywodraethu'n dda.

Swyddfa rheoli newid

O dan yr amcanion busnes blaenaf a phrosiectau blaenorriaeth, mae pob un o'n timau yn gyfrifol am gysondeb gweithrediadol, cyflawni cadarn, a gwelliant parhaus.

Mae effeithlonrwydd yr olaf, o newidiadau system a phroses, rheolaethau, a chyfreithiol i ddatblygu yn cael eu harnesu trwy ein swyddfa rheoli newid. Mae'n gyfrifoldeb y swyddogaeth hon i flaenorriaethu a llywodraethau arloesedd i weithredu newid cadarnhaol yn y ffordd fwyaf effeithiol. Mae'r grŵp yn awr wedi'i sefydlu fel swyddogaeth hollbwysig â goruchwyliaeth a llywodraethiant o raglen y cynlluniau newid busnes strategol.

Yn 2022/23 cafodd hyn ei gynorthwyo gan gyflwyno fforwm newid gweithrediadol newydd ag aelodaeth yn cynnwys unigolion o bob rhan o'r sefydliad yn cynorthwyo cydweithio ar draws timau â'r cyfrifoldeb ddatblygu a gweithredu cynlluniau newid busnes i wella profiad y cydweithwyr a'r cwsmeriaid.

Recriwtio a chadw

Mae'r economi yn profi newid aruthrol o'r argyfwng hinsawdd, chwyddiant yn codi, ac adferiad ôl-bandemig.

O ganlyniad, rydym yn wynebu amgylchedd cyflogi heriol a, fel llawer o sefydliadau eraill, heriau helaethach â recriwtio a chadw. Pobl yw ein hased mwyaf ac yn sylfaenol i'n llwyddiant tymor hir. Er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau a chyflawni ar ein pwrrpas craidd, rydym wedi gweithio i gynnal diwylliant ac amgylchedd lle mae ein cydweithwyr yn gallu ffynnu a dysgu.

Cafodd cynllun recriwtio a chadw ar gyfer rolau penodol ei gyflwyno yn Ch2 ac mae wedi helpu recriwtio yn y rolau hynny sy'n gweld trosiant uwch ar draws y sector yn sylweddol. Mae hefyd wedi adnabod datrysiau i recriwtio ar gyfer rolau lle roedd oediadau hirsefydlog mewn canfod ymgeiswyr addas.

Gwasanaethau buddsoddi

Cafodd y Cynllun Cymorth i Ddeiliaid Prydlesau ei lansio ar ddiweddfod Ch1 yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru i gynnig cymorth i unigolion mewn caledi ariannol neu'n ei wynebu oherwydd materion diogelwch Tân sy'n effeithio ar eu heiddo.

Mae'r Cynllun wedi bod yn barod i dderbyn ceisiadau ers yr adeg hon a thîm wedi'i recriwtio ac yn ei le. Bydd y Banc Datblygu yn parhau i weithio gydag adrannau ar draws Llywodraeth Cymru, gan drosoli ein gallu ac arbenigedd mewn gwasanaethau ariannol i gynorthwyo meysydd polisi ag angen cyflawniad ariannol.

Adroddiad asesiad effaith

Fel darparwr tymor hir o fenthyciadau a buddsoddiadau ecwiti yng Nghymru, rydym yn gweithio'n galed i gydbwyso elw ariannol ag effaith gymdeithasol.

Rydym yn fuddsoddwr effaith a phwrpas cymdeithasol ac wedi adeiladu ein darpariaeth gyllido o gwmpas ymagwedd ranbarthol. Mae hyn yn caniatáu i ni greu effaith gymdeithasol ac economaidd o fewn yr economi sylfaen arwyddocaol yng Nghymru yn ogystal â thargeddu busnesau twf uchel a thechnoleg. Mae effaith gymdeithasol wedi'i sefydlu yn y ffordd rydym yn gweithio gan gynnwys yn ein sefydliad ein hunain.

Yn ystod tymor ein cynllun corfforaethol 2022/27, byddwn yn gweithio i ddatblygu ein hymagwedd at fuddsoddi cyfrifol ymhellach, gan arwain trwy esiampl yn ein gweithrediadau yn ogystal â'n penderfyniadau buddsoddi.



Bydd hyn yn gydnaws â'n themâu effaith craidd:

Dyfodol llewyrchus

Trwy ddarparu cyllid i farchnadoedd sydd wedi'u tanwasanaethu, rydym yn helpu busnesau i greu cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar gyfoeth a gynhyrchir gan fusnesau yn y cymunedau maen nhw wedi'u lleoli ynddynt.

Cymuned a lle

Mae buddsoddi mewn busnesau sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn helpu gwneud ein cymdeithas yn fwy cydradd, cynhwysol a chydlynol. Mae buddsoddi mewn gwelliannau i lle mae pobl yn gweithio ac yn byw yn hyrwyddo iechyd a llesiant.

Arloesi a thechnoleg

Mae buddsoddi mewn busnesau sy'n arloesi yn creu cyfleoedd cyflogaeth sgiliau uchel mewn technoleg o'r radd flaenaf. Mae cynorthwyo busnesau traddodiadol i fabwysiadu technolegau newydd yn eu gwneud yn fwy cystadleuol a chynhyrchiol – gan ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithlon a chymesur.

Dyfodol cynaliadwy

Mae buddsoddi mewn busnesau sy'n ceisio tyfu'n gynaliadwy yn cyfrannu at gymdeithas garbon isel, fioamrwyiol sy'n cynorthwyo gwytnwch cymdeithasol ac economaidd.

Mesur llwyddiant

Fe wnaethom ymuno ag Egwyddorion ar gyfer Buddsoddi Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig, cynllun cynaliadwyedd corfforaethol gwirfoddol mwya'r byd ym Mawrth 2023 ac mae ein mechanweithiau ar gyfer gwerthuso a mesur ein heffaith yn gydnaws hefyd â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru.

Nid yw'r metrigau hyn yn ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer ein gweithgaredd, ac mae'r adrodd mewn unrhyw flwyddyn benodol yn cael ei ffurfio'n drwm gan y farchnad, proffiliau buddsoddi'r cronfeydd unigol a pha mor hir mae busnes sy'n adrodd wedi bod yn gwsmer. Rydym, foddy bynnag, yn defnyddio'r data i ffurfio polisi buddsoddi a chynlluniau gweithredu sy'n hyrwyddo ymarfer gorau ac ychwanegu gwerth lle bynnag y bo'n bosibl.

Mae ein hadroddiad effaith ar gyfer 2022/23 yn cynnwys y data diweddaraf a adroddir gan sampl o 792 o gwsmeriaid portffolio yn ystod y flwyddyn. Mae maint y sampl tua 25% o'n portffolio gweithredol ac mae'n cynnwys data o gymysgedd o gwsmeriaid ar draws amrediad o feintiau, sectorau a rhanbarthau, gan gynnwys y rheini sy'n adrodd am y tro cyntaf ar ôl buddsoddi a busnesau sydd wedi bod yn ein portffolio am nifer o flynyddoedd.

Datgelir ein methodoleg a'n diffiniadau ar gyfer metrigau effaith ar ein gwefan:

<https://developmentbank.wales/cy/amdanom-ni/perfformiad-ac-effaith>

Dyfodol llewyrchus

Trwy ddarparu cyllid i farchnadoedd a danwasanethir, rydym yn helpu busnesau i greu cyfleoedd cyflogaeth, gan alluogi pobl i gymryd cyfleoedd mynediad at gyflogaeth a chyfoeth a grëir gan fusnesau yn y cymunedau maen nhw wedi'u lleoli ynddynt.

- Roedd 62% o swyddi a grëwyd mewn busnesau â chynnydd net mewn lefelau cyflogaeth, yn ganolrifol i swyddi tâl uchel

- Mae'r gyfran o swyddi a grëwyd yn ganolrifol i rolau tâl uchel, lle mae busnesau wedi cael cynnydd net mewn lefelau cyflogaeth, wedi parhau i fod yn uwch yn ein portffolio mentrau technoleg ar 97% a'n carfan fuddsoddi ecwiti ar 96%. Fodd bynnag, mae'r metrig hwn yn gallu amrywio bob blwyddyn wrth i'r mathau o fusnes a blaenoriaethau twf yn y sampl newid yn annibynnol o'n perfformiad buddsoddi. Er enghraift, gall y sampl gynnwys rhagor o fusnesau seiliedig ar dechnoleg yn reciwtio swyddi medrus iawn, sy'n fwy tebygol o fod a thâl uwch, neu ragor o fusnesau sylfaenol yn reciwtio ar draws amrediad eang o fandiau tâl wrth iddynt gynorthwyo eu cymunedau.
- Rydym wedi gweld cynnydd ar gyfartaledd o 48% mewn cynhyrchiant yn seiliedig ar drosiant fesul gweithiwr llawn amser (FTE). Mae hyn yn fod o gyfrifo effeithlonrwydd a chynnydd blwyddyn ar flwyddyn yn ddangosiad o fusnesau yn gwneud enillion cynhyrchiant i dyfu. Roedd uchaf ymhliith busnesau mentrau technoleg (88%), y buddsodiadau ecwiti ehangach (81%) ac mewn busnesau sydd hefyd wedi profi cynnydd net mewn lefelau cyflogaeth (49%). Er i garfan buddsoddi olyniaeth rheoli gael cynnydd cynhyrchiant is na'r cyfartaledd (21%), y trosiant ar gyfartaledd y gwnaethant ei gynhyrchu fesul FTE oedd yr uchaf ar bron £96,520. Mae hyn yn cymharu â ffigyrâu o'r Monitor Cyllid Mentrau Bach a Chanolig sy'n awgrymu bod dros 60% o fusnesau bach yng Nghymru sydd wedi defnyddio cyllid wedi gweld trosiant yn cynyddu ond mae llai na 5% yn adrodd am wneud diswyddiadau yn ystod 2022.
- Mae data diweddaraf ONS yn awgrymu bod 13% o fusnesau bach yng Nghymru, â gweithwyr, yn cymryd rhan mewn gweithgaredd allforio. Fodd bynnag, mae adroddiad diweddaraf Chwarterol Dîrnad Economi Cymru yn dangos bod allforion Cymru wedi tyfu o 34.9% i £20.5 biliwn dros y flwyddyn i Ragfyr 2022 ond gostyngodd y nifer o fusnesau oedd yn allforio dros y cyfnod. Roedd 10% o'n portffolio sampl yn allforwyr yn 2022/23. Roedd allforio uchaf ymhliith ein carfannau mentrau technoleg a buddsoddi ecwiti (36% yn eu tro) wedi'u dilyn gan fusnesau maint canolig (28%).

Roedd y refeniw a gynhyrchwyd o allforio ar gyfer y busnesau hyn yn 51% o'u troiant. Roedd 88% o swyddi a grëwyd gan fusnesau allforio yn ganolrifol i fandiau tâl uchel.

Cymuned a lle

Mae buddsoddi mewn busnesau sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth yn y cymunedau a wasanaethwn, yn helpu i wneud ein cymdeithas yn fwy cydradd, cynhwysol a chydlynol. Mae buddsoddi mewn gwelliannau i lle mae pobl yn gweithio ac yn byw yn hyrwyddo iechyd a llesiant.

- Roedd 12% o berchnogion/cyfarwyddwyr/ cyfranddalwyr yn y busnesau oedd yn derbyn buddsoddiad newydd a ddarparodd ddata ethnigrwydd yn ddu, Asiaidd neu unigolion ethnig leiafrifol (70). Mae hyn yn gynnydd o 10% dros y tair blynedd diwethaf.
- Roedd 4% o berchnogion/cyfarwyddwyr/ cyfranddalwyr yn y busnesau oedd yn derbyn buddsoddiad newydd a ddarparodd ddata amrediad oedran, o dan 25 (45). Mae hyn wedi bod yr un peth am y tair blynedd diwethaf.
- Roedd 35% o berchnogion/cyfarwyddwyr/ cyfranddalwyr yn y busnesau oedd yn derbyn buddsoddiad newydd a ddarparodd ddata rhywedd yn fenywaidd (380). Mae hyn yn cymharu'n dda â rhanbarthau eraill yn y DU ac rydym yn falch o adrodd bod 32% o berchnogion/cyfarwyddwyr/cyfranddalwyr o fusnesau gwnaethom eu cynorthwyo dros y tair blynedd diwethaf wedi bod yn fenywaidd. Nid oedd gan tua 43% o fusnesau â gweithwyr a gynorthwywyd yn 2022/23 unrhyw berchnogion benywaidd.
- Roedd 44% o berchnogion/cyfarwyddwyr/ cyfranddalwyr mewn busnesau y gwnaethom eu helpu i gychwyn busnes yn fenywaidd tra bod 17% o dan 25. Roedd 17% o berchnogion/cyfarwyddwyr/cyfranddalwyr mewn busnesau oedd yn derbyn buddsoddiad ecwiti yn ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol.

Arloesi a thechnoleg

Mae buddsoddi mewn busnesau sy'n arloesi yn creu cyfleoedd cyflogaeth medrus iawn mewn technoleg o'r radd flaenaf. Mae cynorthwyo busnesau mwy traddodiadol i fabwysiadu technolegau newydd yn eu gwneud yn fwy cystadleuol a chynhyrchiol – gan ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithlon a chymesur.

- Mae gweithgaredd arloesi yn cynnwys ffuriau newydd o weithgaredd Ymchwil a Datblygu cyd-weithrediadol, patentau wedi'u cofrestru ac arloesedd marchnad. Mae'r adroddiad Cyflwr Busnesau Bach 2022 yn dangos bod tua 20% o gwmnïau yn cynyddu eu gweithgaredd arloesi ac Ymchwil a Datblygu tra bod tua thraean yn lleihau gweithgaredd Ymchwil a Datblygu ac roedd 10% wedi atal rhywfaint neu'r cwbl o'r fath weithgaredd. Fodd bynnag, roedd 20% o fusnesau yn ein sampl wrthi'n arloesi yn dilyn buddsoddiad gan y Banc Datblygu. Roedd arloesi ar ei uchaf ymhilh ein cwsmeriaid mentrau technegol (84%) a'n carfan fuddsoddi ecwiti ehangach (83%) o'r sampl. Roedd gan fusnesau oedd yn adrodd am weithgaredd arloesi gynnydd cynhyrchiant uwch na'r cyfartaledd (61%) ac roedd rhagor o swyddi a grëwyd yn ganolrifol i rolau tâl uchel (70%).
- Mae digideiddio yn cynnwys gweithredu CRM, cyfrifeg seiliedig ar y we neu feddalwedd cynllunio wedi'i gynorthwyo gan gyfrifiadur, cyfrifiannu cwmwl, dysgu peiriant e-fasnachu a phrosesau deallusrwydd artiffisial. Mae ymchwil yn awgrymu bod y pandemig Covid-19 wedi cyflymu digideiddio i lawer o fusnesau bach, er bod pwyseddau ariannol yn cyflwyno rhwystr rhag buddsoddi yn awr. Dywedodd 24% o'n hymatebwyr eu bod wrthi'n digideiddio eu busnesau yn dilyn buddsoddiad gan y Banc Datblygu. Roedd y gweithgaredd hwn ar ei uchaf ymhilh y sector mentrau technoleg (58%) a'n carfan fuddsoddi ecwiti ehangach (57%). Roedd gan fusnesau oedd yn adrodd am weithgaredd digideiddio gynnydd cynhyrchiant uwch na'r cyfartaledd (67%) a rhagor o swyddi wedi'u creu yn ganolrifol i rolau tâl uwch (65%).



Dyfodol cynaliadwy

Mae buddsoddi mewn busnesau sy'n ceisio tyfu'n gynaliadwy yn cyfrannu at gymdeithas garbon isel, fioamrwyiol sy'n cynorthwyo gwytnwch cymdeithasol ac economaidd.

- Rydym wedi ymuno a'r Bartneriaeth ar gyfer Cyllid Cyfrifeg Carbon (PCAF), cynllun wedi'i arwain gan y diwydiant i alluogi sefydliadau ariannol i fesur a datgelu'r allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr yn gyson wedi'i gyllido gan eu benthyciadau a'u buddsoddiadau.
- Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda rhwydwaith cynghori ehangach Cymru gan gynnwys banciau a chyfryngwyr ariannol a pharhau i gyfeirio cwsmeriaid at gynghorwyr cynaliadwyedd Busnes Cymru.
- Rydym yn gweithio gyda Nesta, asiantaeth arloesi'r DU er lles cymdeithasol i ennill dealltwriaeth well o'r mathau o gymorth ariannol sydd eu hangen i helpu annog a chynorthwyo pobl i wneud gwelliannau cartref gwyrdd. Bydd Nesta yn adrodd ar argymhellion ar y cyllid sydd ei angen i helpu perchnogion cartrefi i ddatgarboneiddio yn ystod 2023/24.
- Rydym yn cynorthwyo'r trawsnewid marchnad i ddyfol gwyrrddach a chyflwyno cyllid newydd gan gynnwys y Cymhelliad Cartrefi Gwyrrdd sy'n cynnig gostyngiad o hyd at 2% ar fenthyciadau datblygu preswyl. Rydym hefyd wedi lansio'r Cynllun Benthyciad Busnes Gwyrrdd a thelerau ad-dalu o hyd at 15 mlynedd. Mae'r gronfa hon eisoes yn helpu busnesau Cymreig i fynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni.

Astudiaeth achos


Yard

Cyflawnodd yr asiantaeth dechnoleg a marchnata wedi'i hysgogi gan ddata Yard statws B Corp ym Mawrth 2023, dwy flynedd yn unig ar ôl cwblhau pryniant rheolaeth saith ffigwr a gafodd ei gyllido gan Gronfa Olyniaeth Rheoli Cymru.

Fel buddsoddwyr tymor hir yn Yard, rydym wedi parhau i gynorthwyo'r tîm dros y flwyddyn ddiwethaf a chyflwyniadau i Gadeirydd Newydd trwy'r platform reciwtio arbenigol Nurole, a chynghorwyr busnes arbenigol a helpodd y busnes i ddod yn ail asiantaeth ddigidol ardystiedig B Corp yng Nghymru yn unig. Rydym hefyd wedi gwneud atgyfeiriadau at gwsmeriaid portffolio eraill.

Dyweddodd Prif Swyddog Gweithredol Yard, Collette Easton: "Â chymorth ariannol y Banc Datblygu fel ein buddsoddwr tymor hir, rydym wedi gweld refeniw ac elw yn fwy na threblu wrth i ni elwa ar alw cynyddol y DU am wasanaethau trawsffurfio digidol a datblygu meddalwedd."

Certified





Dirnad Economi Cymru

Mae Dirnad Economi Cymru yn casglu ac yn dadansoddi data ar farchnad ariannol Cymru, gan gyfoethogi dealltwriaeth o economi Cymru.

Gan ddod ag ystadegau economaidd ac ymchwil Mentrâu Bach a Chanolig ynghyd, mae'r gwasanaeth yn gywaith ymchwil unigryw rhwng Banc Datblygu Cymru, Ysgol Fusnes Caerdydd, Ysgol Fusnes Bangor, y Ganolfan Ymchwil Menter, a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Mae ei ymchwil yn darparu mewnwelediad i'r cyflenwad o, a'r galw am, gyllid ym marchnad Cymru o fewn y cyd-destun economaidd Cymreig ehangach.

Mae Ysgol Fusnes Caerdydd yn arwain ar gynhyrchu'r adroddiadau chwarterol a blynnyddol ar economi Cymru, Mentrâu Bach a Chanolig Cymru, a mynediad at gyllid.

Mae Ysgol Fusnes Caerdydd, Ysgol Fusnes Bangor a'r Ganolfan Ymchwil Menter oll yn arwain ar gynhyrchu adroddiadau neilltuol i sôn am gwestiynau ymchwil penodol ac amserol. Pwrpas yr adroddiadau hyn yw ychwanegu at ddealltwriaeth newydd o broblem yn economi Cymru, darparu argymhellion polisi a sefydlu sylfaen dystiolaeth ar gyfer ymchwil ychwanegol. Bydd allbynnau'r ymchwil yn defnyddio data o'r ONS, StatsCymru, Banc Datblygu Cymru a ffynonellau data eraill.

Mae cynrychiolwyr o'r pum sefydliad yn ogystal ag o Lywodraeth Cymru yn ffurfio Grŵp Llywio Dirnad Economi Cymru sy'n llywio'r agenda ymchwil, yn gosod cwmpasau i brosiectau, ac yn adolygu a chymeradwyo allbynnau ymchwil i'w cyhoeddi.

Dyfodol cynaliadwy

Yn 2022/23, rhoddodd Deallusrwydd Economaidd Cymru ei gynlluniau ehangu ar waith. Ymunodd partneriaid academaidd newydd, Ysgol Busnes Bangor a'r Ganolfan Ymchwil Menter, â'r cydweithrediad ymchwil. Bydd yr aelodau newydd hyn yn cynhyrchu adroddiadau ac yn datblygu mewnwelediad pellach i'r materion amser real sy'n effeithio ar economi Cymru.

Mae gan Ysgol Busnes Bangor enw da yn rhyngrwladol mewn bancio a chyllid, ac mae'n cael ei chydnabod fel 'Canolfan Ragoriaeth' Sefydliad Bancwyr Siartredig. Ar hyn o bryd mae hefyd ar y safle uchaf o holl brifysgolion y DU am ymchwil ym maes Bancio.

Y Ganolfan Ymchwil Menter (ERC) yw prif ganolfan ragoriaeth y DU ar gyfer ymchwil i dwf, arloesedd a chynhyrchiant busnesau bach a chanolig (BBaCh), gyda ffocws penodol ar yrwyr twf, arloesedd a pherfformiad BBaChau. Mae ei hymchwil yn helpu i lunio'r polisiau a'r arferion sy'n galluogi BBaChau i ffynnau.


Adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2022/23

Adroddiad arbennig

Cyhoeddodd Dirnad Economi Cymru y trydydd mewn cyfres o adroddiadau arbennig ymyriadau ariannol Covid-19 Llywodraeth Cymru oedd yn cynnwys:

1,669

o fusnesau a arolygwyd a dderbyniodd gymorth ariannol Covid-19 Llywodraeth Cymru.



30%

Roedd gan 30% gyflogaeth uwch ar adeg yr arolwg o gymharu â Mawrth 2020.

92%

Cytunai 92% fod cymorth Llywodraeth Cymru wedi gweithio mewn diogelu cyflogaeth.

97%

Roedd 97% yn dal i fasnachu ar adeg yr arolwg tra datblygodd 46% wasanaethau newydd mewn ymateb i'r pandemig Covid-19.


Adrodd chwarterol

Mae canfyddiadau allweddol o'r adroddiadau chwarterol trwy gydol y flwyddyn yn cynnwys:

£20.5 biliwn

Nid yw lefelau buddsoddi busnes wedi adfer eto i lefelau cyn y pandemig.

Cynyddodd gwerth allforion Cymru o 34.9% i £20.5 biliwn dros y flwyddyn i Ragfyr 2022, o gymharu â chynnydd o 23.5% yn yr Alban, 18.1% yn Lloegr, a 15.3% yng Ngogledd Iwerddon. Fodd bynnag, gostyngodd y nifer o fusnesau yn allforio yn unig yng Nghymru.



Mae cyfraddau llog ar fenthyciadau busnes bach wedi cynyddu am 16 mis yn olynol wrth i chwyddiant aros yn uchel.

Adran 172

Mae A172 Deddf Cwmniäau 2006 yn gofyn i gyfarwyddwr cwmni weithredu mewn ffordd y byddai ef neu hi yn ystyried, mewn ffydd da, yn fwyaf tebygol o hyrwyddo llwyddiant y cwmni er budd ei gyfranddalwyr.

Wrth wneud hynny, mae A172 yn gofyn i gyfarwyddwr ystyried, ymhlið materion eraill:

- canlyniadau tebygol o unrhyw benderfyniadau yn y tymor hir;
- buddiannau gweithwyr y cwmni; – angen meithrin perthnasoedd busnes y cwmni a chyflenwyr, cwsmeriaid, ac eraill;
- effaith gweithrediadau'r cwmni ar y gymuned a'r amgylchedd;
- dymunoldeb y cwmni'n cynnal enw da ar gyfer safonau uchel o ymddygiad busnes; ac
- angen l weithredu'n deg rhwng aelodau'r cwmni.

Wrth gyflawni ei ddyletswyddau A172, mae'r Bwrdd yn ystyried y ffactorau a amlinellir uchod. Mae'r bwrdd hefyd yn ystyried ffactorau eraill mae'n eu hystyried yn berthnasol i'r penderfyniadau mae'n eu gwneud. Mae'r bwrdd yn cydnabod na fydd pob penderfyniad mae'n ei wneud o reidrwydd yn arwain at ganlyniad cadarnhaol i holl randdeiliaid y Grŵp. Trwy ystyried pwrrpas, gorchwyl a gwerhoedd y Grŵp ynghyd â'i flaenoriaethau strategol a chael proses ar waith ar gyfer gwneud penderfyniadau, mae'r Bwrdd, fodd bynnag, yn anelu at sicrhau bod ei benderfyniadau yn gyson.

Mae'r bwrdd yn dirprwyo awdurdod ar gyfer rhedeg busnes o ddydd i ddydd i'r prif Swyddog Gweithredol a, thrwyddo ef, i uwch reolwyr i osod, cymeradwyo ac

arolygu gweithrediad strategaeth a pholisïau perthynol y Grŵp. Mae'r Bwrdd yn gweithredu ar ei ran ei hun a thrwy ei bwylgorau, yn adolygu materion sy'n perthyn i berfformiad ariannol a gweithrediadol; strategaeth fusnes; prif risgiau; materion yn ymwneud â rhanddeiliaid; cydymffuriaeth; a materion cyfreithiol a rheoleiddiol, dros gwrs y flwyddyn ariannol.

Cynorthwyir hyn trwy ystyried adroddiadau a chyflwyniadau a ddarperir mewn cyfarfodydd bwrdd ac adolygu agweddau o strategaeth y Grŵp yn rheolaidd.

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid y Grŵp yn allweddol i'r ffordd mae'r Grŵp yn rhedeg ei fusnes ac mae'n ystyriaeth bwysig i'r Cyfarwyddwyr wrth wneud penderfyniadau perthnasol.

Cynllun corfforaethol 2022/27

Mae ein llythyr gorchwyl ar gyfer tymor presennol y llywodraeth yn amlinellu ein blaenoriaethau fel rhan o fodel Tîm Cymru sy'n cynorthwyo model adferiad economaidd Llywodraeth Cymru a'r ymateb i'r argyfwng hinsawdd.

Rydym mewn safle unigryw i gynorthwyo'r gwytnwch economaidd a thwf economi Cymru i'r dyfodol. Mae gennym ddyletswydd hefyd i chwarae ein rhan yn yr ymdrech tuag at Gymru Sero Net fel pencampwyr economi werdd a hwyluswyr newid.

Ar ôl sefydlu'r Banc Datblygu fel sefydliad credadwy iawn, dibynadwy ac effeithiol dros dymor y cynllun corfforaethol cyntaf, mae'r bwrdd wedi ymrwymo i sicrhau bod pob un o'r 282 o gydwreithwyr wedi canolbwytio ar gyflawni ein pwrrpas; dod ag uchelgeisiau yn fyw a thanio posibiliadau i bobl, busnesau, a chymunedau yng Nghymru.

Mae ein cynllun corfforaethol ar gyfer y cyfnod 2022/27 yn amlinellu sut y byddwn yn datgloi potensial yn economi Cymru trwy gynyddu cyflenwad a

hygyrchedd cyllid cynaliadwy, effeithiol. Cafodd ei ffurfio gan ddiwrnod strategaeth y Bwrdd a gynhalwyd yn Nhachwedd 2021 ac mae'n mynd i'r afael â'r prif flaenorriaethau o ran cynyddu pwysigrwydd ffactorau ESG mewn mesur cynaliadwyedd ac effeithiau moesegol ein buddsoddiadau a'n rôl mewn cynorthwyo datblygiad economi garbon isel.

Cyfleoedd y dyfodol

Mae prif gynlluniau a symudodd ymlaen yn ystod 2022/23 yn cynnwys:

- Iansiad y Cymhelliad Cartrefi gwyrdd yng Ngorffennaf 2022, y cynyrch cyntaf wedi'i anelu at gynorthwyo'r symudiad at ddatgarboneiddio Economi Cymru. Gellir canfod manylion y cynllun ar dudalen 51.
- Iansiad y Cynllun Benthyriad Busnes Gwyrdd yn Chwefror 2022, gan gynnig benthyg ar ddisgownt a chymorth ymgynghoriaeth i fusnesau sy'n gweithredu prosiectau datgarboneiddio fel ynni adnewyddadwy neu welliant ffabrig adeiladu.
- Iansiad y Cynllun Cymorth Deiliaid Prydlesi, gwasanaeth mae'r Banc Datblygu yn ei weinyddu ar ran Llywodraeth Cymru, gan gynnig cymorth i unigolion mewn, neu'n wynebu caledi ariannol sylweddol oherwydd materion diogelwch tân sy'n effeithio ar eu heiddo.
- Cafodd Grŵp Cymorth Adferiad y Banc Datblygu (RSG) ei ffurfio yn 2021 i ddarparu cymorth dwys i fusnesau Cymru wrth i'r economi godi o'r pandemig. Gan ystyried yr heriau economaidd parhaol a achoswyd gan y cyrch ar Wcráin, derbyniodd y Bwrdd ddiweddarriad ar weithgareddau'r RSG. Nododd y Bwrdd fod lefelau gweithgaredd RSG wedi cynyddu o gymharu â'r flwyddyn flaenorol â nifer helaethach o fusnesau Cymru yn cael budd o gymorth wedi'i dargedu

trwy ymyriadau fel cyflwyniad i gynghorwyr arbenigol a/neu ddarpariaeth cyllid.

Mae ein strategaeth gorfforaethol yn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer 2022/27. Mae cyfleoedd y dyfodol yn cynnwys:

- gweithio gyda landlordiaid preifat fel rhan o Hunanadeiladu Cymru i helpu canfod rhagor o gyfleoedd ar gyfer datblygiad fel y cymeradwyir gan ein Bwrdd gyda Llywodraeth Cymru;
- – rhagor o ddatblygiad offer ariannol arloesol i ddatblygu'r uchelgeisiau am ddyfodol gwyrdd yng Nghymru gan gynnwys ôl-ffitio domestig ac ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae gan y Grŵp nifer o brif grwpiau rhanddeiliaid y mae'n ymgysylltu'n weithredol â nhw. Mae gwrando ar, deall ac ymgysylltu â'r grwpiau rhanddeiliaid hyn yn rôl bwysig i'r Bwrdd mewn gosod strategaeth a gwneud penderfyniadau. Mae'r Grŵp yn cydnabod ei rwymedigaethau a'i ofynion i fod yn fusnes gwasanaethau ariannol wedi'i reoli'n dda, sy'n cydymffurfio â rheoleiddio ac yn cyflawni canlyniadau da i gwsmeriaid.

Mae gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid wedi bod yn werth craidd sy'n aros wrth galon ein brand a chynllun corfforaethol adfywiedig ar gyfer 2022/27. Mae ein gwerthoedd diwygiedig yn pwysleisio sut rydym yn gweithio gydag eraill ac maen nhw wedi cael eu hadlewyrchu yn ein fframwaith cymhwyster newydd:

- Cydweithio clyfar;
- Ynni entreprenaidd;
- Empathi gwrthrychol;
- Cyfrifoldeb ymwybodo.

Ein cwsmeriaid

Fel buddsoddwr cyfrifol, rydym yn mesur ein heffaith â mecanweithiau sy'n gydnaws a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Galwad i Weithredu Llywodraeth Cymru.

Gan gydbwys o elw ariannol ag effaith gymdeithasol, rydym wedi datblygu pedair thema effaith a gymeradwyodd y Bwrdd:

- dyfodol llewyrchus;
- cymuned a lle;
- dyfodol cynaliadwy;
- arloesi a thechnoleg.

Mae'r rhain yn cael eu trafod yn fanylach yn ein datganiad effaith ar dudalen 58 - 62.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd grŵp gwaith trawsdimau mewnol ei gynnnull i ystyried gweithredu'r Ddyletswydd Defnyddwyr FCA Newydd. Datblygodd y grŵp gwaith raglen weithredu i ateb y gofynion Newydd gan gynnwys mesurau ychwanegol i amddiffyn cwsmeriaid sy'n agored i niwed. Mae'r Bwrdd a'r pwylgor Archwilio a Risg wedi cael eu briffio ar gynnydd.

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein rhaglen o drawsffurfio digidol â'r nod o wella gwerth a sicrhau ein bod yn parhau i ateb anghenion esblygol ein cwsmeriaid.

Sgôr Hyrwyddwr Net (NPS) yw ein mesur safonol o fodlonrwydd cwsmeriaid yn awr. Mae canlyniadau arolygon 2022/23 ar gyfer ein buddsoddiadau yng Nghymru yn ogystal â'n hadborth FW Capital olrhain cwsmeriaid ar holl gytundebau micro, buddsoddiadau newydd, TVI ac eiddo yng Nghymru ynghyd â'r holl gytundebau a gwblheir gan FW Capital.

Mae'r sgôr cyfunol hwn o 88 yn gosod ein lefelau gwasanaeth yn y chwarter uchaf. Mae'r adborth yn cael ei ddefnyddio yn awr i wella profiad cwsmeriaid ymhellach ac yn darparu meinnod ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd.

Digwyddiadau a nawdd

Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein rhaglen allgymorth, gan gymryd rhan mewn amrediad eang o ddigwyddiadau rhanddeiliaid a gweithgaredd nodd i cydnaws â'n nodau strategol cyffredinol. Ymhliith y rhain, noddodd y Banc Datblygu y Wobr Entrepreneur yn Womenspire 2022, gan ddangos ein cymorth i entrepreneuriaid benywaidd. Fe wnaethom gadw ein gwobr arian yng ngwasanaeth meinchnodi Cyflogwr Chwarae Teg mudiad Chwarae Teg yn 2022. Rydym hefyd wedi parhau â'n cyfraniad i Banel Cynggori Cynorthwyo Menywod Entrepreneuriaidd trwy weithredu camau o'r canllaw Ymarfer Da. Ni oedd y prif noddwr yn ail Wobrau Busnes Menywod Cymru mewn Busnes dwyieithog Llais Cymru, a gynhalwyd ar-lein yng Ngorffennaf 2021.

Roedd digwyddiadau rhanddeiliaid eraill a gynorthwywyd yn cynnwys Sefydliad y Cyfarwyddwyr, Ffederasiwn y Busnesau Bach, Gwobrau Twristiaeth Gogledd Cymru a chinio blynnyddol ICAEW. Mae aelodau'r Bwrdd yn mynychu digwyddiadau strategol allweddol i ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid.

Ein hamgylchedd

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein gweithgaredd effaith buddsoddi a'n hymagwedd gyffredinol at yr agenda gynaliadwyedd ehangach. Mae'r grŵp llywio ESG yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac â chynrychiolaeth o dimau buddsoddiadau, portffolio, strategaeth Cymru a FW Capital. Gyda'n gilydd, mae ganddynt gyfrifoldeb dros arolygu strategaeth, polisiau a dangosyddion perfformiad yr ESG ac maen nhw wedi adrodd i'r Bwrdd ar gynnydd trwy gydol y flwyddyn. Mae'r Bwrdd wedi enwebu Kate Methuen-Ley fel y Cyfarwyddwr arweiniol ar gyfer materion cynaliadwyedd ac a fydd yn gweithredu fel dolen rhwng y Bwrdd a grŵp ESG.

Ym Medi cymeradwyodd y Bwrdd sawl argymhelliaid gan y grŵp gan gynnwys:

- Cymeradwaeth o bolisi buddsoddi cyfrifol newydd fydd yn llywio'r ffordd mae ystyriaethau ESG yn cael eu hymgorffori i wneud penderfyniadau buddsoddi ynddi.

- Dod yn llofnodwr Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol y Cenhadloedd Unedig, fframwaith cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol gwirfoddol mwya'r byd.
- Dod yn llofnodwyr i'r Bartneriaeth ar gyfer Cyllid Cyfrifeg Carbon i gynorthwyo asesiad o raddfa a deinameg ein hallyriadau a gyllidir.
- Recriwtio rheolwr cynaliadwyedd dynodedig i ddarparu cymorth a chyngor arbenigol i arweinyddiaeth uwch a gweithrediadau busnes.

Ein cymunedau

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i chwe philer busnes cyfrifol: gan ddarparu effaith nid yn unig i gwsmeriaid a rhanddeiliaid, ond hefyd i gyflenwyr a chydweithwyr, yn ogystal ag wrth gynorthwyo'r amgylchedd a'n cymuned.

Mae ein cyllido yn cynorthwyo datblygiad economaidd yn uniongyrchol yn y rhanbarthau rydym yn gweithredu yn dynt, gan greu a diogelu swyddi ac ysgogi cadwyni cyflenwi lleol. Fel aelodau o Fusnes yn y Gymuned (BITC) Cymru, rydym hefyd wedi cyrchu eu cymorth yn rhagweithiol fel rhan o'n hymdrehch i wella'n cymwysterau fel busnes cyfrifol.

Mae ein Bwrdd yn derbyn diweddarriadau rheolaidd ar weithgareddau cymunedol a chodi arian trwy'r adroddiad rheoli gweithredol misol. Maen nhw'n cymeradwyo pob gweithgaredd ac yn mynychu digwyddiadau strategol allweddol.

Rhwng Chwefror 2021 a Mawrth 2023, rydym yn falch o fod wedi codi dros £45,000 i'n partner elusen, Mind. Fe wnaethom gyflawni hyn trwy amrywiaeth o gynlluniau codi arian, gan gynnwys:

- Cymerodd tîm o gydweithwyr ran yn Endure24, ras gyfnewid 24 awr dros gwrs 8km.
- Dringodd tîm o gydweithwyr yr Wyddfa.
- Fe wnaethom gynnal ein Diwrnod Golff Elusennol cyntaf.
- Fe wnaethom gynnal dawnsfeydd elusen yng Nghaerdydd a Newcastle.
- Iotri gweithwyr 50/50.

Yn ogystal â'n prif bartneriaeth elusen â Mind, fe

wnaethom hefyd godi arian a chynorthwyo'r rheini a effeithiwyd gan y rhyfel yn Wcráin. Roedd gweithgareddau'n cynnwys codi arian i gydweithiwr y cafodd ei deulu ei effeithio'n uniongyrchol gan y rhyfel, cafodd ein pencadlys yn Wrecsam ei ddefnyddio i storio cyfraniadau, ac fe wnaethom gyfrannu cyflenwadau hanfodol i glwb Wcranaidd.

Am yr wythfed flwyddyn yn olynol, rhoddodd cydweithwyr anrhegion Nadolig i 150 o blant trwy elusennau NSPCC a Barnardo's.

Ein cyflenwyr

Rydym yn falch o'r perthnasoedd cryf a buddiol sydd gennym â'n cyflenwyr.

Rydym yn glynw at y Cod Talu Cyflym, ac yng Nghymru rydym wedi defnyddio porth caffael Sell2Wales Llywodraeth Cymru trwy gydol y flwyddyn i gaffael cyflenwyr. Rydym hefyd wedi cyrchu contractau fframwaith llywodraeth i gynorthwyo ein twf a'n rhaglen drawsnewid ddiigidol barhaol.

Derbyniodd y Bwrdd ddiweddarriadau rheolaidd ar brif weithgareddau caffael y Grŵp trwy'r adroddiad rheoli gweithredol misol a diweddarriadau polisi gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Ein cyfranddalwr

Ein hunig gyfranddalwr yw Llywodraeth Cymru. Rydym yn gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr etholedig ac uwch swyddogion i gyflawni blaenoriaethau a dyheadau polisi fel yr amlinellir yn ein llythyr gorchwyl Tymor Llywodraeth. Mae Llywodraeth Cymru yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd Banc Datblygu Cymru fel sylwebydd.

Fel yr endid 'ymddiriedol' mae Llywodraeth Cymru yn lleoli cyllid ar gyfer buddsoddi ac elw trwyddo, rydym yn cydymffurfio â'r safonau, canllawiau ac egwyddorion llywodraethiant sy'n gymwys i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd â Gweinidog yr Economi a'i swyddogion, ac mae'r berthynas yn cael ei rheoli gan Dîm Partneriaeth Llywodraeth Cymru.

Ein cydweithwyr

Rydym yn fusnes pobl, ac mae ein cydweithwyr yn hanfodol i gyflawni'r cynllun corfforaethol. Rydym wedi gweithio'n galed i greu diwylliant ac amgylchedd mae ein cydweithwyr yn gallu ffynnu a dysgu ynddynt. Mae dyluniad ein hamgylcheddau gwaith yn Wrecsam a Chaerdydd wedi creu gofod sy'n cynorthwyo ein model gwaith hyblyg ac yn annog cydweithio ac arloesi helaethach. Bydd rhagor o ystyriaeth yn cael ei rhoi i fuddsoddi yn ein swyddfeydd llai ar draws y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'r bwrdd yn ymgysylltu â staff, gan wahodd aelodau'r tîm i'r bwrdd ar bynciau strategol, mynchyu digwyddiadau rhwydweithio a chynnal cyfarfodydd ymgysylltu â staff oedd eleni yn ein pencadlys yn Wrecsam.

Gwahoddir cydweithwyr i gymryd rhan yn ein harolwg blynnyddol sy'n ceisio adborth ar brif agweddu profiad y gweithwyr fel perthnasoedd mewnol, tâl a buddion, hyfforddiant, a chyfathrebu. Derbyniwyd adborth cadarnhaol ar ein cynhadledd holl gydweithwyr cyntaf ers y pandemig a gynigiodd gyfle i ranu diweddariadau busnes yn Stadiwm Principality Caerdydd. Roedd hi'n amlwg o'r adborth hwn, y gwerth uchel a roddwyd ar y cyfle i gyfarfod yn y cnawd, rhwydweithio ac i ysgogi meddwl creadigol.

Mae'r Grŵp yn annog ac yn cynorthwyo cydweithwyr i ddatblygu eu gyrfa â 45% o'n hymgyrchoedd reciwtio yn cael eu llenwi gan ymgeiswyr mewnol yn ystod 2022/23 ac mae'r data hyn yn cael eu darparu i'r Bwrdd mewn adroddiadau misol a blynnyddol. Mae llwybr datblygu gyrfa strwythuredig ar gyfer cydweithwyr wedi cael ei weithredu, gan arwain at 10 dyrchafiad yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn brif ysgogwr mewn denu a chadw'r bobl gywir i ddarparu twf y sefydliad yn y dyfodol.

Mae polisiau dethol, hyfforddi, datblygu a dyrchafu'r Grŵp wedi'u cynllunio i roi cyfle cyfartal i bob cydweithiwr, waeth beth fo'u hoedran; anabledd; rhyw; ailbennu rhywedd; statws priodasol a phartneriaeth sifil; beicio grwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred, neu ddiffyg crefydd neu gred; cyfeiriadedd rhywiol neu gysylltiad ag undeb llafur.

Mae'r Grŵp yn gweithio gyda phob cydweithiwr, gan gynnwys y rheini ag anableddau (4%) ac mae'n addasu arferion gwaith yn ôl yr angen i gynorthwyo cynhyrchiad ac ymgysylltiad.

Darperir ein hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb yn unol â'n polisi gweithio hybrid. Fe wnaethom gyflawni 1,716 diwrnod o hyfforddiant yn ystod 2022/23. Mae hyn yn gydradd â'n lefel uchaf erioed, â chyfartaledd o 6 diwrnod o hyfforddiant fesul cydweithiwr a chynnydd o 4.5 diwrnod yn 2021/22.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau dull wedi'i gynllunio i ddarparu amgylchedd gwaith iach a hapus. Mae hyn yn cynorthwyo cydweithwyr mewn cynnal a gwella eu hiechyd personol a'u llesiant yn y gwaith ac mae'n cynnwys ymwybyddiaeth ariannol, iechyd meddwl, ac iechyd corfforol. Digwyddodd y cynlluniau llesiant canlynol yn ystod y flwyddyn:

- cyfathrebiadau wythnosol i'r holl gydweithwyr;
- gweithio hybrid;
- seminarau llesiant rheolaidd yn cwmpasu pob agwedd o lesiant;
- adolygom ein buddion gweithwyr a darparom becyn gwell;
- sesiynau ymwybyddiaeth diweddu mislif i reolwyr llinell a phob cydweithiwr a chymorth ar gael;
- cynllun seiclo i'r gwaith;
- cynlluniau ymgysylltu â gweithwyr;
- cafodd 150 + o bigiadau ffliw eu darparu i gydweithwyr;
- 10 cynorthwyr cyntaf iechyd meddwl ar gael i gynorthwyo cydweithwyr a chynnal sesiynau llesiant rheolaidd i'r holl gydweithwyr;
- 63 o gydweithwyr yn cymryd rhan yn y sesiynau 'torri iâ', cyfle gwych i ddechreuwyd newydd ddod i adnabod cydweithwyr;
- digwyddiadau iechyd meddwl "Cerdded a siarad".

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, roedd 7% o'n cydweithwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd, ac Etnig Leiafrifol o gymharu â 9% yn 2021/22. Rydym yn falch hefyd o fod wedi cynnal gwobr Arian Chwarae Teg mudiad Chwarae Teg ar gyfer cydraddoldeb y rhywiau eleni.



Ein pencadlys
yn Wrecsam

Adroddiad y Prif Swyddog Ariannol

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu darlun clir o berfformiad ariannol y Grŵp am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.



Mae'r datganiadau wedi mynd yn gynyddol gymhleth ac anodd i'w deall yn y blynnyddoedd diweddar nid yn unig oherwydd natur amrywiol ein gweithgareddau, ond hefyd oherwydd y cymhlethdodau cynhenid yn y safonau cyfrifeg mae'n rhaid i ni eu cymhwysyo.


Er mwyn darparu eglurder, a chynorthwyo â dehongli rydym wedi strwythuro'r adroddiad gan:

Ddarparu adolygiad lefel uchel o ganlyniadau cyfunol y Grŵp

Disgrifio dau brif weithgaredd clir y Grŵp a sut maen nhw'n cynhyrchu refeniwiau ac yn creu costau.

Crynhoi'r refeniwau a'r costau ar lefel gyfunol ac yna dangos sut mae'r rhain yn rhannu rhwng y ddau weithgaredd hyn.

Cymharu perfformiad blwyddyn ar flwyddyn ar gyfer pob gweithgaredd.



Ein blwyddyn ariannol: Adolygiad lefel uchel

Ym Mlwyddyn Ariannol BA23, gwnaeth y Grŵp golled ar ôl treth o £24.1 miliwn o gymharu â cholled ar ôl treth o £20.0 miliwn ym Mlwyddyn Ariannol BA22.

Fel y rhagwelwyd llynedd, mae'r gostyngiad mewn darpariaethau yn dilyn y gostyngiad canfyddedig mewn risg cysylltiedig â Covid-19 wedi gwrthdroi ac mae wedi cael ei ddisodli gan gynnydd mewn darpariaethau o £21.6 miliwn.

Nid yw hyn yn annisgwyl o ystyried yr amodau macroeconomaidd a gorchwyl trosfwaol y Grŵp i gamu i mewn lle mae methiant marchnad yn bodoli. Yn y cyd-destun hwn, pan ystyriwn ein prif ddangosyddion perfformiad allweddol ('KPIs') ar gyfer ein cyfranddaliwr fel y cyflwynir isod, rydym wedi cael blwyddyn gref, gan fynd y tu hwnt i'r targed a pherfformiad y flwyddyn flaenorol mewn tri allan o bedwar o'n prif ddangosyddion perfformiad.

	BA23	BA23 Targed	BA22
Buddsoddiad blynnyddol (£m)	124.2	117	109.1
Nifer o fuddsodiadau	516	532	519
Cydfuddsoddiad ar gymhareb cronfeydd busnes	1:1.36	1:1	1:0.8
Nifer o swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd*	4,669	3,662	3,540

*Mae'r dull ar gyfer mesur nifer y swyddi sy'n cael eu creu neu eu diogelu ym mhob blwyddyn wedi'i nodi ym mhob cytundeb cronfa unigol ac mae'r cyfansymiau blynnyddol a ddangosir yma yn cynnwys cymysgedd o swyddi gwirioneddol a grëwyd/diogelwyd a swyddi a gynlluniwyd a grëwyd/diogelwyd

Dadansoddiad o Weithgareddau'r Grŵp

Gellir symleiddio gweithgareddau'r Grŵp ar lefel uchel trwy wahanu ein gweithgareddau rhwng dau brif faes gwahanol, y busnes gwasanaethau a'r busnes cronfeydd. Mae'r tabl isod yn amlinellu prif nodweddion y ddau faes:

Gwasanaethau	Cronfeydd
Pwrpas	
Darparu gwasanaethau rheoli cronfa i'n cronfeydd ein hunain a rhai trydydd parti. Mae gwasanaethau a ddarperir yn cwmpasu cylch bywyd ein cynhyrchion gan gynnwys buddsoddi, monitro parhaol, casglu addaliadau ac ymadael yn y pen draw. Mae'r rhan hon o'r busnes hefyd yn cynnwys y gweithgareddau gweithrediadol parhaol sy'n ofynnol i gynorthwyo ein gwasanaethau rheoli cronfeydd megis cyfleusterau, TG, cyllid, cyfathrebiadau ac adnoddau dynol. Mae'r holl weithgaredd sy'n gysylltiedig ag Angylion Buddsoddi Cymru a Dirlad Economi Cymru wedi eu cynnwys hefyd.	Dal arian ar gyfer buddsoddiadau – mae'r holl drafodion sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'n cynhyrchion ariannol yn mynd trwy ochr cronfeydd y busnes. Mae gan y Grŵp sawl cronfa, sy'n cael eu defnyddio i ddarparu benthyciadau neu brynu gyfranddaliadau mewn busnesau yng Nghymru neu'n darparu ecwiti ar y cyd i brynwyr cartrefi newydd yng Nghymru. Rheolir y cronfeydd hyn yn bennaf gan y busnes gwasanaethau.
Sut mae'r ddau faes yn cynhyrchu refeniw?	
Mae refeniwau yn cynnwys ffioedd a dderbynir am reoli cronfa a gwasanaethau dal cronfa. Mae'r cronfeydd yn talu am y fath ffioedd.	Mae refeniwau yn cynnwys ffioedd a godir ar gwsmeriaid, llog a dderbynir ar fenthyciadau, derbynnebau pan werthir cyfranddaliadau neu yr adferir benthyciadau ecwiti ar y cyd, ac enillion a cholledion ar fuddsoddiad sy'n cael eu hailbrisio ar ddiwedd y flwyddyn i'w gwerth presennol (teg).
Pa gostau a achosir gan bob maes	
Mae costau'n cynnwys gweithwyr, cyfleusterau a gwasanaethau a ddygir i mewn (megis TG).	Mae costau'n cynnwys ffioedd a delir am wasanaethau rheoli cronfeydd, darpariaethau ar gyfer colledion ar fuddsoddiadau a chostau gweithredu cronfeydd megis ffioedd cyfreithiol neu ffioedd archwilio.
Asesiad perfformiad	
Bydd adolygiad blynnyddol yn dangos os yw rhan yma o'r grŵp yn cwmpasu ei gostau gweithredu.	Mae hyd bob un o'n cronfeydd yn amrywiol ac yn gallu amrywio o bump i ugain mlynedd. Mae proffidioldeb a pherfformiad cronfa yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac mae'n dibynnu ar ei gyfnod aeddfedu, yn ogystal â'r amgylchedd macroeconomaidd. Mae canlyniadau cronfa yn cynnwys anwadalwch a achosir gan symudiadau mewn asedau blwyddyn ar flwyddyn a ddelir ar werth teg sy'n amcangyfrifon a heb eu gwireddu. Nid yw adolygiad blynnyddol o safle cyfansymoli ein holl gronfeydd yn ffordd effeithiol o asesu perfformiad cronfa unigol.

Dadansoddiad perfformiad Grŵp cylchrannol

Mae'r dadansoddiad a ddangosir yn Nhabl A isod yn dangos canlyniadau'r busnes gwasanaethau a chronfeydd a pherfformiad cyfunol cyffredinol y Grŵp.

Mae ffigur colled y Grŵp o £24.1 miliwn ar ôl trethiant (colled BA22 o £20.0 miliwn) ar gyfer BA23 yn cynnwys yr elw o £3.5 miliwn (BA22 £4.8 miliwn) o'r busnes gwasanaethau a'r golled o £27.6 miliwn (colled BA22 £24.8 miliwn) o'r cronfeydd busnes. Eglurir yr elwau a'r colledion ar gyfer y busnesau gwasanaethau a chronfeydd yn fanylach yn Nhablau B a C yn eu tro.

Yn y datganiad incwm cyfunol, mae colled y Grŵp ar ôl treth yn cael ei ddadansoddi rhwng colled £22.8 miliwn (BA22 colled £20.2 miliwn) priodoladwy i gyfranddalwyr ecwiti, Gweinidogion Cymru, a cholled £1.3 miliwn (BA22 elw £0.2 miliwn) priodoladwy i log nad yw'n rheoli. Mae hyn yn cynrychioli cyfran colled busnes y cronfeydd oherwydd Cronfa Bensiwn Clwyd o ganlyniad i'w buddsoddiad ecwiti yng Nghronfa Olyniaeth Rheoli Cymru. Gweler Tabl C a'r nodyn cysylltiedig am fanylion.

	BA23			BA22		
	Gwasanaethau	Cronfeydd	Grŵp*	Gwasanaethau	Cronfeydd	Grŵp*
	£m	£m	£m	£m	£m	£m
Incwm	41.4	56.9	62.2	39.8	51.3	55.6
Darpariaethau a ryddhawyd / a wnaed	0.0	(16.8)	(16.8)	0.0	4.8	4.8
Newidiadau mewn gwerth teg	0.0	(30.5)	(30.5)	0.0	(25.3)	(25.3)
Treuliau eraill	(37.9)	(27.9)	(29.7)	(35.0)	(28.1)	(27.6)
Elw/(colled) cyn llog tybiannol Llywodraeth Cymru	3.5	(18.3)	(14.8)	4.8	2.7	7.5
Llog tybiannol ar fenthyciadau Llywodraeth Cymru	0.0	(9.3)	(9.3)	0.0	(25.3)	(25.3)
Elw/(colled) ar ôl llog tybiannol Llywodraeth Cymru	3.5	(27.6)	(24.1)	4.8	(22.6)	(17.8)
Trethu	0.0	0.0	0.0	0.0	(2.2)	(2.2)
Elw/(colled) ar ôl treth	3.5	(27.6)	(24.1)	4.8	(24.8)	(20.0)

Tabl A: Dadansoddiad lefel uchel o BA23 a BA22
Datganiad incwm cyfunol


*Mae'r ffigyrâu Grŵp hyn yn llai na chyfanswm ffigyrâu busnes gwasanaethau a chronfeydd oherwydd dileu'r trafodion rhwng grwpiau rhwng y ddau. Mae cysoniad llawn sy'n dangos sut mae'r trafodion rhwng y ddau wedi cael eu dileu ar gadarnhau a rhwng y ffigyrâu yn Nhabl A uchod ac yn Nhablau B a C isod a'r datganiad incwm cyfunol yn cael ei gynnwys yn Atodiad A i'r adroddiad blynnyddol a datganiadau ariannol.

Mae'r effeithiau materol ar y golled am y flwyddyn oll yn eitemau heb fod yn arian sy'n cynnwys darpariaethau,

ecwiti gwerth teg a llog tybiannol ar fenthyciadau Llywodraeth Cymru.

Mae'r graff isod yn crynhoi sut mae'r golled cyn treth BA22 o £17.8 miliwn yn symud i golled cyn treth o £24.1 miliwn eleni.

Y prif elfennau i'w nodi o'r siart hwn yw'r newidiadau mewn darpariaethau a'r symudiad mewn llog tybiannol ar fenthyciadau Llywodraeth Cymru fel yr eglurir isod.



Cynnydd mewn darparu a cholled gwerth teg

Mae darpariaethau a gwerthoedd ecwiti teg yn cael eu heffeithio gan yr hinsawdd macroeconomaidd sy'n wynebu'r DU ac Ewrop yn sgil y rhyfel barhaol yn Wcráin gan gynnwys chwyddiant, cyfraddau llog uchel a chostau ynni cynyddol.

Mae darpariaethau colled benthyciad o dan IFRS 9 yn seiliedig ar ddisgwyliadau ar gyfer colledion yn y dyfodol, nid yn unig ar golledion a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn. Fel y rhagwelwyd yn natganiadau ariannol y flwyddyn ddiwethaf mae'r gostyngiadau mewn lefelau darparu a welwyd yn BA22 wedi cael eu gwrtihdroi yn BA23.

Mae'r cynnydd o £21.6 miliwn mewn darpariaethau yn adlewyrchu'r newid mewn amodau credyd ar ddiwedd y flwyddyn hon o gymharu â llynedd. Mae hyn wedi arwain at daliad darpariaethau £16.8 miliwn eleni o gymharu â rhyddhau £4.8 miliwn llynedd. Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y cyfraddau colled a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r taliad darpariaethau gan arwain at gynnydd o 41% yn y lwfans colled a chynnydd yn y ganran ddarpariaeth effeithiol o 11.7% yn BA22 i 15.9% yn BA23, gan adlewyrchu'r hinsawdd macroeconomaidd heriol parhaol. Trafodir y taliad darpariaethau yn fanylach yn nodiadau 2, 4 a 19 yn y datganiadau ariannol.

Y prif gyfrannwr arall at y golled hon yw'r gostyngiad yng ngwerth teg ein buddsoddiadau. Y symudiad mewn gostyngiad gwerth teg o flwyddyn i flwyddyn yw £5.2 miliwn a'r gostyngiad ei hun yn BA23 yn £30.5 miliwn (BA22 gostyngiad o £25.3 miliwn). Mae'r gostyngiad mewn gwerth teg yn gyfuniad o enillion a cholledion a wireddwyd ac na wireddwyd ar fuddsoddiadau ecwiti mae'r Grŵp yn eu dal yn uniongyrchol (BA23 £30.4 miliwn o gymharu â BA22 £16.4 miliwn a'r symudiad yn cael ei achosi'n bennaf gan gwyp o tua £10.4 miliwn yng ngwerth cyfranddaliadau rhestredig AIM y Banc Datblygu) a'r gostyngiad yng ngwerth teg buddsoddiad y Grŵp yng Nghronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru (BA23 £0.1 miliwn o gymharu â BA22 £8.9 miliwn).

Mae buddsoddiadau ecwiti a ddelir gan y Grŵp yn cael eu dal ar werth teg, sydd i bob pwrrpas, ein hamcangyfrif gorau o'r hyn ddylai gwerth yr ecwiti fod ar ddyddiad diwedd y flwyddyn. O dan IFRS 9 dangosir newidiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau ecwiti yn y datganiad incwm. Mae hyn yn arwain at anwadalwch yng nghanlyniadau'r Grŵp a adroddir, fel y dangosir yn y ffifyrâu cymharol uchod, gan ddibynnu ar sut mae prisiadau'r asedau ecwiti hyn yn newid. Dilynir proses o brisio ecwiti pob dwy flynedd sy'n cael ei harolygu gan ein Pwyllgor Prisiadau. Mae'r dulliau a ddefnyddir i bennu gwerth teg ecwiti wedi'u nodi yn nodyn 19 y datganiadau ariannol. Mae hwn yn ffugwr hynod gyfnewidiol yn ein datganiadau ariannol.

Delir ein buddsoddiad yng Nghronfa Gwyddorau Bywyd Cymru ('WLSIF') hefyd ar werth teg o fewn ein datganiadau ariannol ac mae'n ddarostyngedig i'r un anwadalwch ag a grybwyllir uchod. Y Gronfa hon yw'r unig gronfa o fewn ein portffolio sydd ddim yn cael ei rheoli gan ein busnes gwasanaethau.

Mae WLSIF yn cael ei rheoli gan Arix Capital Management ('ACM') trwy gytundeb rheoli cronfa dewisol sy'n golygu bod perfformiad yr asedau a ddelir yn y gronfa yn fater i ACM fel rheolwr y gronfa.

Ar 28 Chwefror 2023, cyrhaeddodd y gronfa ddiwedd ei hoes deng mlynedd, ac mae proses ddiddymu wedi cychwyn. Mae hyn wedi achosi i golled heb ei gwireddu ar fuddsoddiad £50 miliwn y Banc Datblygu yn WLSIF i gael ei wireddu. Mae'r bwrdd wedi cymeradwyo diddymiad dros dro o £27.1 miliwn. Bydd

y diddymiad terfynol yn cael ei gydnabod unwaith y bydd ein ein cyfran o'r asedau sy'n weddill o'r gronfa wedi cael eu gwireddu.

O fuddsoddiad £50 miliwn y gronfa hon, roedd £20 miliwn wedi cael ei ad-dalu i Lywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2023 (BA22 £20.0 miliwn). Gwerth teg y buddsoddiad oedd yn weddill ar 31 Mawrth 2023 oedd £2.5 miliwn (BA22 £2.6 miliwn), rydym yn disgwyl iddo gael ei drosglwyddo yn ôl i'r Banc Datblygu fel cymysgedd o arian a chyfranddaliadau fel rhan o'r broses ddiddymu.

Llog tybiannol ar fenthyciadau

Llywodraeth Cymru

Y prif gyfrannwr arall at y golled yw'r £9.3 miliwn (BA22 £25.3 miliwn) taliad llog tybiannol ar fenthyciadau Llywodraeth Cymru. Trafodir hyn yn fanylach yn adran Sylwebaeth Ychwanegol ar dudalen 84. I grynhoi, dosberthir benthyciadau gan Lywodraeth Cymru i'r Grŵp ar gyfradd llog 0%. Mae rheolau cyfrifeg yn mynnu heb ystyried y gyfradd llog 0% hon, dylem gydnabod taliad llog yn ein cyfrifon o hyd, sef yr hyn a ddisgrifiwn fel 'llog tybiannol'. Er mwyn eglurder, nid yw hyn yn cynrychioli llog taladwy gan y Grŵp i Lywodraeth Cymru, mae'n addasiad cyfrifeg yn hytrach na symudiad arian.

Er gwaethaf effaith negyddol llog tybiannol ar ein canlyniadau, mae'r gostyngiad o £16 miliwn yn y tâl llog tybiannol ar gyfer BA23 yn ddyledus i'r perfformiad cadarnhaol parhaus ein cronfa CWBLS gwerth £92 miliwn (ein cronfa ymateb brys i Covid-19), a gosodwyd gennym yn BA21. Mae'r cyfraddau diffigdalu is na'r disgwyl a addaswyd ar eu cyfer yn BA22 wedi parhau ar yr un lefel yn BA23. Fel canlyniad nid ydyn wedi gweld yr un symudiad a welwyd yn BA22 o ran cost llog ychwanegol yn ymwneud ar ad-daliad disgwyliedig. Mae'n werth nodi bod £37 miliwn (BA22 £19 miliwn) o arian parod wedi'i ad-dalu ers dechrau'r gronfa gan ein cwsmeriaid cronfa CWBLS, sef 40% (BA22 21%) o'r arian a ddefnyddiwyd, sy'n llawer uwch na'r disgwyliadau ar gyfer y cam hwn o'r gronfa. Hyd yma nid ydym yn ymwybodol o unrhyw geisiadau twyllodrus mewn perthynas â'r gronfa hon. Yn yr un modd, ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i ad-daliadau

benthyciad disgwyliedig i Lywodraeth Cymru ar unrhyw un o'n cronfeydd eraill.

Mae dileu effaith llog tybiannol Llywodraeth Cymru yn lleihau'r golled o £9.3 miliwn (BA22 £25.3 miliwn), gan arwain at golled grŵp cyffredinol o £14.8 miliwn (elw grŵp BA22 £7.5 miliwn), sy'n fwy arwyddol o'r perfformiad gwaelodol y Grŵp ar gyfer y cyfnod adrodd yn yr amgylchedd macro-economaidd heriol presennol.

Mae'r symudiadau llai arwyddocaol eraill a grynhoir yn y graff uchod wedi'u crynhoi yn y graff ar dudalen 76.

Llywodraeth Cymru trwy greu cronfeydd newydd a cheisio am gyllid o ffynonellau eraill.

Mae proffidioldeb cyffredinol wedi gostwng yn gymedrol blwyddyn ar flwyddyn, yn bennaf oherwydd y cynydd mewn costau yn mynd y tu hwnt i'r twf mewn ffioedd rheoli cronfeydd, fel y nodir yn y tabl ar dudalen 79. Cafodd y gostyngiad mewn proffidioldeb ei gynllunio yn ein cyllidebau fel y nodir yn y sylwebaeth gyllidebol o dan y tabl. Mae busnes gwasanaethau proffidiol tymor hir yn cynorthwyo dyheadau cynaliadwyedd y Grŵp.

Perfformiad ein busnes gwasanaethau

Mae'r busnes gwasanaethau yn darparu gwasanaethau rheoli cronfeydd i'n cronfeydd ein hunan a rhai trydydd parti. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gyflogi cyfartaledd o 265 o weithwyr (BA22 254) i fuddsoddi a monitro'r cronfeydd rydym yn eu rheoli a darparu'r gwasanaethau cymorth sy'n lapio o gwmpas y gweithgareddau buddsoddi.

Ein busnes gwasanaethau yw lle mae costau gweithredu'r Grŵp yn cael eu creu, mae ei berfformiad yn fwy sefydlog ac yn haws i'w rag-weld na'r busnes cronfeydd. Mae gweithgareddau codi arian hefyd yn ffurfio rhan o'r gweithgaredd cymorth a ymgymrir gan y busnes gwasanaethau. Er mwyn sicrhau bod cronfa ar gael yn barhaol, mae'r busnes gwasanaethau yn parhau i chwilio am gyfleoedd newydd i gynorthwyo polisi



	BA23	BA22	Sylwebaeth
	£m	£m	
Incwm rheoli cronfeydd	41.4	39.8	Mae cynnydd oherwydd cyfuniad o gronfeydd newydd o dan reolaeth, effaith blwyddyn lawn cronfeydd newydd a ddaeth o dan reolaeth yn ystod BA22, ac effaith ychwanegiadau a wnaed i gronfeydd presennol yn ystod BA23. Mae'r codiadau hyn wedi cael eu gwrthbwys o rhannol gan ostyngiad mewn ffioedd mewn perthynas â chronfeydd yn symud i'w cam gwireddu (heb fod yn buddsoddi) a therfynu ffioedd sy'n cyrraedd diwedd eu hoes. Roedd cronfeydd grŵp ar gyfartaledd o dan reolaeth yn BA23 a BA22 gan gynnwys FW Capital, yn £2.2 biliwn a £2.1 biliwn yn y drefn honno, a chynnydd o 5%. Arhosodd incwm ffioedd ar gyfartaledd o gymharu â chronfeydd ar gyfartaledd o dan reolaeth yn 1.9% (BA22 1.9%)
Cyfanswm refeniw	41.4	39.8	
Costau staff	(18.7)	(17.1)	Mae cynnydd oherwydd cyfrif pennau cynyddol i gynorthwyo darparu cyllid. Mae'r nifer o weithwyr ar gyfartaledd wedi codi o 254 yn BA22 i 265 yn BA23. Mae cost ar gyfartaledd fesul gweithiwr wedi codi tipyn o dan CPI y DU yn BA23 o 10.1% o £67,300 i £70,600 (4.9%).
Costau eraill	(19.2)	(17.9)	Mae'r cynnydd 7% mewn costau gweithredu ychydig ar y blaen i'r cynnydd 5% mewn cronfeydd o dan reolaeth ac yn sylwedol o dan CPI blynnyddol BA23 o 10.1%.
Cyfanswm y costau	(37.9)	(35.0)	
Gwarged incwm dros gostau	3.5	4.8	

Tabl B: Gwasanaethau BA23 a BA22 Dadansoddiad o'r datganiad incwm

Elw a chynaliadwyedd y faes gwasanaethau

Dylid nodi nad yw'r elw a nodir uchod ar gael i'w dosbarthu. Mae wedi'i glustnodi eisoes fel rhan o'r Grŵp yn cronni arian gweithredol wrth gefn a chyfraniad gofynnol o £103 million** rhwng 2024 a 2030 i mewn i Gronfa Fuddsoddi Hyblyg Cymru. Bydd yr elw hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r elw gwaddol o Gronfa Fusnes Cymru a chronfeydd eraill mewn modd gwireddu fel cronfa JEREMIE Cymru a Chronfa Mentrâu Bach a Chanolig Cymru. Mae'r elwau cronfeydd gwaddol hyn a'r elw cronnol ar gael o'r busnes gwasanaethau yn dod i c. £77 miliwn ar 31 Mawrth 2023 (£47 miliwn ar 31 Mawrth 2022).

**Dylid nodi bod £5 miliwn o etifeddiaeth o gronfeydd wedi cael ei drosglwyddo'n gynharach nac a fwriadwyd i mewn i Gronfa Fuddsoddi Hyblyg Cymru yn BA21 i bontio diffyg yn y gronfa tra chafodd Llywodraeth Cymru ei dargyfeirio i'r Gronfa CWBLS, gan leihau'r gofyniad uchod o £103 miliwn i £98 miliwn.

Perfformiad y busnes gwasanaethau yn erbyn cynllun gweithrediadol blynnyddol

Fel y dangosir yn Nhabl B, bu gostyngiad yn yr elw a gynghyrchiwyd gan y busnes gwasanaethau o £1.3 miliwn (27%) o BA22. Cafodd elw o £1.2 miliwn ei rag-weld yng nghynllun gweithrediadol blynnyddol BA23. Cafodd yr elw hwn ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru i alluogi'r Grŵp i barhau i adeiladu arian gweithredol wrth gefn. Bydd yr arian hwn wrth gefn yn galluogi'r Grŵp i weithredu heb Grant mewn Cymorth gan Lywodraeth Cymru ac aros yn hunangyllidol, sy'n brif amcan Banc Datblygu Cymru.

Gallwn rag-weld incwm a gwariant y busnes gwasanaethau â sicrydd rhesymol am y tair blynnydd nesaf sy'n dangos bod y busnes gwasanaethau yn aros mewn safle elw cronnol ac felly yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr rydym yn gallu gwneud ein datganiad hyfywedd tymor hir dros y tair blynnydd nesaf heb ystyried a yw ein busnes cronfeydd mewn elw neu golled.

Mae'r elw o £3.5 million a adroddir a nodwyd yn Nhabl B uchod £2.3 miliwn yn uwch na'r hyn a gynnuniwyd sydd yn bennaf briodoladwy i £1 miliwn o incwm heb ei gyllidebu ar draws cronfeydd newydd a chronfeydd presennol a dderbyniodd gyllid ychwanegol a £1.3 miliwn o ostyngiad mewn costau amrywiol eraill.

Perfformiad ein busnes cronfeydd

Mae'r Grŵp yn derbyn cyllid gan fuddsoddwyr gan gynnwys Gweinidogion Cymru, Banc Busnes Prydain a Chronfa Bensiwn Clwyd ac mae'n buddsoddi'r cyllid hwnnw yn unol â chanllawiau a osodir, yn casglu ad-daliadau, ac wedyn mae naill ai'n ad-dalu'r buddsoddwr neu'n ailfuddsoddi'r ad-daliadau i mewn i gronfeydd newydd neu bresennol (gweler yr adran elw a chynaliadwyedd y maes gwasanaethau uchod). Mae ehangader y cronfeydd rydym yn eu cynnig wedi'u hamlinellu ar dudalennau 20 - 21 yr adroddiad strategol. Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd cyllid newydd o £5.1 miliwn gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo eu blaenoriaethau (BA22 £99 miliwn ar 31 Mawrth 2023).

Mae'r perfformiad yn Nhabl C (dros y dudalen) yn adlewyrchu canlyniadau cyfunol 18 o gronfeydd buddsoddi mae'r busnes gwasanaethau yn eu rheoli, y buddsoddiad £50 miliwn i Gronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru (WLSIF) a'r gronfa benthyciad ecwiti ar y cyd Cymorth i Brynu Cymru ("HTB-W").

Aeth y busnes cronfeydd i golled ar ôl treth o £27.6 miliwn eleni o gymharu â cholled ar ôl treth o £24.8 miliwn yn y flwyddyn flaenorol. Fel y nodwyd yn y grynodeb lefel uchel, y prif ysgogwr ar gyfer y symudiad hwn yw'r cynnydd mewn darpariaethau.

Mae'r busnes cronfeydd wedi perfformio mewn amgylchedd anodd. Fel yr amlinellir ar dudalen 73, mae ein prif ddangosyddion perfformiad blaenaf ac eithrio busnesau a gynorthwywyd wedi perfformio y tu hwnt i darged yn ogystal â pherfformiad BA22.

Tabl C: Cronfeydd BA23 a BA22 dadansoddiad o Ddatganiad Incwm

	BA23	BA22	Sylwebaeth
	£m	£m	
Ffioedd a dderbyniwyd	5.0	4.3	Mae cynnydd mewn ffioedd yn adlewyrchu'r gweithgarwch buddsoddi cynyddol yn y flwyddyn gyfredol. Mae'r ffioedd yn cynnwys ffioedd trefnu a lle bo'n berthnasol, yn ogystal ag ailgodi ffioedd proffesiynol a dynnir gan ein Cronfeydd yn ystod y broses fuddsoddi.
Difidendau BAU ac incwm llog	14.6	14.3	Mae incwm llog wedi cynyddu £1.1 miliwn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn bennaf oherwydd y cynnydd yng ngwerth y llyfr benthyciadau sylfaenol i fusnesau bach a chanolig sydd wedi cynyddu o £277 miliwn i £288 miliwn. Mae'r cynnydd mewn incwm llog wedi'i wrthbwys o £0.9 miliwn yn yr addasiad incwm llog sy'n ofynnol gan IFRS9 mewn perthynas ag asedau Cam 3. Mae'r addasiad hwn i adlewyrchu llog a godwyd ar werth cario net y benthyciad yn hytrach na'r gwerth gros. Mae gwerth yr asedau sydd yng Ngham 3 wedi cynyddu o £55 miliwn i £67 miliwn. Gweler nodyn 4 am fanylion pellach. Mae cyfraddau llog cyfartalog ar gyfer y llyfr benthyca i BBaChau wedi aros yn weddol gyson ar 7% (BA22 7.1%).
Llog tybiannol ar fenthyciadau CWBLS	4.2	4.0	Mae'r balans hwn yn cynrychioli'r llog tybiannol ychwanegol a fyddai wedi'i godi pe bai benthyciadau CWBLS wedi'u rhoi ar gyfraddau'r farchnad. Gweler y sylwebaeth ychwanegol ar dudalen 84.
Cyfanswm difidendau ac incwm llog	18.8	18.3	
Rhyddhau Grant ERDF	20.3	27.6	Mae cyllid grant ERDF yn ymwneud â Chronfa Fusnes Cymru yn unig, sydd wedi cael £186 miliwn o gyllid ERDF yn ystod ei hoes. Rhyddheir y grant fel refeniw i'r datganiad incwm yn unol â'r buddsoddiad a wnaed. Mae'r gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn i'w briodoli i natur ranbarthol darged yr arian sy'n weddill o fewn y gronfa, gyda buddsoddiadau BA23 yn canolbwytio ar ardal ddaearyddol lai nag yn y blynnyddoedd blaenorol. Rhaid gwario holl gyllid ERDF erbyn 31 Rhagfyr 2023, ac felly bydd y ffigur hwn yn is yn BA24 a sero yn BA25. Ceir mwy o fanylion yn nodyn 18.

Tabl C: Cronfeydd BA23 a BA22 Mae dadansoddiad datganiad incwm yn parhau dros y dudalen.

	BA23	BA22	Sylwebaeth
	£m	£m	
Trysorlys net ac eithrio llog benthyciad tybiannol Llywodraeth Cymru	12.8	1.1	Mae'r cynnydd o ganlyniad i symudiad yng nghyfradd sylfaenol Banc Lloegr dros y cyfnod, gyda'r gyfradd sylfaenol yn cynyddu o 0.75% i 4.25%. Rydym yn parhau i weithredu Polisi Trysorlys darbodus ac yn monitro risg credyd gwrthbarti yn rheolaidd.
Newidiadau gwerth teg HTB-W:			
Enillion a wireddwyd wrth waredu	13.6	11.1	Gellir priodoli'r symudiad i sawl ffactor gan gynnwys maint ac aeddfedrwydd y llyfr yn ogystal â chwyddiant prisiau tai. Mae nifer yr adbryniadau wedi gostwng 20% yn BA23 o 1,609 i 1,283. Fodd bynnag, mae'r enillion cyfartalog ar adbrynu wedi cynyddu, o £6,920 i £10,602, sef cynnydd o 53%, gan arwain at gynnydd o £2.5 miliwn yn yr enillion a wireddwyd.
Gwerth teg heb ei wireddu Ennill/ (colled) yn y flwyddyn	(50.6)	4.2	Gweler y sylwebaeth ar dudalen 84. Sylwch mai symudiad anariannol yw hwn i adlewyrchu gwerth teg y llyfr ar ddiwedd y flwyddyn. Gweler nodyn 3 am fanylion y dyfarniadau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiad.
Cynnydd / (gostyngiad) yn y swm sy'n ddyledus i'r prif gyfranddaliwr	37.0	(15.3)	Dyma swm yr enillion a (colledion) wedi'u gwired du a heb eu gwired du uchod sydd (wedi'u hychwanegu at) / wedi'u tynnu o'r swm sy'n ddyledus i brif gyfranddaliwr y Grŵp.
Newid gwerth teg net HTB-W wedi'i gofnodi yn y datganiad incwm	0.0	0.0	
Cyfanswm incwm net	56.9	51.3	
Taliadau ffioedd rheoli'r gronfa	(26.0)	(26.2)	Mae hyn yn ymwneud â'r ffioedd a delir i'r busnes gwasanaethau. Dim symudiad materol yn ystod y flwyddyn.
Costau eraill	(1.9)	(1.9)	Dim symudiad materol yn ystod y flwyddyn.
Is-gyfanswm costau	(27.9)	(28.1)	

Tabl C: Cronfeydd BA23 a BA22 Mae dadansoddiad datganiad incwm yn parhau dros y dudalen.

	BA23	BA22	Sylwebaeth
	£m	£m	
Darpariaethau a wnaed	(16.8)	4.8	Gweler 'Cynnydd mewn darpariaeth a cholled gwerth teg' ar dudalen 76
Enillion / (colled) heb eu gwireddu ar y gronfa anghyfunol	27.0	(8.9)	Mae'r rhain yn ymwneud â'r symudiad gwerth teg heb ei gwireddu a wedi ei gwireddu ym muddsoddiad y Grŵp yng Nghronfa Gwyddorau Bywyd Cymru (WLSIF). Gweler 'Cynnydd mewn darpariaeth a cholled gwerth teg' ar dudalen 76
Enillion / (colled) wedi'u gwireddu ar gronfa anghyfunol	(27.1)	0.0	
Enillion / (colled) gwerth teg arall	(30.4)	(16.4)	Gweler 'Cynnydd mewn darpariaeth a cholled gwerth teg' ar dudalen 76 am sylwebaeth
Llog tybiannol ar fenthyciadau LIC	(9.3)	(25.3)	Mae hyn yn cynrychioli'r symudiad o flwyddyn i flwyddyn mewn llog tybiannol a godir ar fenthyciadau LIC. Mae'n cynnwys dad-ddirwyn llog tybiannol blynnyddol o £6.8 miliwn (BA22 £7.2 miliwn) a fydd yn amrywio wrth i gyllid newydd gael ei ddarparu / ad-dalu i Lywodraeth Cymru, ac elfen amrywiol, sy'n cael ei llywio gan newidiadau yn y lefelau ad-dalu a ragwelir. Yn BA22 gwelsom gynnydd sylweddol yn yr elfen newidiol hon oherwydd perfformiad gwell na'r disgwyl o gronfa CWBLS, a arweiniodd at gynnydd yn yr ad-daliadau a ragwelwyd i Lywodraeth Cymru ac o ganlyniad codwyd llog tybiannol. Mae perfformiad cryf y gronfa CWBLS wedi parhau i BA23, sydd wedi arwain at ychydig o symud i elfen amrywiol y tâl yn y flwyddyn gyfredol. Gweler sylwadau pellach ar gefndir hyn isod.
Cyfanswm y costau	(84.5)	(73.9)	
Elw / (colled)	(27.6)	(22.6)	
Trethiant	0.0	(2.2)	Yn BA22, cododd rhwymedigaeth dreth o ganlyniad i symudiadau hanesyddol ar fenthyciadau LIC yn dilyn ailldatgan balansau yn natganiadau ariannol BA21. Nid oes unrhyw rwymedigaethau treth wedi codi yn BA23.
Elw / (colled) ar ôl treth	(27.6)	(24.8)	

Tabl C: Cronfeydd BA23 a BA22 dadansoddiad datganiad incwm

Sylwebaeth ychwanegol:

Cymorth i Brynu – Cymru Cronfa fenthyciadau ecwiti ar gyfer prynwyr cartrefi newydd

O Dabl C, byddwch yn nodi bod symudiad arwyddocaol yng ngwerth teg asedau ecwiti ar y cyd heb eu gwireddu yn ein llyfr HTB-W. Mae'r model a ddefnyddiwyd i gyrraedd gwerth teg y llyfr hwn heb ei wireddu yn sensitif iawn i newidiadau yn y mynegai prisiau tai a'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir yn y cyfrifiad. Mae trosglwyddo'r golled net £37 miliwn heb ei gwireddu i Weinidogion Cymru yn BA23 (BA22 £15.3 miliwn o ennill heb ei wireddu) yn bennaf yn ganlyniad cynnydd yng ngraddfa'r disgownt a ddefnyddir yng nghyfrifiad BA23. Mae'r gyfradd ddisgownt yn cael ei dylanwadu gan newidiadau diweddar mewn cyfraddau llog ac mae wedi cynyddu o 3.05% yn BA22 i 6.22% yn BA23, gan arwain at y golled heb ei gwireddu. Gallwn barhau i weld anwadalwch yn y dyfodol mewn enillion a cholledion wrth symud ymlaen gan y gall newid bach yn naill ai'r mynegai pris tai neu gyfradd ddisgownt achosi newid arwyddocaol yn yr ennill neu golli gwerth teg. Mae'r dyfarniadau cyfrifeg hanfodol a gymhwysir wrth gyrraedd yr ennill/ (colled) gwerth teg heb ei wireddu wedi'u hamlinellu yn nodyn 3, amlinellir dadansoddiad ychwanegol yn nodyn 19.

Eiddo i barti arall nad yw'n rheoli

O'r buddsoddiad £10 miliwn i mewn i Gronfa Olyniaeth Rheoli Cymru gan Gronfa Bensiwn Clwyd, y mae £7.5 miliwn ohono wedi cael ei dynnu i lawr a'i fuddsoddi a £2.8 miliwn wedi cael ei ad-dalu gan y gronfa ar 31 Mawrth 2023 (BA22 £5.5 miliwn wedi'i fuddsoddi a £2.8 miliwn wedi'i ad-dalu) yn y fuddsoddiad ecwiti allanol cyntaf a wnaed i un o Gronfeydd y Grŵp. Mae'n cyfateb i £10 miliwn o gyllid gan Weinidogion Cymru a £5 miliwn o gyllid gan y Grŵp ei hun. O dan rolau cyfrifeg, bernir bod y gronfa hon yn cael ei rheoli gan y Grŵp ac felly mae'n rhaid ei chynnwys yn natganiadau ariannol y Grŵp. Gan nad yw'r gronfa yn cael ei hariannu'n llawn gan y Grŵp, mae rheolau cyfrifeg yn gofyn i ni ddatgelu cyfran y gronfa sy'n briodoladwy i'r buddsoddrwr allanol yn y fantolen balans cyfunol o dan y pennawd "eiddo i barti arall nad yw'n rheoli" o fewn

yr adran Ecwiti. Yn yr un modd, rydym hefyd yn datgelu'r elw sy'n briodoladwy i'r buddsoddrwr allanol yn y datganiad incwm gyfunol a'r datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr.

Triniaeth benthyciadau'r Cynllun Benthyciad Busnes Cofid-19 Cymru (CWBLS)

Yn ystod BA21, buddsoddodd y Banc Datblygu £92 miliwn o benthyciadau CWBLS i dros 1,300 o fusnesau yng Nghymru. Cafodd y benthyciadau hyn eu dosbarthu ar raddfa log islaw'r farchnad o 2% y flwyddyn lle mae'r cymorthdal cyfradd llog hwn yn cynrychioli cymorth gwladwriaeth a roddir ar ran Llywodraeth Cymru. Mae asedau benthyciadau CWBLS yn cael eu cydnabod yn y lle cyntaf ar werth teg a geir trwy roi disgownt i lifau arian contractau gan ddefnyddio cyfradd log briodol i'r farchnad. Arweiniodd hyn at asedau benthyciadau cychwynnol o £72 miliwn a thaliad datganiad incwm cyfunol o £20 miliwn ar gyfer y grant sydd wedi cael ei roi allan i bob pwrpas i fusnesau.

Ailadroddir y safle hwn yn nhriniaeth cyfrifeg y benthyciad Llywodraeth Cymru cyfatebol, hynny yw, mae'r £92 miliwn yn cael ei rannu i grant o £20 miliwn sy'n cael ei gredydu i'r datganiad incwm cyfunol yn unol ag amseriad y buddsoddiad a £72 miliwn sy'n cael ei gyfrifo yn unol â benthyciadau Llywodraeth Cymru (gweler isod). Mae cydnabyddiaeth cost grant ac incwm grant yn digwydd ar yr un pryd, a chawsant eu datgelu net yn y datganiad incwm cyfunol.

Yn unol ag IFRS 9, cydnabyddir incwm llog gan ddefnyddio'r gyfradd log effeithiol sy'n gydradd â chyfradd log y farchnad ar y llyfr CWBLS. Mae'r llog hwn yn cael ei gredydu i'r datganiad incwm cyfunol (wedi'i gynnwys mewn difidendau ac incwm llog) ac wedi'i ddebydu i'r dyledwr fydd yn adfer balans y dyledwr yn ôl i £92 miliwn erbyn diwedd y gronfa yn BA27. Mae'r gwahaniaeth rhwng y gyfradd farchnad a'r gyfradd log gytundebol o 2% yn arwain at incwm tybiannol ychwanegol o £4 miliwn (BA22 £4 miliwn).

Triniaeth ar gyfer benthyciadau Llywodraeth Cymru

Yn y blynnyddoedd diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid yn gynyddol i'r Grŵp trwy fenthyciadau llog 0%. Hyd at BA21 roedd y benthyciadau hyn wedi cael eu cydnabod yn unol â'u llifau arian – hynny yw, gan gydnabod dyled yn gydradd a'r arian a dderbyniwyd a dim taliad llog trwy'r datganiad incwm. Mae'r dull hwn yn fwy greddfol ac yn haws i'w ddeall i ddarllenwyr datganiadau ariannol.

Fel y nodwyd yn y grynodeb lefel uchel uchod, mae'r rheolau cyfrifeg rydym wedi gorfol eu cymhwyso yn mynnu heb ystyried y gyfradd log 0%, y dylem barhau i gydnabod taliad yn ein cyfrifon i adlewyrchu'r hyn fyddai'r gyfradd log wedi bod pe byddai cyfradd log briodol wedi cael ei chodi o gychwyn y benthyciad. Dyma'r hyn rydym yn ei ddisgrifio fel 'llog tybiannol'. Er mwyn eglurder, nid yw hyn yn cynrychioli llog sy'n daladwy mewn gwirionedd gan y Grŵp i Lywodraeth Cymru, mae'n addasiad cyfrifeg yn hytrach na symudiad arian.

Mae effaith y newid hwn yn faterol ar y datganiad incwm cyfunol yn ogystal â'r fantolen, gan gynyddu'r taliad llog tybiannol, a chynyddu ein harian wrth gefn Ecwiti Cyhoeddus. Nid oes newid mewn llifau arian disgwyliedig, hynny yw, y llog gwirioneddol i'w dalu (dim) a'r cyfalaф gwirioneddol i'w ad-dalu (y benthyciad gwreiddiol llai diffygdaid disgwyliedig).

Mae gwerth teg benthyciadau Llywodraeth Cymru yn cael ei bennu gan ddisgowntio'r llifau arian disgwyliedig dros dymor y benthyciad i roi gwerth presennol y ddyled ar yr adeg y cafodd y benthyciad ei ddosbarthu. Gan fod y benthyciadau hyn yn fawr o ran gwerth a thros gyfnodau amser hir, mae gwerth teg y benthyciad yn gallu bod yn faterol is na'r arian a dderbynir.

Pob blwyddyn codir cost llog yn y datganiad incwm cyfunol wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio'r raddfa ddisgownt gychwynnol ac mae'r ddyled yn dadweindio i gydweddu â'r llifau arian ar y benthyciad.


Pe byddai'r driniaeth gyfrifeg flaenorol yn cael ei dilyn o hyd, mae Tabl A yn dangos y byddai'r Banc Datblygu yn

dangos colled o £14.8 miliwn yn BA23, £9.3 miliwn yn is na'r golled a adroddwyd cyn treth (BA22 elw o £7.5 miliwn, £25.3 miliwn yn uwch na'r swm a adroddwyd).

Yn yr un modd, byddai'r fantolen yn dangos Asedau Net/ Cyfanswm Ecwiti o £134.2 miliwn ar 31 Mawrth 2023, £178.4 miliwn yn is na'r swm a adroddwyd (£145.3 miliwn ar 31 Mawrth 2022, £187.1 miliwn yn is na'r swm a adroddwyd).

David Staziker, Prif Swyddog Ariannol

31 Awst 2023



Rheol risg

Rydym yn cydnabod bod rheolaeth effeithiol o brif risgiau yn hanfodol i ateb ein hamcanion ac i gyflawni twf cynaliadwy. Mae angen i'r risgiau hyn gael eu hadnabod, eu deall, a'u trafod yn briodol, i amddiffyn ein cwsmeriaid, rhanddeiliaid, a'r amgylchedd.


Mae ein Fframwaith Rheoli Risg wedi cael ei gynllunio i gydgyfeirio â maint, graddfa a chymhlethdod y Grŵp ac mae'n diffinio ymagwedd gyffredin at reoli risg. Mae'r Polisi Rheoli Risg a Sicrwydd yn amlinellu ein hymagwedd at lywodraethiant, rheoli risg a gweithgaredd sicrwydd gan ddefnyddio'r model "tair llinell o amddiffyn".

Mae gennym bolisiau a gweithdrefnau ledled y Grŵp mewn grym wedi'u cynllunio i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau cymwys, gan gynnwys Trefn Uwch Reolwyr ac Ardystio yr FCA, twyll a throseddu ariannol, llwgrwobrwyd a llygredd, chwythu'r chwiban, Rheoleiddio Diogelu Data Cyffredinol a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Prif egwyddorion y model hwn, fel y dangosir gan y diagram uchod, yw:

1. Mae gan y Bwrdd atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros reoli risg o fewn y Banc.
2. Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rolau a chyfrifoldebau rheoli risg penodol i Bwyllgor Archwilio a Risg y Bwrdd, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Prif Swyddog Risg.
3. Cynorthwyir y Prif Swyddog Gweithredol a'r Prif Swyddog Risg mewn darparu'r cyfrifoldebau hyn gan y tîm uwch, a hwnnw hefyd yn cael ei gynorthwyo gan y swyddogaeth Risg a Chydymffurfiaeth yng nghyflawniad ei gyfrifoldebau.





Mae ein fframwaith rheoli risg (RMF) yn cynorthwyo adnabod, asesu, monitro a lliniaru risgiau mae'r Grŵp yn debygol o'u hwynebu.

Mae'r RMF:

Yn dangos cysylltiad clir i'r strategaeth gyffredinol a chynllun busnes y Banc Datblygu.

O dan berchnogaeth y Prif Swyddog Risg ac wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd y Banc Datblygu. Argymhellir bod unrhyw newidiadau i'r RMF yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg i'w cymeradwylol.

Yn amlinellu'r weledigaeth ac amcanion rheoli risg, a'r ymagwedd ar gyfer datblygu gallu rheoli risg y Grŵp.

Yn cael ei adolygu'n flynyddol ac, os oes gofyn, yn amlach i adlewyrchu unrhyw newidiadau materol i'r rhagolwg busnes, economaidd neu reoliadol.

Rolau a chyfrifoldebau

Rôl y Bwrdd

Mae gan y Bwrdd atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol ar gyfer rheoli risg o fewn y Grŵp ac mae'n cynorthwyo gweithredu fframwaith rheolaethau effeithiol sy'n galluogi i risg gael ei asesu a'i rheoli. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cefnogi'r Bwrdd.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cymysgedd priodol, ar y Bwrdd yn ogystal ag o fewn y Grŵp ehangach, o arbenigedd, adnabyddiaeth o'r busnes, profiad ariannol, gwybodaeth dechnegol, a phersbectifau allanol.

Mae gosod y "dôn o'r brig" yn rhan hanfodol o'rôle y Bwrdd mewn annog diwylliant risg cadarnhaol. Mae'r Bwrdd ac uwch reolwyr yn gweithredu ac yn disgwyl y cydweithwyr i weithredu yn agored ac â chywirdeb ac i adrodd am ddiffyg cydymffurfiaeth â pholisi a gweithdrefn.

Yn olaf, mae'r Bwrdd yn cymeradwyo goddefiadau risg y Grŵp i adnabod a diffinio'r mathau a'r lefelau o risgiau mae'n fodlon derbyn wrth ddilyn ein hamcanion strategol ac i sicrhau bod fframwaith priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Rôl rheolwyr a chydweithwyr

Mae'r Uwch Dîm Rheoli (SMT) yn gyfrifol am weithredu Polisi Rheoli Risg a Sicrwydd y Banc Datblygu ac am dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw newid materol yn codi yn nhebygorwydd neu effaith prif risgiau.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cymryd cyfrifoldeb am sefydlu ymarfer rheoli risg effeithiol ledled y Grŵp ac mae'n gyfrifol hefyd am sicrhau bod goblygiadau ariannol ac anariannol risg ar ein perfformiad yn cael eu cydnabod mewn dull doeth nac amserol.

Yn ogystal â chyfrifoldebau penodol yr Uwch Dîm Rheoli, mae'r holl gydweithwyr yn gyfrifol am adnabod, rheoli, a lliniaru risgiau o fewn eu maes/meysydd busnes.

Diwylliant risg

Mae diwylliant risg cadarnhaol yn cynorthwyo'r Grŵp mewn cyflawni ei bwras ac amcanion datganedig ar risg dderbyniol. Mae'r diwylliant yn cael ei adlewyrchu mewn ymddygiadau a ddangosir gan y Bwrdd a chydweithwyr ynghylch ymwybyddiaeth o risgiau, cymryd risgiau a rheoli risgiau.

Mae'r model "tair llinell o amddiffyn" (gweler fframwaith sicrwydd ar dudalen 102-103 am esboniad o'r model) yn allweddol i sicrhau bod rheoli risg yn cael ei sefydlu ar draws y Grŵp, fel y mae'r "dôn o'r brig" mewn perthynas â chyfarwyddyd a chymorth gan y Bwrdd a'r Uwch Dîm Rheoli.

Mae atebolrwydd personol hefyd yn rhan bwysig o'n diwylliant risg. Anogir cydweithwyr i gymryd perchnogaeth o adnabod a rheoli risgiau o fewn eu meysydd busnes priodol. Mae cyfarwyddyd a chymorth ar gael i alluogi cydweithwyr i adrodd am ddigwyddiadau risg a damweiniau "trwch blewyn."

Yn olaf, mae timau amddiffyn llinell gyntaf ac ail linell yn gweithio gyda'i gilydd, mewn cyd-weithrediad, i reoli proffil risg y Banc Datblygu. Wrth wneud hynny, mae'r ail linell amddiffyn yn bwriadu cynnal annibyniaeth weithredol o'r llinell gyntaf trwy gyhoeddi cyfarwyddyd clir am reoli risg, gan ddirprwyo'r cyfrifoldeb cyffredinol am gynllun rheoli a gweithrediad i linell gyntaf yr amddiffyn, a chynorthwyo a herio eu penderfyniadau.

Prif risgiau

Mae'r prif risgiau i gyflawni amcanion strategol y Banc Datblygu yn cael eu diffinio gan y Bwrdd ac yn cael eu hamlinellu isod.

Mae'r Grŵp yn rheoli'r prif risgiau ynglŷn â'i weithgareddau trwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys:

Asesiad Bwrdd blynnyddol o'n prif risgiau.

Gweithredu fframwaith rheoli risg wedi'i gynllunio i adnabod a rheoli risg o fewn goddefiadau risg, fel y diffinnir gan y Bwrdd.

Y defnydd o reolaethau lliniaru i leihau tebygolrwydd ac effaith risgiau.

Rhaglen gynefino gynhwysfawr i weithwyr newydd a hyfforddiant gorfol i gydweithwyr mewn prif ardaloedd risg.

Cyfarwyddyd ar gael i gydweithwyr trwy gyfres gynhwysfawr o bolisiâu ar gael ar fewnrwyd y Banc Datblygu.

Sganio gorwelion i adnabod newidiadau rheoliadol, deddfwriaethol a chyfrifeg sydd i ddod a risgiau sy'n codi.

Mae pedwar mesur risg:

- Dibwys
- Isel
- Canolig
- Uchel

Methiant I gyflawni Cynllun Corfforaethol y Banc Datblygu ac ymrwymiadau i'r rhanddeiliaid.

Prif categori risg	Strategol
Sail resymegol	Mesur risg cyn rheoli
Mae'r Banc wedi mynd trwy gyfnod o dwf cyflym, ac effaith dymor hir Covid-19 ar arferion gwaith, ochr yn ochr ag amgylchedd cymdeithasol wleidyddol ac economaidd cythryblus, yn cyflwyno heriau i gyflawni targedau ymestynnol yn barhaol.	Uchel
Lliniariadau	Mesur risg ôl-reoli
Mae cyflawni achos busnes y Grŵp yn dibynnu ar fodel llywodraethiant cadarn ag amcanion wedi'u diffinio'n eglur, wedi'i gefnogi gan gyfres gynhwysfawr o wybodaeth reoli. Mae aelodau bwrdd a'n rhanddeiliaid yn derbyn diweddarriadau perfformiad rheolaidd mewn perthynas â busnes craidd yn ogystal â gwaith prosiect ac mae adolygiad rheolaidd o'n Prif Risgiau. Rydym yn gweithio'n agos â Thîm Partneriaeth Llywodraeth Cymru, adrannau eraill o Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill ar gyflawni'r cynllun presennol a chynlluniau cronfeydd newydd.	Isel




Methiant i sicrhau cyllid neu gwmpas cyllideb ar gael yn barhaol o ran math neu ddigonolrwydd	
Prif categori risg	Cyllid
Sail resymegol	Mesur risg cyn rheoli
Mae parhad tymor hir y Banc Datblygu i raddau helaeth yn dibynnu ar barodrwydd parhaol Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid i'w fuddsoddi. Mae newidiadau i ddosbarthiad ONS y Banc Datblygu yn gofyn am newid cyffredinol i'r ffordd mae cyllidebau'n cael eu hadeiladu, eu cytuno, a'u rheoli, gan ofyn am ymgysylltu agosach â chydweithwyr Llywodraeth Cymru yn y Timau Partneriaeth a Chyllid.	Uchel
Lliniariadau	Mesur risg ôl-reoli
Rydym yn tynnu ar ein profiad ein hunain a phrofiad ein cwsmeriaid i adnabod bylchau mewn darpariaeth cyllid sector preifat ac yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynigion cyllid arloesol i fynd i'r adael â methiant marchnad, megis â'r Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd a lansiwyd yn ddiweddar.	Cymedrol
Mae cynnig dystiolaeth barhaol o gyflawni allbynnau cronfeydd yn allweddol i'n hygrededd fel sianel gyflawni Iwyddiannus ar gyfer cynlluniau cymorth busnes Llywodraeth Cymru a busnes rheoli cronfeydd proffesiynol. Yn unol â hynny, rydym yn olrhain perfformiad cronfeydd yn agos a chyflawniad y prif ddangosyddion perfformiad sy'n gysylltiedig â nhw.	
Rydym yn parhau i ddatblygu cyfleoedd cyllido newydd lle rydym yn adnabod bod methiant marchnad fel rhan o'n strategaeth i gyflawni rhaglen dreiglol o gronfeydd.	



Methiant i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiolints

Prif categori risg	Cydymffuriaeth	
Sail resymegol	Mesur risg cyn rheoli	
Mae'r Banc Datblygu yn parhau i weithredu mewn amgylchedd cyfreithiol a rheoleiddiol cymhleth sy'n newid yn barhaus, sy'n rhychwantu'r sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae'r baich rheoleiddiol cynyddol hwn yn agor y Banc i risg gynyddol o ddiffyg cydymffurfio.	Uchel	
Lliniariadau	Mesur risg ôl-reoli	
Mae gennym gyfres gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau manwl i gyfeirio llywodraethiant wedi'u cefnogi gan amrediad amrywiol o hyfforddiant gorfodol i bob cydweithiwr. Rydym yn ymgymryd â diwydrwydd dyledus cynefino cwsmeriaid newydd yn gadarn, yn ogystal â diwydrwydd dyledus cwsmeriaid presennol, a gweithdrefn adrodd am weithgaredd amheus. Mae'r Tîm Cydymffuriaeth yn ymgymryd â gweithgaredd sampl ffeiliau, ac adroddir eu canlyniadau i uwch reolwyr. Mae ein harchwilwyr mewnol annibynnol yn darparu sicrwydd ar gynllun ac effeithiolrwydd rheolaethau mewnol ar draws y Grŵp, gan adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Maen nhw wedi cyflawni'r cynllun archwilio mewnol ac wedi adolygu fframwaith rheoli risg Grŵp. Cafodd barn "Sicrwydd Rhesymol" ei ddarparu.	Isel	



Methiant i ddeall neu addasu i anghenion ein cwsmeriaid, a'r risg o ganlyniadau gwael a niwed i'r cwsmer	
Prif categori risg	Ymddygiad
Sail resymegol	Mesur risg cyn rheoli
Mae cwsmeriaid wrth galon ein model busnes, ac yn sylfaenol i'n strategaeth fel cyllidwr bwlch. Byddai methu â deall ac addasu i'w hanghenion yn achosi niwed arwyddocaol, sy'n debygol o ddenu sylw rheoleiddwyr a bygwth gweithrediad tymor hir y Banc.	Uchel
Lliniariadau	Mesur risg ôl-reoli
Mae'r Banc Datblygu yn gweithredu'n eglur ac yn effeithiol i gynnal safonau manwl ymddygiad proffesiynol mae'n disgwyl o'i gydweithwyr. Galluogir hyn trwy: <ul style="list-style-type: none"> - Ymgysylltu rhagweithiol â'n marchnadoedd a rhanddeiliaid targed trwy amrywiaeth o sianeli. - Monitro bodlonrwydd cwsmeriaid trwy arolygon ac adborth. - Monitro cwynion. - Dilyniant cynhwysfawr o hyfforddiant staff. 	Cymedrol




Methiant i ateb amcanion perfformiad cronfa	
Prif categori risg	Mandad Buddsoddi
Sail resymegol	Mesur risg cyn rheoli
Mae effaith dymor hir Covid-19 a'r amgylchedd gymdeithasol wleidyddol ac economaidd yn debygol o effeithio ar ein cwsmeriaid, gan ei gwneud yn anos i ad-dalu benthyciadau. Canlyniad hyn fydd effaith andwyol ar berfformiad cronfa.	Uchel
Lliniariadau	Mesur risg ôl-reoli
Rydym yn parhau i asesu effaith yr amgylchedd cymdeithasol-wleidyddol ac economaidd ar ein portffolios benthyg ac ecwiti, ac yn adolygu datblygiadau fesul achos fel rhan o'n gweithgaredd monitro portffolio. Bydd hyn yn ffurio perfformiad cyffredinol yn erbyn targedau cronfa, sy'n cael eu cadw o dan adolygiad ac yn cael eu hailfodelu fel y bo'n briodol. Rydym yn deall yn yr amserau ansicr hyn bod cyllid ar gael gan y Banc Datblygu yn bwysicach nac erioed. Felly, rydym yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r cyllid sydd ar gael i fusnesau Cymru. Rydym wedi cryfhau ein Tîm Risg Portffolio gan rag-weld rhagor o fusnesau yn profi straen neu drallod oherwydd yr hinsawdd economaidd heriol. Mae'r Tîm Risg Portffolio yn gweithio'n agos gyda busnesau i ddarparu pecynnau cymorth wedi'u teilwra, megis gwirthodiad, lle bynnag y bo'n bosibl.	Isel

Methiant i wneud y mwyaf o wytnwch gweithrediadol, llywodraethiant data ac effeithiolrwydd mewn rheoli newidiadau

Prif categori risg	Gweithrediadol
Sail resymegol	Mesur risg cyn rheoli
Mae gwytnwch gweithrediadol yn parhau'n brif risg i gwmnïau ar draws y diwydiant gwasanaethau ariannol. Mae'n parhau i fod yng nghanol ffocws yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, hefyd. Wrth i'r Banc Datblygu barhau i dyfu a newid, a phrosesau, pobl a thechnoleg newydd, mae pwysigrwydd llywodraethiant data cryf yn cynyddu.	Uchel
Mae diogelwch a gwytnwch wedi'u sefydlu trwy'r defnydd cynyddol o wasanaethau Cwmwl ar gyfer ein hystâd a chymwysiadau TG. Yn ogystal, mae cynlluniau Parhad Busnes mewn grym, ac rydym yn rhedeg ymarferion senarios digwyddiadau. Mae Swyddfa Reoli Proiect (PMO) yn ei lle i ddarparu arolygiaeth a llywodraethiant i newid strategol. Mae Swyddfa Reoli Newid (CMO) wedi cael ei sefydlu i ddarparu arolygiaeth a her o'r agenda newid. Mae polisiau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar gael i'r holl gydweithwyr ar ein mewnrwyd. Mae ein tîm Cydymffuriaeth yn ymgymryd ag adolygiadau ffeil rheolaidd i sicrhau ymagwedd gyson. Mae canlyniadau'n cael eu rhannu ag uwch reolwyr ac mae gan staff dargedau o ansawdd wedi'u sefydlu yn eu hamcanion perfformiad blynnyddol.	Cymedrol



Rheoli newid diwylliannol a methiant i reciwtio a chadw cydweithwyr â'r sgiliau a'r profiad priodol	
Prif categori risg	Gweithrediadol
Sail resymegol	Mesur risg cyn rheoli
Mae ein pobl yn allweddol i'n llwyddiant. Mae newidiadau ôl-bandemig i arferion cyflogaeth wedi rhoi dewis helaethach i ymgeiswyr, ac mae'n tanlinellu pam ei bod yn hanfodol i'r Banc Datblygu gynnig cynnig deniadol i'n cydweithwyr ac i ddenu a chadw gweithwyr o ansawdd uchel.	Uchel
Lliniariadau	Mesur risg ôl-reoli
Mae'r Grŵp yn gweithredu proses arfarnu perfformiad i sicrhau bod perfformiad cryf yn cael ei gydnabod a bod cydweithwyr wedi'u hysgogi ac yn gymwys yn eu rolau. Mae cyflogau wedi'u meincnodi yn erbyn normau marchnad ac mae lefelau trosiant staff yn cael eu monitro gan uwch reolwyr a'u hadrodd i'r Bwrdd ddwywaith y flwyddyn. Mae'r Grŵp yn annog datblygiad staff, ac mae amrediad o opsiynau hyfforddiant ar gael. Mae cynllun olyniaeth ar waith ar gyfer swyddi allweddol.	Low



Bod yn agored i seibrdroseddu, toriadau diogelwch data a'r risg o wytnwch TG gwael

Prif categori risg	Gweithrediadol
Sail resymegol	Mesur risg cyn rheoli
Mae tirwedd y bygythiad seibr yn parhau i esblygu trwy aflonyddwch gwleidyddol parhaol, arwyneb ymosodiad seibr cynyddol (oherwydd dibyniaeth gynyddol ar dechnoleg) a phroffidioldeb cynyddol o seibrdroseddu a galluoedd gweithredwyr bygythiadau. Mae'r risg hon yn estyn ymhellach nac atal ymosodiad seibr yn unig, i wytnwch systemau TG yn fwy cyffredinol.	Uchel
Lliniariadau	Mesur risg ôl-reoli
Mae ein hystâd TG yn cael ei hamddiffyn gan amrediad o fesurau gan gynnwys platfform diogelwch seibr wedi'i reoli sy'n arwain y diwydiant sy'n darparu rheolaeth bregusrwydd awtomataidd, cwmwl a waliau Tân lleol, amgryptio data, haenau lluosog o amddiffyniad gwrthfeirws, hidlo cynnwys rhyngrwyd a threfniadau cefnogi. Mae cymorth TG yn cael ei allanoli i amrediad o gyflenwyr trydydd parti arbenigol, pob un ohonynt yn ddarostyngedig i Gytundebau lefel Gwasanaeth sy'n orfodol trwy contract. Cyflawnir Profion Treiddio yn flynyddol neu ar unrhyw adeg o newid arwyddocaol. Ceisir cyngor trydydd parti arbenigol lle'n briodol. Manylir ar weithdrefnau TG yn ein Polisi Dioglewch Gwybodaeth. Cyflawnir hyfforddiant diogelwch ac ymwybyddiaeth o seibr yn barhaus ac mae'n orfodol ar draws y Grŵp. Mae gennym hefyd yr achrediad llywodraethiant Cyber Essentials Plus ac ardystiad IASME.	Cymedrol

Methiant i reoli cyfraniad darparwyr trydydd parti i gyflawni'r Cynllun Datblygu Banc Corfforaethol yn llwyddiannus	
Prif categori risg	Rhyngwyneb
Sail resymegol	Mesur risg cyn rheoli
Mae hyn yn parhau'n risg oherwydd y ddibyniaeth ar ddarparwyr gwasanaeth wedi'u rheoli, a chyflenwyr trydydd parti, ac yn enwedig oherwydd presenoldeb cyflenwyr risg allanol "Dwys" yn y gofod TG.	Uchel
Lliniariadau	Mesur risg ôl-reoli
<p>Mae gan y Grŵp staff caffael a Gwasanaethau TG mewnol arbenigol, â mynediad at gyngor cyfreithiol allanol ac ymgynghoriaeth yn ôl y gofyn.</p> <p>Mae polisiau a gweithdrefnau mewnol yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd i sicrhau bod gofynion rheoleiddiol yn cael eu bodloni.</p> <p>Rydym yn ymgymryd â diwydrwydd dyledus ar drydydd partïon newydd a phresennol allanol, a'u perfformiad yn erbyn gofynion cytundebol a Chytundebau Lefel Gwasanaeth.</p> <p>Mae timau prosiect yn cael eu creu wrth ymgymryd â chaffaeliadau mawr ac yn cael eu cynorthwyo gan gyngor cyfreithiol arbenigol yn ôl yr angen. Mae'r ymagwedd hon yn sicrhau bod mewnbwn yr holl gydweithwyr perthnasol yn cael ei sicrhau, a bod ystyriaeth fanwl yn cael ei rhoi i natur y nwyddau a'r gwasanaethau sy'n cael eu prynu, y telerau cytundebol sy'n gymwys ac unrhyw risgiau sy'n berthynol i'r cyflenwyr.</p>	Isel



Methu â chael digon o ffocws ar agweddau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethiant (ESG) ein hagweddau

Prif categori risg	O ran enw da
Sail resymegol	Mesur risg cyn rheoli
Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethiant, ac yn dangos ei fod wedi sefydlu â gweithrediadau busnes, yn parhau i fod yn flaenoriaeth i fusnesau ledled y DU. Mae ein rôl yn economi Cymru, a gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, yn golygu na allwn fod yn hunanfodlon yn y maes hwn.	Uchel
Lliniariadau	Mesur risg ôl-reoli
Mae'r Banc Datblygu wedi ymrwymo i reoli ei weithgareddau a gweithrediadau busnes mewn dull cynaliadwy. Mae'r Grŵp yn fusnes cyfrifol yn ogystal ag yn fuddsoddwr ag effaith ar gyfer creu neu ddiogelu miloedd o swyddi. Rydym yn cydnabod bod ystyriaethau ESG yn mynd y tu hwnt i'n mesurau effaith sefydledig ac mae ystyriaethau ESG wedi'u hadeiladu i mewn i bolisiâu, gweithdrefnau a Phrif Ddangosyddion Risg. Mae trefniadau ac agweddau perfformiad amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant cynigwyr yn cael eu hystyried wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau ac wrth arfarnu cyfleoedd cyllido newydd. Mae adolygiad blynnyddol cydymffurfiaeth Grŵp â Chod Llywodraethiant Corfforaethol y DU yn cael ei adolygu gan y Bwrdd ac mae'n adnabod ardaloedd i'w gwella.	Isel

Risgiau sy'n codi

Yn ogystal â'n prif risgiau, rydym hefyd yn monitro risgiau sy'n codi ac yn esblygu sydd â'r potensial o gael effaith arwyddocaol ar weithgareddau a pherfformiad y Grŵp.

Risg sy'n codi	Prif Risgiau Perthynol
Amgylchedd macroeconomaidd	<ul style="list-style-type: none">Methiant i gyflawni Cynllun Corfforaethol Grŵp ac ymrwymiadau i'n rhanddeiliaid.Methiant i sicrhau cyllid ar gael yn barhaol neu gwmpas cyllideb o ran math neu ddigonolrwydd.Methiant i ateb amcanion perfformiad cronfeydd
Effaith newid hinsawdd	<ul style="list-style-type: none">Methiant i ddeall neu addasu i anghenion ein cwsmeriaid, a'r risg o ganlyniadau gwael a niwed i gwsmeriaid.Methiant i gael ffocws digonal ar agweddau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethiant ein gweithgareddau.
Amgylchedd rheoleiddiol sy'n newid	<ul style="list-style-type: none">Methiant i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.Methiant i ddeall neu addasu i anghenion ein cwsmeriaid, a'r risg o ganlyniadau gwael a niwed i gwsmeriaid.
Twyll a throseddu ariannol	<ul style="list-style-type: none">Methiant i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.Bod yn agored i seibrdroseddu, toriadau diogelwch data a'r risg o wytnwch TG gwael
Defnydd cynyddol o ddeallusrwydd artiffisial (AI)	<ul style="list-style-type: none">Methiant i wneud y mwyaf o wytnwch gweithrediadol, llywodraethiant data ac effeithiolrwydd mewn rheoli newid.Bod yn agored i seibrdroseddu, toriadau diogelwch data a'r risg o wytnwch TG gwael.

Sail resymegol a lliniariadau

Mae busnesau a defnyddwyr yn parhau i wynebu amgylchedd economaidd o chwyddiant uchel, costau cynyddol a chyfraddau llog cynyddol. Bydd hyn yn parhau i gael effaith gynyddol ar fenthyciad a phortffolio buddsoddi'r Banc ar ffurf darparu ar gyfer dyledion drwg a gwerth teg buddsoddiadau ecwiti.

Mae'r risg hon yn cael ei lliniaru gan ein hymagwedd ragweithiol at reoli portffolio a'n parodrwydd i fabwysiadu safiad pragmataidd ac amyneddgar â'n cwsmeriaid, er enghraift trwy ymrthod mewn perthynas ag ad-daliadau benthyciadau lle'n briodol.

Mae'r risgiau corfforol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd ar ffurf, er enghraift, digwyddiadau perthynol i dywydd yn parhau i beri bygythiad i fusnesau, fel mae datblygiad technoleg sy'n tarfu wrth i'r DU drawsnewid i economi garbon isel.

Mae Gwaith y Banc i sefydlu risg newid hinsawdd yn ei fframwaith rheoli risg yn parhau, naill ai fel prif ystyriaeth pan gaiff ei gyflwyno â cheisiadau cyllid newydd neu fel rhan o'n hymagwedd ragweithiol at reoli portffolio.

Mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn parhau i esblygu'r dirwedd reolaethol. Mae hyn yn cynnwys paratoadau ar gyfer cyflwyno Egwyddor ar gyfer Busnes 12; Mae'r Ddyletswydd Defnyddwyr parthed cwsmeriaid manwerthu wedi'u datblygu'n dda. Mae'r FCA hefyd wedi cyhoeddi canllawiau newydd mewn perthynas â newid hinsawdd⁴ ac amrywiaeth a chynhwysiad⁵.

Rydym yn parhau i fonitro newidiadau rheoleiddiol eraill trwy ein gweithgaredd sganio gorwelion.

Mae twyll a throseddu ariannol yn parhau i beri risg i fusnesau a defnyddwyr ledled y DU, â thwyll yn cynrychioli 41 y cant o'r holl droseddu yn erbyn unigolion yng Nghymru a Lloegr. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i gyflwyno mesurau a gynllunnir i leihau effaith twyll ar economi'r DU.

Rydym yn parhau i fonitro'r dirwedd ddeddfwriaethol a rheoleiddiol yn y maes hwn (yn nodedig cynnydd y Bil Troseddu Economaidd a Thryloywder Corfforaethol), yn ogystal ag asesu ein risgiau a rheolaethau adrannol ein hunain yn erbyn allbwn twyll a throseddu ariannol gan reoleiddwyr a chyrrf diwydiant.

Mae deallusrwydd artiffisial yn parhau i dyfu mewn poblogrwydd, yn enwedig â lansiad cyhoeddus platform Chat GPT yn 2022. Er gwaethaf buddion ymddangosiadol y dechnoleg hon, mae pryderon yn parhau i gael eu codi am ei heffeithiolrwydd, a sut y gellir ei defnyddio i weithredu ymosodiadau seibr a pheirianneg cymdeithasol soffistigedig yn erbyn cydweithwyr, busnesau, a chwsmeriaid.

Er nad oes bwriadau ar hyn o bryd i ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial yn ein gweithrediadau o ddydd i ddydd, rydym yn parhau i fonitro ei ddefnydd a'i effaith mewn manau eraill yn y diwydiant, yn ogystal â chan ein cyflenwyr trydydd parti.

⁴ Gweler: <https://www.fca.org.uk/news/press-releases/fca-proposes-new-rules-tackle-greenwashing> a <https://www.fca.org.uk/firms/climate-change-sustainable-finance/reporting-requirements>.

⁵ Gweler: <https://www.fca.org.uk/publications/multi-firm-reviews/understanding-approaches-diversity-inclusion-financial-services>.

Ceir sicrwydd yn y Banc Datblygu trwy ddefnyddio'r model "tair llinell o amddiffyn", a Chynllun Sicrwydd Ar y Cyd ag ef.

Fframwaith sicrwydd

Model llinellau amddiffyn

Llinell gyntaf amddiffyniad (1LOD)

Mae llinell gyntaf yr amddiffyniad yn cynnwys timau ledled y Grŵp, a cheir sicrwydd â chymorth polisiau a gweithdrefnau a ddiffinnir gan unedau busnes unigol. Mae'r rhain yn cael eu hategu gan ardystiadau rheolaidd gan berchnogion risgau, gan sicrhau bod cynnwys polisiau a gweithdrefnau sy'n parhau'n gyfredol ac yn mynd i'r afael â risgau dan sylw.

Mae cofrestrau risg yn cael eu cynnal trwy'r Grŵp, ac yn cipio risgau a rheolaethau presennol ac sy'n codi, a pherchnogion wedi'u dynodi i bob un. Mae hyn yn ysgogi perchnogaeth ac atebolrwydd, ac yn darparu sicrwydd bod risgau yn cael eu rheoli'n briodol.

Mae cynhyrchu gwybodaeth ac adrodd rheoli rheolaidd, gweithgaredd sicrwydd ansawdd, a chwblhau hyfforddiant rheolaidd gan yr holl staff yn ategu gwaith yr 1LOD, ac mae'n sicrhau bod rheolaethau yn cael eu gweithredu, a risgau'n cael eu hymateb iddynt, fel y disgwylir.

Ail linell amddiffyniad (2LOD)

Mae'r ail linell amddiffyniad yn darparu sicrwydd trwy ei arolygiaeth o weithgareddau 1LOD, hynny yw trwy gynnal a hwyluso cwblhau cofrestrau risg adrannol; cyflawni gweithgaredd sicrwydd ansawdd ychwanegol, annibynnol; cwblhau asesiadau risg; a darparu arbenigedd cynnwys mewn meysydd megis troseddu ariannol, diogelu data a chaffael.

Mae gweithgaredd sicrwydd ansawdd yn y 2LOD yn cael ei gymhwysu ar ymagwedd seiliedig ar risg ac mae'n monitro cydymffuriaeth o weithgaredd perthynol i fuddsoddi i bolisiau a gweithdrefnau sefydledig. Mae canfyddiadau manwl yn cael eu hadrodd i'r 1LOD yn fisol, ac mae canfyddiadau ailadroddol yn destun dadansoddiad achos gwreiddiol a gyflawnir mewn cysylltiad â'r 1LOD.

Mae asesiadau risg 2LOD yn cael eu diweddu yn seiliedig ar ganlyniadau sicrwydd ansawdd ac mewn ymateb i risgau sy'n codi ac allbwn rheoleiddiol a deddfwriaethol. Fel y cyfryw, mae'r 2LOD yn gyfrifol am adolygiadau plymio dwfn wedi'u ffocysu a phrofi rheolaethau, sy'n sicrhau bod risgau newydd a rhai sy'n codi yn cael eu cipio ac yn cael ymateb digonol.

Mae is-fyrddau'r Banc Datblygu a FW Capital hefyd yn darparu her ac arolygiaeth ar faterion busnes yn eu meysydd priodol.



Trydedd Ilinell amddiffyn (3LOD)

Mae sicrhau ein fframwaith rheoli risg yn annibynnol yn cael ei gyflawni yn nhrydedd llinell yr amddiffyn gan archwiliwyr mewnol annibynnol.

Ar ddechrau pob blwyddyn ariannol cytunir ar gwmpas gwaith â'r archwiliwyr mewnol, gan fanylu ar y meysydd busnes i'w hadolygu ac amseru a hyd pob adolygiad. Mae argymhellion unigol yn cael eu mesur fel cynghorol, isel, canolig, neu uchel, gan ddibynnu ar y risg ganfyddedig, ei thebygolrwydd ac effaith. Gan ddibynnu ar nifer a mesur argymhellion unigol, dynodir mesur cyffredinol i bob aseiniad archwiliad mewnol o, sicrwydd lleiaf, sicrwydd rhannol, sicrwydd rhesymol neu sicrwydd sylweddol. Mae rheolwyr yn darparu ymatebion i argymhellion a therfyn amser ar gyfer cwblhau'r gwaith angenrheidiol.

Mae sicrwydd yn y 3LOD yn deillio trwy adolygiad o'r argymhellion sy'n codi o adroddiadau archwiliad mewnol blaenorol, i adnabod cynnydd tuag at weithredu'r argymhellion. Mae'r rhain yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r ARC.

Mae ein harchwiliwyr allanol yn darparu her gadarn i'r prif ddyfarniadau a wneir ym mharatoad a systemau rheoli risg y datganiadau ariannol ac yn adolygu'r rheolaeth fewnol a wneir ym mharatoi'r datganiadau ariannol ac mae'n adolygu'r systemau rheoli mewnol rheoli risg at ddibenion y datganiadau ariannol. Mae argymhellion i fynd i'r afael â meysydd pryder yn cael eu gwneud i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ac yn cael eu dilyn mewn archwiliadau dilynol.

Mae gweithgareddau'r Banc Datblygu hefyd yn cael eu harchwilio neu eu profi gan gyrff allanol annibynnol eraill. Mae hyn yn cynnwys archwiliadau gan y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewopreaidd (EFAT) a Swyddfa Cyllid Ewopreaidd Cymru (WEFO). Mae ein hachrediad Cyber Essentials Plus hefyd yn destun asesiad allanol.

Llinell amddiffyn gyntaf

Rheolaeth o ddydd i ddydd a pherchnogaeth risg


Ail llinell amddiffyn

Polisiau risg, methodolegau a throsolwg a her annibynnol

Trydydd llinell amddiffyn

Sicrwydd annibynnol

Y Bwrdd





Adran dau

Llywodraethu


Llywodraethu

Rydym wedi ymrwymo i lywodraethu corfforaethol da, sy'n hyrwyddo buddiannau ein rhanddeiliaid, yn cryfhau atebolrwydd, ac yn hwyluso perfformiad sefydliadol.

Yn yr adran hon o'r adroddiad blynnyddol, rydym yn esbonio sut mae'r fframwaith Llywodraethu a Rheoli Risg yn cefnogi cyflawniad amcanion y Grŵp.

Rydym yn datgelu sut y caiff y Banc Datblygu ei reoli er budd ei gyfranddaliwr a rhanddeiliaid eraill, rôl a chyfansoddiad y Bwrdd a'i amrywiol Bwyllgorau a'r risgiau y mae'r Grŵp yn agored iddynt a sut y cantic eu rheoli.

Mae'r prosesau llywodraethu hyn hefyd yn sicrhau bod adroddiad blynnyddol a datganiadau ariannol y Banc Datblygu, o'u cymryd yn eu cyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys, yn ddealladwy, ac yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol i randdeiliaid asesu model busnes, strategaeth a pherfformiad y Grŵp. Mae'r adran hon yn cynnwys neu'n cyfeirio at yr adroddiadau a'r datganiadau canlynol:



Adroddiad/Datganiad	Diben
Adroddiad y cyfarwyddwyr	Proffiliau aelodau'r Bwrdd a'u profiad ac mae'n cynnwys datgeliadau perfformiad statudol amrywiol sy'n ofynnol dan Adran 417 Deddf Cwmnïau 2006. Mae hefyd yn rhestru cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr wrth baratoi'r adroddiad blynnyddol a datganiadau ariannol.
Datganiad llywodraethu corfforaethol	Yn datgelu fframwaith llywodraethu'r Grŵp, rôl a chyfrifoldeb Bwrdd y Cyfarwyddwyr ac yn cynnwys adroddiadau blynnyddol tri Phwyllgor y Bwrdd: Enwebiadau, Archwilio a Risg a Chydubyddiaeth. Mae hefyd yn cofnodi presenoldeb y Bwrdd/Pwyllgor a gwybodaeth weithredol arall.
Rheoli risg a rheolaeth fewnol (Datganiad wedi ei gynnwys yn yr adroddiad strategol)	Mae'r adran hon yn manylu ar y risgiau y mae'r Banc Datblygu yn agored iddynt a sut y cānt eu lliniaru. Mae'n disgrifio rolau'r Bwrdd, rheolwyr a staff, y fframwaith rheoli risg, diwylliant risg a goddefgarwch, prif risgiau, a'r fframwaith sicrwydd risg.

Adroddiad y cyfarwyddwyr

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu Hadroddiad Blynnyddol ynghyd â'r datganiadau ariannol archwiliedig ac adroddiad yr Archwilydd annibynnol ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

Mae'r wybodaeth ganlynol sy'n ofynnol gan Ddeddf Cwmniâu 2006 i'w chael yn adrannau canlynol yr adroddiad blynnyddol:

1. Mae manylion amcanion y Grŵp, datblygiadau i'r dyfodol a digwyddiadau arwyddocaol ers dyddiad y fantolen wedi'u cynnwys yn yr adroddiad strategol;
2. Mae datgeliadau rheoli risg y Grŵp wedi'u nodi yn yr adroddiad strategol ar dudalennau – 86–103;
3. Rhoddir gwybodaeth am y defnydd o offerynnau ariannol gan y Grŵp yn Nodyn 19 i'r datganiadau ariannol;
4. Traffodir strwythur cyfalaf y Grŵp yn Nodyn 20 i'r datganiadau ariannol.

Cyflawnir prif weithgaredd y Grŵp yng Nghymru a Gogledd-ddwyrain a Gogledd Orllewin Lloegr.

Difidendau

Nid yw'r Cyfarwyddwyr yn argymhell talu difidend (2022: £dim).

Ein Bwrdd

Mae gan ein Bwrdd rôl hanfodol i'w chwarae i sicrhau ein bod yn cyflawni ein strategaeth a'r amcanion strategol a nodir yn llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, gwasanaethodd yr unigolion canlynol fel cyfarwyddwyr. Ni phenodwyd unrhyw gyfarwyddwyr newydd yn ystod y flwyddyn, ac ymddiswyddodd Huw Morgan fel cyfarwyddwr anweithredol o'r Bwrdd ar 17 Tachwedd 2022. Mae'r rheolau ar gyfer penodi a diswyddo cyfarwyddwyr wedi'u nodi yn y datganiad llywodraethu corfforaethol a geir ar dudalennau 124-125.

Enw	Swydd	Dyddiad apwyntiad cychwynnol	Apwyntiad cychwynnol yn dod i ben	Dyddiad dod i rym yr ailbenodiad	Ailbenodiad yn dod i ben
Gareth Bullock	Cadeirydd Anweithredol Annibynnol	Medi 2015	Medi 2018	Medi 2021	Medi 2024
Giles Thorley	Prif Weithredwr	Ebrill 2016	n/a	n/a	n/a
Iraj Amiri	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol	Medi 2016	Awst 2019	Medi 2019	Awst 2025
Carol Bell	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol	Hydref 2014	Medi 2017	Medi 2020	Medi 2023
Rhys Jones	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol	Mawrth 2020	Chwefror 2023	Mawrth 2023	Chwefror 2026
Roger Jeynes	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol, wedi'i benodi'n Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol 18 Tachwedd 2022	Mawrth 2016	Hydref 2019	Tachwedd 2019	Hydref 2025
David Staziker	Prif Swyddog Ariannol	Ebrill 2018	n/a	n/a	n/a
Robert Lamb	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol	Ebrill 2021	Ebrill 2024	n/a	n/a
Kate Methuen-Ley	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol	Ebrill 2021	Ebrill 2024	n/a	n/a
Dianne Walker	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol	Mawrth 2022	Mawrth 2025	n/a	n/a
Iestyn Evans	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol	Mawrth 2022	Mawrth 2025	n/a	n/a

* Ymddiswyddodd Huw Morgan fel cyfarwyddwr ar 17 Tachwedd 2022 ar ôl gwasanaethu ei dymor o 9 mlynedd

Ein cyfarwyddwyr

Gareth Bullock

Cadeirydd

Gareth yw Cadeirydd Bwrdd Banc Datblygu Cymru ac mae ganddo dros 45 mlynedd o brofiad yn y diwydiant gwasanaethau ariannol.

Ymddeolodd yn 2010 o Fwrdd Standard Chartered ccc lle bu'n gyfrifol am Affrica, y Dwyrain Canol, Ewrop a'r Americas yn ogystal â chadeirio Rheoli Risg ac Asedau Arbennig. Mae ganddo hefyd brofiad sylwedol o fyrrdau diwydiannol a manwerthu yn y DU ac yn China.

Mae hefyd wedi dal nifer o swyddi bwrdd, ymhliith pethau eraill, Informa PLC, Tesco PLC, Tesco Personal Financial Group Ltd, Spirax-Sarco Engineering PLC, Fleming Family & Partners Ltd, Cymdeithas Bancwyr Prydain a Global Market Group Ltd (China). Roedd hefyd yn Ymddiriedolwr y Cyngor Prydeinig o 2012 i 2018.

Mae ganddo brofiad swyddogaethol a rhyngwladol eang, ar ôl bod yn Bennaeth Bancio Corfforaethol yn Hong Kong, Prif Swyddog Gweithredol Affrica, Prif Swyddog Gwybodaeth y Grŵp a Phennaeth Strategaeth.





Iraj Amiri

Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae Iraj yn arloeswr yn y maes llywodraethu a sicrwydd, gan gyfuno gwybodaeth fanwl ac awdurdodol o'r pwnc â'i gymhwysiad ymarferol. Mae'n arbenigwr byd-eang cydnabyddedig ac yn awdurdod ar archwilio mewnol a sicrwydd. Am flynyddoedd lawer, bu'n siaradwr rheolaidd mewn cynadleddau archwilio mewnol ledled y byd.

Drwy gydol ei yrfa mae wedi gweithio'n agos gyda sefydliadau bancio a chwmnïau buddsoddi mawr ym Mhrydain ac Ewrop. Treuliodd dros ddegawd yn arwain adran archwilio mewnol FTSE 100 Company Schroders ccc. Roedd Iraj hefyd yn bennaeth tîm archwilio mewnol Ymddiriedolaeth Wellcome – gan oruchwyllo rheolaeth dros £18bn mewn buddsoddiadau. Yn gymrawd o'r ICAEW, datblygodd y llinell gwasaeth risg menter ar gyfer Deloitte, lle'r oedd yn uwch bartner, gan fynd â'r uned o'i dechreuadau cynnar i dîm o dros 600 o weithlu. Mae gan Iraj brofiad helaeth o weithio ar lefel bwrdd ac ymddiriedolwyr.

Mae'n gyn-ymddiriedolwr yr Ymddiriedolaeth Cynillion Cyflogaeth Cenedlaethol (NEST), ac yn gyfarwyddwr anweithredol i Aon UK Limited a Coventry Building Society. Ar gyfer y ddua fusnes mae'n cadeirio eu Pwyllgor Archwilio ac mae'n aelod o'u Pwyllgor Risg. Mae hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol yn Eurocell ccc.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad ym maes archwilio a sicrwydd, mae Iraj yn bennaeth ar Bwyllgor Archwilio a Risg Banc Datblygu Cymru.

Giles Thorley

Prif Weithredwr

Cyn ymuno â Banc Datblygu Cymru, roedd Giles yn bartner yn y cwmni ecwiti preifat TDR Capital LLP yn canolbwytio ar gychwyn bargeinion. Cyn hyn treuliodd naw mlynedd gyda Punch Taverns ccc - y flwyddyn gyntaf fel cadeirydd, ac yna fel prif weithredwr yn dilyn IPO y busnes.

Mae wedi dal rolau cyfarwyddwr anweithredol gydag Esporta, Ducati SpA, Tragus Holdings, TUI Travel ccc, Incopro Ltd, D&D London a Matthew Clark Wholesale Ltd. Giles yw Cadeirydd ZipWorld ccc ar hyn o bryd. Mae hefyd yn gweithredu fel ymgynghorydd/buddsoddwr angel ar nifer o fusnesau newydd; ac mae wedi bod yn ymddiriedolwr hir-wasanaeth gyda Phrosiect Hwylia Rona.

Mae gan Giles radd yn y gyfraith o Brifysgol Llundain a chymhwysodd fel bargyfreithiwr yn 1990.



Roger Jeynes

Uwch Gyfarwyddwr Anweithredol

Mae Roger yn gyfarwyddwr anweithredol annibynnol ar gyfer Banc Datblygu Cymru ac mae'n aelod o'i Bwyllgor Buddsoddi.

**Ar hyn o bryd mae hefyd yn
gwasanaethu ar fyrrdau Downing
Three VCT ccc a Charborough
Capital Limited ac mae'n
ymddiriedolwr elusen Sefydliad
Lloyd Reason.**

Roedd gyrra gynnar Roger yn cynnwys nifer o uwch rolau technegol, marchnata a rheoli cyffredinol yn IBM, EMC a Pyramid Technology yn y DU, yr Eidal ac UDA. Rhwng 1997 a 2006 roedd yn brif swyddog gweithredu Interregnum ccc, banc masnachwyr technoleg. Yn y rôl hon bu'n rheoli'r broses o leoli cyfalaf buddsoddi sylweddol i amrywiaeth eang o gwmniau cyfnod cynnar a rhai ar restr AIM, a gwasanaethodd ar fyrrdau mwy na dwsin o gwmniau y buddsoddwyd yn dynt a sawl ymddiriedolaeth cyfalaf menter.

Yn raddedig mewn mathemateg o Brifysgol Sheffield ac yn Gymrawd yr RSA, mae Roger yn dal dystysgrif mewn rheoli buddsodiadau gan IIMR, ac roedd yn Athro Ymarfer Rheolaeth ym Mhrifysgol Anglia Ruskin rhwng 2008 a 2017.



David Staziker

Prif Swyddog Ariannol

**Mae David hefyd yn eistedd ar ein
Pwyllgor Buddsoddi ac yn allanol
mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol
Grŵp Pobl ac yn Gadeirydd eu
Pwyllgor Buddsoddi.**

Mae David yn arwain tîm cyllid mewnol Banc Datblygu Cymru. Ymunodd â'r cwmni yn 2002 a daliodd nifer o rolau rheoli yn ochr buddsodiadau'r busnes cyn cael ei benodi'n Brif Swyddog Ariannol yn 2018.

Cyn y Banc Datblygu, bu David yn gweithio yn PricewaterhouseCoopers a Gambit Corporate Finance. Mae gan David radd a PhD mewn mathemateg gymhwysol, mae'n gymrawd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae ganddo hefyd ei gymhwyster cyllid corfforaethol.



Rhys Jones

Cyfarwyddwr Anweithredol

Cyn cychwyn ar SportPursuit yn 2011, bu Rhys yn gweithio yn OC&C Strategy Consultants a'r buddsoddwr ecwiti twf yn yr Unol Daleithiau, Summit Partners.

Mae Rhys yn gyfarwyddwr anweithredol annibynnol ar gyfer Banc Datblygu Cymru, ac ymunodd â'r bwrdd ym mis Mawrth 2020.

Ef yw Swyddog Masnachol SportPursuit, adwerthwr ar-lein sy'n canolbwyntio ar chwaraeon i aelodau yn unig, gyda 9 miliwn o aelodau ledled y DU ac Ewrop.

Yn Gymro Cymraeg, mae gan Rhys radd Meistr mewn Peirianneg dosbarth 1af o Brifysgol Rhydychen.



Carol Bell

Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Buddsoddi

Ers cwblhau ei doethuriaeth yn 2005, mae Carol wedi datblygu ystod o fuddiannau busnes ac elusennol.

Yn ddiwydiannwr ac ariannwr profiadol, dechreuodd Carol ei gyrra yn y diwydiant olew a nwy cyn symud i fyf banco lle daliodd swyddi uwch yn Credit Suisse First Boston, JP Morgan a Chase Manhattan Bank.

Carol yw Llywydd Dros Dro Amgueddfa Genedlaethol Cymru a hi yw'r fenyw gyntaf i wasanaethu ar fwrdd Cymdeithas Bêl-droed Cymru. Mae'n rhannu ei hamser rhwng gwasanaethu ar fyddau corfforaethol ac elusennol yng Nghymru ac yn rhyngwladol ac ymchwil academaidd.

Yn ystod 2019, daeth yn gyfarwyddwr sefydlu Chapter Zero, rhwydwaith i alluogi cyfarwyddwyr anweithredol i ymgysylltu â risg hinsawdd a chyflawni targedau ar gyfer allyriadau carbon Sero Net.



Kate Methuen-Ley

Cyfarwyddwr Anweithredol

Magwyd Kate yn Rhisga ac enillodd BA (Anrh) o Brifysgol Abertawe mewn Ffrangeg a Sbaeneg. Mae ganddi hefyd MSc mewn Marchnata Strategol o Brifysgol Caerdydd.

Mae Kate yn entrepreneur profiadol, yn gynghorydd ac yn ymgynghorydd rheoli busnes. Mae hi'n defnyddio ei sgiliau i gefnogi, mentora ac ychwanegu gwerth at fusnesau trwy gydol eu teithiau sefydlu a chynyddu.

Mae Kate yn gweithio gydag arweinwyr i ganolbwyntio timau ar strategaeth, strwythur, proses, diwylliant a mwy - gan ganiatáu iddynt adeiladu'r sylfeini sydd eu hangen arnynt i dyfu.

Ar ôl gyrfa farchnata lwyddiannus am 15 mlynedd, mewn corfforaethau adnabyddus a busnesau rhanbarthol ar draws amrywiaeth o sectorau, atgyfnerthodd Kate ei phrofiad a'i chariad at her trwy sefydlu'r bartneriaeth menter ar y cyd ar gyfer y manwerthwr stryd fawr o Ddenmarc, Flying Tiger Copenhagen – gan gyflwyno'r brand poblogaidd i'r DU gyda siopau yng Nghymru a Bryste. Ar ôl pum mlynedd, gan lansio wyth cangen wahanol a gyda throsiant o +£5 miliwn, a thros 120 o aelodau tîm - llwyddodd hi a'i phartner busnes i adael y cwmni yn 2018.

Mae gan Kate hefyd brofiad fel aelod o fyrrdau cynghori, a phrofiad NED yn y sector menter gymdeithasol a'r sector masnachol. Mae'n darparu mentora ar gyfer busnesau technoleg newydd yn Sefydliad Alacrity ac yn rheoli Rhaglen Clwstwr Allforio Llywodraeth Cymru ar gyfer Busnesau Technoleg.



Rob Lamb

Cyfarwyddwr Anweithredol


Mae Rob yn entrepreneur digidol ac yn uwch arweinydd profiadol yn y diwydiant buddsoddi bydeang, gydag arbenigedd profedig mewn datblygu busnes a gwneud penderfyniadau buddsoddi hirdymor.

Mae Rob yn gyd-sylfaenydd Hedgehog, yr ap sy'n ei gwneud hi'n hawdd i unigolion fuddsoddi mewn asedau byd go iawn, fel eiddo tiriog masnachol ac ynni adnewyddadwy.

Cyn ei fywyd fel entrepreneur, treuliodd Rob 10 mlynedd yn Partners Group, un o reolwyr asedau mwyaf y byd a oedd yn canolbwyntio ar fuddsoddiadau mewn marchnadoedd preifat. Yn ystod ei gyfnod yn y cwmni, bu Rob yn gweithio yn Llundain, Zurich, San Francisco a Dubai.

**Cyn hynny roedd Rob yn cyfarwyddwr anweithredol yr ymgynghoriaeth buddsoddi effaith gymdeithasol
Expectation State a FairPlay Trading,
cangen fasnachol elusen cydraddoldeb
rhywiol Cymru, Chwarae Teg.**

Yn siaradwr Cymraeg brodorol, mae Rob hefyd wedi graddio o Brifysgol Caerdydd.



Dianne Walker, FCA

Cyfarwyddwr Anweithredol

Wedi'i geni a'i magu yng Ngogledd Cymru, mae gan Dianne fwy na 30 mlynedd o brofiad ym maes cyllid a rolau cynghori bwrdd; mae hi wedi cael gyrfa hir fel cynghorydd dibynadwy i amrywiaeth eang o fusnesau a strwythurau perchnogaeth, o CDPau rhyngwladol, cyrff preifat a chyhoeddus, yn ogystal â busnesau sy'n eiddo i'r gweithwyr a busnesau a reolir gan berchnogion, gan gynnwys busnesau a gefnogir gan ecwiti preifat.

Yn Gymrawd o Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr, ac yn gyfarwyddwr anweithredol arobryn, roedd Dianne yn flaenorol yn rhan o uwch dîm rheoli PricewaterhouseCoopers ym Manceinion, gan roi arweiniad i bortffolio eang o gleientiaid, gyda chyfrifoldeb am Archwilio, Rheoli Risg yn ogystal â Gwasanaethau Trafodion M&A .

Ar hyn o bryd mae Dianne yn cyfuno portffolio o rolau anweithredol y prif fwrdd, ac mae Dianne hefyd yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn Inspired ccc, yn Gadeirydd Pwyllgor Tâl Victorian Plumbing PLC ac yn Uwch Gyfarwyddwr anweithredol Annibynnol Grŵp Scott Bader.

Dianne yw Cadeirydd Bwrdd J&L Elevator Components Ltd, busnes sy'n eiddo i'r gweithwyr yn Llanelwy, Gogledd Cymru. Tan yn ddiweddar, bu hefyd yn aelod anweithredol o Gydbwyllgor Archwilio Heddlu Gogledd Cymru.

Mae gan Dianne radd anrhyydedd deuol dosbarth cyntaf mewn Economeg, Cyfrifeg a Rheolaeth Ariannol o Brifysgol Sheffield. Yn ddiweddar dyfarnwyd Gwobr Cyfarwyddwr Anweithredol y Flwyddyn y Sunday Times iddi ac mae hefyd yn cyfrannu'n rheolaidd at drafodaethau panel ar faterion llywodraethu'r Bwrdd.

Yn ogystal â'i chyfrifoldebau proffesiynol, mae Dianne yn chwarae rhan flaenllaw mewn sawl prosiect gwirfoddol a chymunedol yn Swydd Gaer, lle mae'n byw gyda'i theulu.



Iestyn Evans

Cyfarwyddwr Anweithredol

Arweiniodd ar newidiadau mawr a gwelliannau perfformiad yn ystod ei gyfnod fel Pennaeth Newid Cyllid a Phennaeth Cyllid yn LBG yn ystod y 2010au cynnar.

Mae gan Iestyn hanes cryf o weithio mewn grwpiau ariannol byd-eang ochr yn ochr â Phrif Weithredwyr ac eraill i adeiladu perfformiad o fewn busnesau, gyda'i synnwyr craff o farn a ffocws ar welliant.

Mae gan Iestyn fwy na dau ddegawd o brofiad ym myd cyllid a bancio.

Wedi'i eni yn Nhalgarth, Powys, a'i fagu yng nghymoedd y De, astudiodd Hanes ym Mhrifysgol Aberystwyth cyn cychwyn ar ei yrfa gyda Deloitte ar ddiwedd y 90au.

Mae wedi dal uwch rolau gyda chyflwynwyr gan gynnwys Lloyds Banking Group (LBG), Virgin Money, Omni Partners, Amicus PLC a Monument yn ogystal ag amrywiaeth o rolau ar lefel prif fwrdd, gan gynnwys swyddi prif swyddog cyllid, prif swyddog gweithredu a chyfarwyddwr gweithredol.

Y tu allan i'w rolau bwrdd, mae Iestyn wedi gwirfoddoli ei amser a'i arbenigedd i helpu i godi arian ar gyfer elusennau sy'n cefnogi pobl ag awtistiaeth.



Cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr

Dylid darllen y canlynol ar y cyd â chyfrifoldebau'r archwilydd a nodir yn ei adroddiad ar dudalennau 140-149. Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r adroddiad blynnyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith a rheoliadau perthnasol.

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyfarwyddwyr baratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r Rhiant Gwmni ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr baratoi datganiadau ariannol y Grŵp yn unol â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IASs) yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 a Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRSs) fel y'u cyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo Rhyngwladol.

Mae'r Cyfarwyddwyr hefyd wedi dewis paratoi datganiad ariannol y Rhiant Gwmni yn unol â Safon Adrodd Ariannol 101 Fframwaith Datgelu Is. O dan gyfraith cwmnïau rhaid i'r Cyfarwyddwyr beidio â chymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r Cwmni ac o elw neu golled y Grŵp am y flwyddyn honno.



Wrth baratoi datganiadau ariannol y Grŵp, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr:

- Dewis a chymhwys o polisiau cyfrifydd yn gywir ac yna eu cymhwys o'n gyson;
- Cyflwyno gwybodaeth, gan gynnwys polisiau cyfrifydd, mewn modd sy'n darparu gwybodaeth berthnasol, dibynadwy, cymaradwy a dealladwy;
- Darparu datgeliadau ychwanegol pan fo cydymffurfiaeth â'r gofynion penodol mewn IFRSs yn annigonol i alluogi defnyddwyr i ddeall effaith trafodion penodol, digwyddiadau ac amodau eraill ar sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol y Grŵp; a
- Gwneud asesiad o allu'r Grŵp i barhau fel busnes gweithredol.

Wrth baratoi datganiadau ariannol y Rhiant Cwmni, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr:

- Dewis polisiau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwys o'n gyson;
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol a doeth;
- Datgan a ddilynwyd Safon Adrodd Ariannol 101 Fframwaith Datgelu Llai, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir ac a eglurwyd yn y datganiadau ariannol; a
- Pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd y Cwmni'n parhau mewn busnes.

Cyfrifoldebau cyfarwyddwyr o ran cofnodion cyfrifyddu a rheolaeth fewnol

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y Grŵp a datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Cwmni a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cwmniâu. 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r Grŵp a'r Cwmni ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnwl a chadw'r wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd wedi'i chynnwys ar wefannau'r Grŵp a'i chywirdeb. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu paratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Mae pob un o'r Cyfarwyddwyr, y mae eu henwau wedi'u rhestru ar dudalen 109 o'r adroddiad blynnyddol a datganiadau ariannol, yn cadarnhau hyd eithaf eu gwybodaeth:

- Mae'r datganiadau ariannol, a baratowyd yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol, yn rhoi darlun cywir a theg o asedau, rhwymedigaethau, sefyllfa ariannol ac elw'r Grŵp a'r Cwmni;
